



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mercher 16 Mehefin 1999

Wednesday 16 June 1999

Cynnwys Contents

2	Datganiad gan y Llywydd <i>Statement by the Presiding Officer</i>
4	Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol <i>Questions to the Secretary for Health and Social Services</i>
11	Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 <i>Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training</i>
19	Dirprwyo Swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd <i>Delegation of Functions to the First Secretary</i>
27	Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru) ar Gyflogau Athrawon <i>Minority Party Debate (Plaid Cymru) on Teachers' Pay</i>
49	Dadl Plaid Leiafrifol (Y Blaid Geidwadol) ar Arian Cyhoeddus <i>Minority Party Debate (The Conservative Party) on Public Money</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Prynhawn da. Galwaf y Cynulliad Cenedlaethol i drefn.

The Presiding Officer: Good afternoon. I call the National Assembly to order.

Mae gennyf un datganiad ynglŷn â threfn dadleuon. Heddiw yw'r tro cyntaf inni gael dwy ddadl gan y pleidiau, ynghyd â chynigion a gwelliannau. Er mwyn sicrhau bod ein trefn yn glir, yr wyf am ofyn i Aelodau sydd yn cynnig wneud hynny yn glir.

I have one statement to make about the procedure of debate. Today is the first time we have two debates by the parties, along with motions and amendments. To ensure that our procedure is clear, I will ask Members who propose a motion to do so clearly.

Nid yw'n ddigonol wrth drafod cynigion a gwelliannau i siarad ar y cynnig yn unig. Os nad yw'r cynnig wedi'i gynnig yn ffurfiol, nid oes modd o dan y Rheolau Sefydlog i ystyried gwelliannau a galw pleidlais. Mae gan Aelodau gyfle i wneud cynnig ar unrhyw adeg ar ôl cael eu galw. Nid oes angen iddynt ddarllen y cynnig fel y mae'n ymddangos ar yr agenda; cânt gyfeirio ato yn unig.

It is not sufficient when debating motions and amendments simply to speak to the motion. If the motion is not formally moved, under the Standing Orders amendments cannot be considered and a vote cannot be called. Members called to propose a motion may do so at any time after being called. They are not required to read out the motion as it appears on the agenda; they need only refer to it.

Byddai o gymorth i'r Cofnod pe byddai'r Aelodau yn defnyddio'r geiriau 'yr wyf yn cynnig y cynnig' ar y dechrau.

It would help the Record if Members used the words 'I propose the motion' at the beginning.

Rod Richards: This is a point of order of which I have given you prior notice. It relates to Standing Order No. 7.8 (5). During exchanges between the First Secretary and myself yesterday, the First Secretary made allegations which I consider to be offensive. I would also be grateful if you would clarify your remarks following the First Secretary's comments regarding my alleged references to other Members.

Rod Richards: Mae hwn yn fater o drefn y rhoddais rybudd i chi ohono ymlaen llaw. Mae'n ymwneud â Rheol Sefydlog, Rhif 7.8 (5). Yn ystod y drafodaeth rhwng y Prif Ysgrifennydd a minnau ddoe, gwnaeth y Prif Ysgrifennydd haeriadau sydd yn fy marn i yn sarhaus. Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe baech yn egluro'ch sylwadau yn dilyn geiriau'r Prif Ysgrifennydd ynghylch fy nghyfeiriadau honedig at Aelodau eraill.

The First Secretary: I believe Rod Richards's reference is to my response to a suggestion by him during the course of his speech that I was signing correspondence. That happened to be untrue and that is what I said. I am happy to observe any conventions that are decided for this Chamber, and I say this Chamber rather than any other one, but it would be helpful if remarks that are

Y Prif Ysgrifennydd: Credaf fod Rod Richards yn cyfeirio at fy ymateb i awgrym ganddo yn ystod ei araith fy mod yn llofnodi gohebiaeth. Fel y mae'n digwydd, nid oedd hynny'n wir a dyna beth a ddywedais. Yr wyf yn fodlon cadw at unrhyw arferion y penderfynir arnynt ar gyfer y Siambr hon, a dywedaf y Siambr hon yn hytrach nag unrhyw un arall, ond byddai'n gymorth pe na

offensive are not made in the first place.

bai neb yn gwneud sylwadau sarhaus yn y lle cyntaf.

It would have been helpful had Rod Richards not said something untrue, leading me to respond. Perhaps we need to consider carefully the way in which we conduct ourselves in this Chamber. Is the way in which Members conduct themselves and what they do when they sit in their chairs a matter for public comment? The important thing is that Members are in the Chamber listening to the debate. Yesterday I corrected something that was said about me which was untrue. If Rod Richards were to withdraw that remark, I would be happy to withdraw my response to it.

Byddai wedi bod o gymorth pe na bai Rod Richards wedi dweud rhywbeth nad oedd yn wir, gan arwain at fy ymateb innau. Efallai bod angen inni ystyried yn ofalus sut yr ydym yn ymddwyn yn y Siambr hon. A yw'r ffordd y mae Aelodau'n ymddwyn a'r hyn a wnânt wrth iddynt eistedd yn eu cadeiriau yn fater i wneud sylw cyhoeddus amdano? Y peth pwysig yw bod Aelodau yn y Siambr yn gwrandao ar y ddadl. Ddoe cywirais rywbeth a ddywedwyd amdanaf nad oedd yn wir. Pe bai Rod Richards yn tynnu'r sylw hwnnw yn ôl, byddwn innau'n hapus i dynnu yn ôl fy ymateb iddo.

The Presiding Officer: I do not intend to prolong this discussion.

Y Llywydd: Nid wyf yn bwriadu ymestyn y drafodaeth hon.

Rod Richards: With respect, Llywydd, I am perfectly happy to accept if the First Secretary says what I said was untrue. He is entitled to say that. However, he is not entitled to say that I am telling lies. That is another matter and I seek your guidance on that.

Rod Richards: Gyda pharch, Llywydd, yr wyf yn hollol fodlon derbyn os yw'r Prif Ysgrifennydd yn dweud nad oedd yr hyn a ddywedais yn wir. Mae ganddo'r hawl i ddweud hynny. Fodd bynnag, nid oes ganddo'r hawl i ddweud fy mod i'n dweud celwyddau. Mae hynny'n fater arall a cheisiaf eich arweiniad ar hynny.

The First Secretary: If we are going to have conventions like the House of Commons they would have to be decided here and not in the House of Commons. There is a convention in the House of Commons that you do not call a lie a lie and a spade a spade. What we should do is consider the original conduct. Rod Richards said something that was untrue and I pointed that out. This Assembly has to decide on its own conventions. I think he needs to consider his behaviour first.

Y Prif Ysgrifennydd: Os ydym am gael arferion fel rhai Tŷ'r Cyffredin byddai'n rhaid inni benderfynu arnynt yma ac nid yn Nhŷ'r Cyffredin. Yr arfer yn Nhŷ'r Cyffredin yw peidio â galw celwydd yn gelwydd a rhaw yn rhaw. Beth y dylem ni ei wneud yw ystyried yr ymddygiad gwreiddiol. Dywedodd Rod Richards rywbeth nad oedd yn wir ac fe dynnais sylw at hynny. Rhaid i'r Cynulliad hwn benderfynu ar ei arferion ei hun. Yr wyf yn meddwl bod angen iddo ef ystyried ei ymddygiad gyntaf.

The Presiding Officer: Our conduct in this Chamber is governed by our Standing Orders. They are also governed by the Protocol on Conduct in the Chamber, which the Assembly approved on 18 May 1999. This protocol begins with a statement:

Y Llywydd: Rheolir ein hymddygiad yn y Siambr hon gan ein Rheolau Sefydlog. Fe'u rheolir hefyd gan y Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 18 Mai 1999. Mae'r protocol hwn yn dechrau gyda datganiad:

'Members must at all times in their conduct promote respect for the Assembly and extend respect and courtesy to other Members.'

'Rhaid i'r Aelodau hyrwyddo parch tuag at y Cynulliad yn eu hymddygiad a dangos parch a chwarteisi tuag at Aelodau eraill ar bob adeg.'

I have felt on a number of occasions that Members of all parties, almost all parties, have strayed beyond the terms of that Protocol, and the form of conduct appropriate for this National Assembly. I do not intend to take this debate further. In my efforts to maintain order here, I have tried to ensure that we operate in a businesslike fashion, unlike other parliaments and assemblies in these islands, and that practices derived from that tradition are not included here.

Teimlaf ar sawl achlysur fod Aelodau pob plaid, bron pob plaid, wedi crwydro y tu hwnt i delerau'r Protocol hwnnw, a'r dull ymddwyn sydd yn briodol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Nid wyf yn bwriadu bwrw ymlaen â'r ddadl hon ymhellach. Yn fy ymdrechion i gadw trefn yma, ceisiais sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd ymarferol, yn wahanol i seneddau a chynulladau eraill yr ynysoedd hyn, ac nad ydym yn cynnwys arferion sydd yn deillio o'r traddodiad hwnnw.

For example, I have tried to correct the practice of referring to other Members by a form of address that does not include their names. It has been agreed from the beginning that we should, according to paragraph 8 of the Protocol on Conduct, refer to Members by the form of address by which Members wish to be known. I am not aware of any Member in this Chamber who wishes to be known as the Member for so-and-so or somewhere else.

Er enghraifft, ceisiais gywiro'r arfer o gyfeirio at Aelodau eraill drwy eu cyfarch mewn ffordd nad yw'n cynnwys eu henwau. Cytunwyd o'r dechrau y dylem, yn unol â pharagraff 8 y Protocol ar Ymddygiad, gyfeirio at Aelodau drwy eu cyfarch â'r enw y dymuna'r Aelodau gael eu galw wrtho. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw Aelod yn y Siambr hon sydd yn dymuno cael ei adnabod fel yr Aelod dros y fan a'r fan neu'r lle a'r lle.

Therefore, I hope that from now on we will conduct ourselves in line with our Standing Orders and Protocol. I am able to observe any Members writing or e-mailing from here. I can confirm that the First Secretary was not signing letters yesterday because he was using yellow paper.

Felly, gobeithiaf y byddwn o hyn ymlaen yn ymddwyn yn unol â'n Rheolau Sefydlog a'n Protocol. Yr wyf yn gallu gweld unrhyw Aelod sydd yn ysgrifennu neu'n e-bostio o'r fan hon. Gallaf gadarnhau nad oedd y Prif Ysgrifennydd yn llofnodi llythyrau ddoe oherwydd yr oedd yn defnyddio papur melyn.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **Questions to the Secretary for Health and Social Services**

Ysbyty Singleton, Abertawe
Singleton Hospital, Swansea

Q1 Peter Black: Will Jane Hutt give an assurance that once the appropriate powers have been transferred to her, she will commit the Government to maintaining the accident and emergency unit at Singleton Hospital, Swansea, at its current level, providing 24-hour cover? (OAQ98JS)

C1. Peter Black: A fyddai Jane Hutt gystal â'n sicrhau y bydd hi, unwaith y bydd y pwerau priodol wedi'u trosglwyddo iddi, yn ymrwmo'r Llywodraeth i gadw'r un lefel o ddarpariaeth yn yr uned damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Singleton, Abertawe, gan ddarparu gwasanaeth 24 awr? (OAQ98JS)

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): I am glad we have got down to the serious business of health and social services. I am advised by Iechyd Morgannwg Health Authority and the Swansea NHS Trust, that neither has planned to change the current minor injury service which Singleton Hospital provides, and which is an important local facility in the area.

Peter Black: Thank you for that answer. Will you consider pressing the Swansea NHS Trust to upgrade the facilities at Singleton Hospital accident and emergency unit to include the provision of diagnostic X-ray facility?

Jane Hutt: I am aware that the accident and emergency services are provided at Morriston. The 24-hour cover provided at Singleton Hospital is of great importance, and there is good collaboration between the health authority and the trust in funding that, but I will certainly follow up your question.

David Lloyd: Ate gaf fel un o feddygon teulu Abertawe pa mor werthfawr yw'r gwasanaeth yma yn Ysbyty Singleton. Fel Peter yr wyf yn disgwyl gweld estyniad i gynnwys gwasanaethau pelydr-X yn Singleton. Mae uned arbenigol yn Nhreforys, ond nid yw pawb angen gofal dwys mewn argyfwng. Mae nifer o bobl sydd yn cyrraedd uned damweiniau ac argyfwng brys angen mân driniaeth.

Mae Ysbyty Treforys yn brysur iawn ar hyn o bryd ac mae angen help ar y gwasanaeth hwnnw. Byddai estyn y gwasanaeth a gynigir yn Ysbyty Singleton, er enghraifft drwy gynnig gwasanaeth pelydr-X, yn helpu'r gwasanaeth yn Ysbyty Treforys.

2:09 p.m.

Jane Hutt: As I said, I will follow this up. We must make the best use of services such as the minor injuries unit and I will investigate the matter.

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Yr wyf yn falch ein bod ni bellach yn barod i drafod mater difrifol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Cefais wybod gan Awdurdod Iechyd Morgannwg ac Ymddiriedolaeth NHS Abertawe nad oes gan y naill na'r llall gynlluniau i newid y gwasanaeth mân-anafiadau a ddarperir gan Ysbyty Singleton ar hyn o bryd, ac sydd yn gyfleuster lleol pwysig yn yr ardal.

Peter Black: Diolch ichi am yr ateb hwnnw. A fyddwch chi'n ystyried pwyso ar Ymddiriedolaeth NHS Abertawe i wella'r cyfleusterau yn uned damweiniau ac achosion brys Ysbyty Singleton i gynnwys cyfleuster pelydr-X diagnostig?

Jane Hutt: Yr wyf yn ymwybodol bod y gwasanaethau damweiniau a brys yn cael eu darparu yn Nhreforys. Mae'r ddarpariaeth 24-awr yn Ysbyty Singleton o bwys mawr ac mae'r awdurdod iechyd a'r ymddiriedolaeth yn cydweithredu'n dda i'w hariannu ond byddaf yn sicr o fynd ar drywydd eich cwestiwn.

David Lloyd: As one of Swansea's GPs, I endorse how valuable the service at Singleton Hospital is. Like Peter I would wish to see an extension to include X-ray services at Singleton. There is a specialist unit at Morriston, but not everyone needs intensive care as an emergency need. Many people who turn up at an accident and emergency unit just need minor treatment.

Morriston Hospital is very busy at the moment and that service needs assistance. An enhancement of the service offered at Singleton Hospital, such as X-ray services, would assist the service at Morriston Hospital.

Jane Hutt: Fel y dywedais, byddaf yn mynd ar drywydd hyn. Rhaid inni wneud y defnydd gorau o wasanaethau megis yr uned mân anafiadau a byddaf yn ymchwilio i'r mater.

Val Feld: Jane will be aware of the problems caused by Dyfed Powys Health Authority's financial difficulties. They have a significant impact on the financial position of the Swansea health trust, particularly because of the excellent emergency services at Morriston. Will she assure us that the services to the residents of Swansea will not be affected in any detrimental way by the problems in Dyfed Powys?

Jane Hutt: I assure you of that. We are meeting with Dyfed Powys Assembly Members next week to talk about the situation. Neighbouring areas are affected and we will consider that as we look at the problems in Dyfed Powys.

Val Feld: Mae Jane yn ymwybodol o'r problemau sydd wedi codi yn sgîl anawsterau ariannol Awdurdod Iechyd Dyfed Powys. Caiff y rhain effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol ymddiriedolaeth iechyd Abertawe, yn enwedig oherwydd y gwasanaethau brys ardderchog sydd yn Nhreforys. A fyddai hi gystal â'n sicrhau ni na fydd y problemau yn Nyfed Powys yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y gwasanaethau i drigolion Abertawe?

Jane Hutt: Gallaf eich sicrhau chi o hynny. Byddwn yn cyfarfod gydag Aelodau'r Cynulliad sydd yn cynrychioli Dyfed Powys yr wythnos nesaf i drafod y sefyllfa. Mae'r sefyllfa'n effeithio ar ardaloedd cyffiniol a byddwn yn ystyried hynny wrth inni edrych ar y problemau yn Nyfed Powys.

Annhegwch o Safbwynt Iechyd Health Inequalities

Q2 John Griffiths: What strategy will Jane Hutt pursue to tackle health inequalities in Wales? (OAQ117JS)

Jane Hutt: I have made it clear in the Chamber and other places that tackling health inequalities is a major priority in my portfolio. I am grateful that John has given me the opportunity to comment on the long-term public health strategies that we are developing. A great deal has been done as a result of the publication of 'Better Health—Better Wales', the Green Paper. If you have not read it, I urge you to do so. We talked about values and principles yesterday and, with this strategy, we need to set down targets for tackling the gross health inequalities in Wales. It is important to recognise that ill-health is linked to poverty. There are inequalities in Wales and this means that life expectancy in one part of Wales is much less than in another. We must consider the causes of ill-health, and we are aware of its impact on our environment and housing. That was also mentioned yesterday. It also affects our children's opportunities.

C2 John Griffiths: Pa strategaeth y bydd Jane Hutt yn ei dilyn er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch o safbwynt iechyd yng Nghymru? (OAQ117JS)

Jane Hutt: Yr wyf wedi ei gwneud yn glir yn y Siambr ac mewn mannau eraill bod mynd i'r afael ag annhegwch o safbwynt iechyd yn un o brif flaenoriaethau fy mhortffolio. Yr wyf yn ddiolchgar bod John wedi rhoi'r cyfle imi sôn am y strategaeth iechyd cyhoeddus hirdymor yr ydym wrthi'n ei datblygu. Mae llawer iawn wedi'i wneud o ganlyniad i gyhoeddi 'Gwell Iechyd—Gwell Cymru', y Papur Gwyrdd. Os nad ydych wedi ei ddarllen, fe'ch anogaf i wneud hynny. Ddoe, buom yn sôn am werthoedd ac egwyddorion a chyda'r strategaeth hon, mae angen inni nodi targedau er mwyn mynd i'r afael â'r annhegwch dybryd ym maes iechyd yng Nghymru. Mae'n bwysig cydnabod bod cysylltiad rhwng afiechyd a thlodi. Mae yna annhegwch yng Nghymru ac o ganlyniad, ni all pobl sydd yn byw mewn rhai rhannau o Gymru ddisgwyl byw cyhyd â phobl mewn rhannau eraill, ac yr ydym yn ymwybodol o effaith hyn ar ein hamgylchedd a'n tai. Soniwyd am hyn ddoe hefyd. Mae'n effeithio yn ogystal ar y cyfleoedd sydd ar gael i'n plant.

Every Assembly Secretary and Committee has a responsibility to tackle the health inequalities in Wales and everybody must realise that action, targets, priorities and a long-term strategy are required.

John Griffiths: I appreciate that it is a wide-ranging problem and I am glad that you are thinking along wide-ranging lines in formulating a response. Are you satisfied that the resource allocation mechanism for health reflects the challenge that you outlined, especially in socially deprived areas where the inverse care law on health remains far too evident?

Jane Hutt: That is critical when tackling health inequalities. You must also look at service inequalities and health needs. That will have an impact on our way of considering resource allocation. This is a serious point for the Assembly. Will we tackle the pockets of ill-health that mean that the lives of manual unskilled workers, for example, and their children are blighted? Will we all subscribe to the fact that it affects our resource allocation for economic development, education and housing? We must consider that, and we are looking rigorously at the national health service through our stocktaking exercise to see how we are spending our resources and how we can spend them more effectively. That information will also be shared in the Assembly. That means looking across the board at ways of tackling the causes of ill-health—social and economic circumstances.

Dafydd Wigley: Yr ydych yn sôn, Jane, am bwysigrwydd rhaglen gyfnod hir i ddelio ag annhegwch o safbwynt iechyd. A fydddech yn derbyn bod rhaglen gyfalaf gynhwysfawr a chyson yn rhan o'r agwedd cyfnod hir hwnnw? A fydddech yn derbyn bod y cylchlythyr a anfonwyd gan Mr Gregory bythefnos yn ôl wedi arwain at ddod â rhaglenni cyfalaf ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn hon i ben mewn nifer o ardaloedd? Beth yw'r sefyllfa

Mae'n gyfrifoldeb ar bob Ysgrifennydd a Phwyllgor yn y Cynulliad i fynd i'r afael â'r annhegwch sydd ym maes iechyd yng Nghymru a rhaid i bawb sylweddoli bod angen gweithredu, gosod targedau a blaenoriaethau a llunio strategaeth hirdymor.

John Griffiths: Yr wyf yn sylweddoli ehangder y broblem hon ac yr wyf yn falch eich bod yn meddwl ar drywydd eang wrth lunio'ch ymateb. A ydych chi'n fodlon bod y fecanwaith dyrannu adnoddau ar gyfer iechyd yn adlewyrchu'r her a amlinellwyd gennych, yn enwedig mewn ardaloedd dirwasgedig lle mae'r ddeddf gofal groes ar iechyd yn dal i fod yn llawer rhy amlwg?

Jane Hutt: Mae hynny'n hanfodol wrth fynd i'r afael ag annhegwch ym maes iechyd. Rhaid ichi hefyd edrych ar annhegwch yn y gwasanaeth ac ar anghenion iechyd. Bydd hynny'n cael effaith ar y ffordd y byddwn yn ystyried dyrannu adnoddau. Mae hyn yn bwynt difrifol i'r Cynulliad. A fyddwn ni'n mynd i'r afael, er enghraifft, â'r pocedi o afiechyd sydd yn difetha bywydau gweithwyr llaw heb sgiliau, a bywydau eu plant? A fyddwn ni i gyd yn derbyn y caiff hyn effaith ar yr adnoddau a ddyanwn ar gyfer datblygu economaidd, addysg a thai? Rhaid inni ystyried hynny, ac yr ydym yn edrych yn ofalus iawn ar y gwasanaeth iechyd gwladol drwy gyfrif stoc er mwyn gweld sut y byddwn yn gwario ein hadnoddau a sut y gallwn eu gwario'n fwy effeithiol. Bydd y wybodaeth honno hefyd yn cael ei rhannu gyda'r Cynulliad. Mae hynny'n golygu edrych ar y sefyllfa drwyddi draw i weld sut mae mynd i'r afael ag achosion afiechyd—amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.

Dafydd Wigley: You mention, Jane, the importance of having a long-term programme to deal with health inequality. Do you accept that a comprehensive and regular capital programme is part of that attitude and that the circular sent out by Mr Gregory a fortnight ago led to health trusts in many parts of Wales having their capital programmes for this year terminated? What is the situation now with regards to the capital programme? I am thinking of the

yn awr o ran y rhaglen gyfalaf? Yr wyf yn meddwl am sefyllfa ysbyty cymunedol Porthmadog yn arbennig, ond mae hyn yn wir ym mhob rhan o Gymru. Mae angen sicrwydd ac mae angen inni wybod ble yn union yr ydym yn sefyll ac, os ceir adolygiad, pryd bydd yr awdurdodau a'r ymddiriedolaethau iechyd yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol er mwyn ailgydio mewn rhaglen gyfalaf?

Jane Hutt: I took note of this debate yesterday. The First Secretary commented on this year's capital programme and how it has already been allocated. There was a business case for Porthmadog hospital and it was considered in the capital programme. We must now look again at the capital programme for Wales, and we will do that from September onwards. That will give trusts an opportunity to reconsider the matter. This comes back to my previous comments about tackling health needs in Wales, in terms of inequalities and priorities. We will have to discuss priorities as we did yesterday. We will look at the capital programme, and I am sure that the Health and Social Services Committee will raise the same type of question next Wednesday.

David Melding: Carers are often a vulnerable group of people and, frequently, they do not receive the support that they need, particularly from primary health care teams. What assurances can you give that this matter will be resolved in future?

Jane Hutt: David, and other colleagues such as Lynne Neagle, will ensure that carers are a priority on the Health and Social Services Committee's agenda. This matter concerns people's health and social circumstances—the poorer you are, the more difficult it is to be a carer and to receive adequate care services for which so many people have to pay. One of my constituents talked to me about this point a few minutes ago. We must consider the carers' strategy and how we can build it in Wales. We must develop this partnership and I hope that it will be a

situation of the community hospital in Porthmadog, but this is true of every part of Wales. We need assurance and we need to know exactly where we stand and, if there is a review, when should the authorities and health trusts have the necessary information to recommence their capital programmes?

Jane Hutt: Sylwais ar y ddadl hon ddoe. Soniodd y Prif Ysgrifennydd am raglen gyfalaf eleni a sut y mae honno eisoes wedi cael ei dyrannu. Cyflwynwyd achos busnes ynglŷn ag ysbyty Porthmadog, ac fe'i hystyriwyd yn y rhaglen gyfalaf. Bellach, rhaid inni edrych unwaith eto ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer Cymru, a byddwn yn gwneud hynny o fis Medi ymlaen. Bydd hynny'n rhoi cyfle i'r ymddiriedolaethau ailystyried y mater. Mae hyn yn berthnasol i'r sylwadau a wneuthum yn gynharach ynglŷn â mynd i'r afael ag anghenion iechyd yng Nghymru, o ran annhegwch a blaenoriaethau. Bydd yn rhaid inni drafod blaenoriaethau fel y gwnaethom ddoe. Byddwn yn edrych ar y rhaglen gyfalaf, ac yr wyf yn sicr y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi'r un math o gwestiwn ddydd Mercher nesaf.

David Melding: Mae cynhalwyr yn aml iawn yn grŵp o bobl sydd mewn sefyllfa fregus ac nid ydynt bob amser yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, yn enwedig gan dimau gofal iechyd sylfaenol. Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi y bydd y mater hwn yn cael ei ddatrys yn y dyfodol?

Jane Hutt: Bydd David, a chydweithwyr eraill megis Lynne Neagle, yn sicrhau bod cynhalwyr yn flaenoriaeth ar agenda'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn yn fater sydd yn ymwneud ag iechyd pobl a'u hamgylchiadau cymdeithasol—tlotaf yn y byd yr ydych chi, anhawsaf yn y byd yw bod yn gynhaliwr a derbyn gwasanaethau gofal digonol, gwasanaethau y mae'n rhaid i gymaint o bobl dalu amdanynt. Cefais sgwrs gydag un o fy etholwyr am hyn ychydig funudau yn ôl. Rhaid inni ystyried strategaeth ar gyfer

priority on our agenda.

cynhalwyr a meddwl sut mae adeiladu'r strategaeth honno yng Nghymru. Rhaid inni feithrin y bartneriaeth hon a gobeithiaf y bydd yn flaenoriaeth ar ein hagenda.

Clefydau Cynhyrchion Tybaco **Tobacco Product Diseases**

Q3 Alun Pugh: How many people die prematurely in Wales each year as a result of diseases caused by tobacco products? (OAQ121)

Jane Hutt: It is sad that the health education authority estimates the number of deaths caused by smoking in Wales in 1995 was 7,100. That is the latest statistic. Twenty per cent of deaths are considered to be caused by smoking and that is why our public health campaign is so important. It must consider these issues and raise awareness among young people who are vulnerable in this respect.

Alun Pugh: Seven thousand people is equivalent to the entire population of Abergele. It is also equivalent to the adult population of Dinas Powys in your constituency. The death toll from smoking dwarfs the number of deaths from CJD, road accidents and illegal drugs put together. Do you accept that the activities of the multinational tobacco companies in Wales are a bigger threat to public health than 1989 No Frills beefburgers, drunken drivers and a Columbian drug mafia put together?

Jane Hutt: It is important to have an anti-smoking person such as Alun in the Assembly to keep us on our toes, and we should bring these issues to the attention of the Assembly and the wider public. It is vital that we tackle this. The Health and Social Services Committee should look at the White Paper on tobacco, 'Smoking Kills', published by the Government. I am particularly interested in the initiatives that we are developing with young people in schools in Wales. We are involving many schools and considering these issues, but we are also enforcing the law wherever possible.

C3 Alun Pugh: Faint o bobl sydd yn marw cyn eu hamser yng Nghymru bob blwyddyn o ganlyniad i glefydau a achosir gan gynhyrchion tybaco? (OAQ121)

Jane Hutt: Mae'n drist bod yr awdurdod addysg iechyd yn amcangyfrif bod 7,100 o farwolaethau wedi'u hachosi gan ysmegu yng Nghymru yn 1995. Dyna'r ystadegyn diweddaraf. Ystyrir bod ugain y cant o farwolaethau yn cael eu hachosi gan ysmegu a dyna paham y mae ein hymgyrch iechyd cyhoeddus mor bwysig. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r materion hyn a chynyddu'r ymwybyddiaeth ohonynt ymhlith pobl ifanc sydd yn agored i'r fath beryglon.

Alun Pugh: Mae saith mil o bobl yn cyfateb i holl boblogaeth Abergele. Mae hefyd yn cyfateb i boblogaeth oedolion Dinas Powys yn eich etholaeth chi. Mae'r nifer sydd yn marw o ganlyniad i ysmegu yn llawer mwy na'r chyfanswm y nifer sydd yn marw o CJD, damweiniau ar y ffordd a chyffuriau anghyfreithlon. A ydych chi'n derbyn bod gweithgareddau'r cwmnïau tybaco amlwladol yng Nghymru yn fwy o fygythiad i iechyd y cyhoedd nag eidionod No Frills 1989, gyrwyr meddw a maffia cyffuriau Columbia i gyd gyda'i gilydd?

Jane Hutt: Mae'n bwysig cael rhywun sydd yn gwrthwynebu ysmegu megis Alun yn y Cynulliad i'n cadw ni ar flaenau ein traed, a dylem ddwyn y materion hyn i sylw'r Cynulliad a'r cyhoedd. Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â hyn. Dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol edrych ar y Papur Gwyn ar dybaco, 'Mae Ysmegu'n Lladd', a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y cynlluniau yr ydym wrthi'n eu datblygu gyda phobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru. Yr ydym yn cynnwys llawer o ysgolion yn y cynllun ac

yn ystyried y materion hyn, ond yr ydym hefyd yn gorfodi'r gyfraith lle bynnag y bo modd.

2:19 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Bydd Jane yn ymwybodol fod gwahaniaeth sylweddol yn yr arian y mae'r Llywodraeth yn Llundain yn ei dderbyn drwy gyfrwng treth tybaco pobl yng Nghymru, a'r arian sydd yn cael ei wario ar wasanaethau hybu ieched. A all Jane addo y bydd y cyllid ar gyfer hybu ieched yng Nghymru yn cael ei gynyddu yn y flwyddyn nesaf, gan gynnwys rhoi gwybodaeth i bobl ifanc ar beryglon ysmegu?

Ieuan Wyn Jones: Jane will be aware that there is a substantial difference in the money that the Government in London receives from the tobacco duty of people in Wales, and the money spent on health promotion services. Will Jane promise us that the financing of health promotion in Wales will be increased in the coming year, to include giving information to young people on the dangers of smoking?

Jane Hutt: We know that this year's budget is planned, but we need to make sure that it is spent in the best possible way. We will look at the ways it is being spent to ensure that we are maximising our impact on raising awareness about smoking.

Jane Hutt: Gwyddom fod cyllideb eleni eisoes wedi'i chynllunio, ond mae angen inni sicrhau ei bod yn cael ei gwario yn y ffordd orau bosibl. Byddwn yn edrych ar sut y mae'n cael ei gwario er mwyn sicrhau ein bod yn cael y dylanwad mwyaf posibl ar gynyddu ymwybyddiaeth pobl o effeithiau ysmegu.

We have some good schemes in Wales at present. For example, every year we have an anti-smoking competition for years 7 and 8, in which 13,000 children take part. It is awful that some schools, such as one in Cwmbrân, have to hold anti-smoking days to encourage children to give up smoking.

Mae nifer o gynlluniau da ar y gweill yng Nghymru ar hyn o bryd. Er enghraifft, bob blwyddyn, byddwn yn cynnal cystadleuaeth gwrth-ysmygu i flwyddyn 7 ac 8, a bydd 13,000 o blant yn cystadlu. Mae'n ofnadwy bod rhai ysgolion, megis un yng Nghwmbrân, yn gorfod cynnal diwrnodau gwrth-ysmygu i annog plant i roi'r gorau i'r arfer.

These are issues that we need to bring to the forefront. We need to ensure that resources are targeting young people because getting the anti-smoking message across is vital.

Mae'r rhain i gyd yn faterion y mae angen inni eu dwyn i sylw pobl. Rhaid inni sicrhau bod adnoddau'n targedu pobl ifanc oherwydd mae'n hollbwysig inni gyfleu'r neges wrth-ysmygu.

Lorraine Barrett: When I first visited the Assembly building, I was delighted about the fact that it is a no-smoking zone. I hope that Jane, along with the rest of us will ensure that it remains that way. There are one or two Members prone to the filthy habit, who have been muttering about getting a smoking room in this building. It would be unfair for the staff to have to clean those rooms because they would be foul. Long may this healthy building continue.

Lorraine Barrett: Pan ymwelais ag adeilad y Cynulliad y tro cyntaf, yr oeddwn wrth fy modd nad oes neb yn cael ysmegu yma. Gobeithiaf y bydd Jane, ynghyd â'r gweddill ohonom yn sicrhau mai felly y bydd hi'n parhau. Mae un neu ddau Aelod sydd yn gaeth i'r arfer ffiaidd wedi bod yn sôn dan eu gwynt am gael ystafell ysmegu yn yr adeilad hwn. Byddai'n annheg disgwyl i'r staff orfod glanhau budreddi'r ystafelloedd hynny. Hir oes i'r adeilad iach hwn.

Jane Hutt: I hope that we can convert our friends who are smokers. Unfortunately, a lot of the poorest people in Wales are people who smoke. They are not people such as ourselves whom I would describe as professional non-smokers. We must be aware of the link between smoking, ill health and poverty.

Jane Hutt: Gobeithiaf y gallwn ddylanwadu ar ein cyfeillion sydd yn ysmegu. Yn anffodus, mae llawer o'r bobl dlotaf yng Nghymru yn bobl sydd yn ysmegu. Nid pobl broffesiynol nad ydynt yn ysmegu fel ni mohonynt. Rhaid inni fod yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng ysmegu, afiechyd a thlodi.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

Cynnwys Cyflogwyr mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Including Employers in Post-16 Education and Training

Q1 Jonathan Morgan: What plans does Tom Middlehurst have to include employers in the design and delivery of post-16 education and training in Wales? (OAQ102JS)

C1 Jonathan Morgan: Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i gynnwys cyflogwyr yn y broses o gynllunio a chyflwyno addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed yng Nghymru? (OAQ102JS)

Addysg Bellach a Datblygiad Economaidd Further Education and Economic Development

Q7 Jonathan Morgan: Will Tom Middlehurst outline the future contribution of further education colleges to economic development in Wales?(OAQ114JS)

C7 Jonathan Morgan: A wnaiff Tom Middlehurst amlinellu cyfraniad y colegau addysg bellach yn y dyfodol at ddatblygiad economaidd yng Nghymru?(OAQ114JS)

The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst): I give an absolute assurance that employers will be involved in our plans for post-16 education and training. The Education and Training Action Group report has been widely welcomed and the Assembly has inherited it as a blueprint for the way forward. The ETAG report has not merely developed from the work of the Welsh Office, but from the work of employers and further education college boards.

Yr Ysgrifennydd dros Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst): Gallaf eich sicrhau yn bendant y bydd cyflogwyr yn cael eu cynnwys yn ein cynlluniau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16. Cafodd adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant groeso eang ac mae'r Cynulliad wedi ei etifeddu fel patrwm i'n rhoi ar ben y ffordd. Nid o waith y Swyddfa Gymreig yn unig y datblygodd adroddiad y Grŵp ond o waith cyflogwyr a byrddau colegau addysg bellach.

I am excited at the prospect of inheriting from Peter Hain the task of working with employers. I pay tribute to the work of Peter Hain, chair of ETAG, in driving forward this project. I also pay tribute to the work of those who have contributed to a positive and constructive report.

Mae etifeddu gan Peter Hain y dasg o weithio gyda chyflogwyr yn brofiad cyffrous iawn. Talaf deyrnged i waith Peter Hain, cadeirydd ETAG am yrru'r prosiect hwn yn ei flaen. Talaf deyrnged hefyd i waith y rheini sydd wedi cyfrannu at adroddiad cadarnhaol ac adeiladol.

As we develop our plans, we will ensure that further education colleges continue to work closely with employers in delivering the

Wrth inni ddatblygu ein cynlluniau, byddwn yn sicrhau bod y colegau addysg bellach yn parhau i weithio'n glòs gyda chyflogwyr i

skills that they need, through schemes such as the Knowledge Exploitation Fund—to the value of over £15 million in the next two years. This will help our further and higher education colleges to contribute more towards wealth creation and community development.

Jonathan Morgan: Many Members will have read the ETAG report and the Future Skills Wales report. Many small and medium size enterprises were consulted through a series of surveys to find out what their skills needs were. Does the Assembly Secretary not agree that there is still a large number of SMEs which have not been contacted and would like to contribute to this debate? Will the Secretary outline any plans for conducting further skills audits?

Tom Middlehurst: As Jonathan Morgan will know, the ETAG action plan is on the agenda for the June 23 meeting of the Post-16 Education and Training Committee and I am sure that those are some of the issues he will want to pursue. The Further Education Council, along with further education colleges, has been asked to develop measures to meet the needs of business, industry and commerce by taking the Future Skills Wales survey into account. This will focus on the skills needs of employment and the development of links with SMEs.

Further education supports, though partnership and collaboration, the needs of employers in facing the challenges of new technologies. An example is Swansea College's new £1 million Cygnus Online facility that was developed with the backing of Welsh Development Agency and others. It will provide up to date information and communication technology training for SMEs. Many SMEs and a considerable number of large companies such as Sony, British Steel and LG have derived benefits from close relationships with colleges, as they have helped to address their education and training plans.

gyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen arnynt, drwy gyfrwng cynlluniau megis y Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth—a fydd yn werth dros £15 miliwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn gymorth i'n colegau addysg bellach ac uwch gyfrannu rhagor tuag at greu cyfoeth a datblygu'n cymunedau.

Jonathan Morgan: Bydd llawer o'r Aelodau wedi darllen adroddiad ETAG ac adroddiad Sgiliau Dyfodol Cymru. Ymgynghorwyd â llawer o gwmnïau bychain a chanolig eu maint drwy gyfrwng cyfres o arolygon i ganfod beth oedd eu hanghenion o safbwynt sgiliau. Onid yw'r Ysgrifennydd Cynulliad yn cytuno bod nifer fawr o gwmnïau bach a chanolig heb gael cyfle i fynegi barn ac a fyddai yn hoffi cyfrannu at y ddatl hon? A wnaiff yr Ysgrifennydd amlinellu unrhyw gynlluniau ar gyfer cynnal rhagor o archwiliadau ar sgiliau?

Tom Middlehurst: Fel y gŵyr Jonathan Morgan, mae cynllun gweithredu ETAG ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 sydd i'w gynnal ar 23 Mehefin ac yr wyf yn sicr bod y rheini'n rhai o'r materion y bydd am fynd ar eu trywydd. Gofynnwyd i'r Cyngor Addysg Bellach, ynghyd â cholegau addysg bellach gymryd camau a fydd yn ateb gofynion byd busnes, diwydiant a masnach drwy ystyried arolwg Sgiliau'r Dyfodol i Gymru. Bydd hwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen ar fyd cyflogaeth ac ar feithrin cysylltiadau gyda chwmnïau bach a chanolig eu maint.

Drwy greu partneriaethau a chydweithio, bydd addysg bellach yn cefnogi anghenion cyflogwyr wrth iddynt wynebu her technolegau newydd. Un enghraifft yw cyfleuster newydd Cygnus Online Coleg Abertawe a gostiodd £1 miliwn ac a ddatblygwyd gyda chefnogaeth Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill. Bydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf a hyfforddiant ar dechnoleg cyfathrebu i gwmnïau bach a chanolig eu maint. Bydd llawer o'r cwmnïau hyn a nifer sylweddol o gwmnïau mawr megis Sony, British Steel ac LG wedi cael budd o'r berthynas agos rhyngddynt a cholegau wrth iddynt eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'u cynlluniau addysg a hyfforddi.

I draw attention to yesterday's article in the *Daily Post* about the agreements between Iceland and Deeside College, both of which are in my constituency. The agreement is worth £1.25 million, and will provide a range of provisions to deal with the training needs of the 18,000 staff that Iceland employs throughout the UK, through a consortium arrangement with 15 other colleges. That approach is to be commended and I hope Members agree with me.

Tynnaf sylw at erthygl a ymddangosodd ddoe yn y *Daily Post* ynghylch y cytundebau rhwng Iceland a Choleg Glannau Dyfrdwy. Mae'r ddau yn fy etholaeth i. Mae'r cytundeb yn werth £1.25 miliwn a bydd yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaethau i ymdrin ag anghenion hyfforddi'r staff o 18,000 a gyflogir gan Iceland ledled gwledydd y DU, drwy gyfrwng trefniant consortiwm gyda 15 coleg arall. Dylid cymeradwyo safbwynt o'r fath a gobeithiaf fod yr Aelodau'n cytuno â mi.

Elin Jones: Y peth sydd yn bwysig yn y maes hwn yw sicrhau fod yna strategaethau lleol ar gyfer darparu hyfforddiant a sicrhau hefyd fod hyfforddiant yn berthnasol i'r sefyllfa economaidd leol. Nid yr un ddarpariaeth hyfforddiant sydd ei hangen ar gyflogwyr yng Nghasnewydd ag yng Ngheredigion er enghraifft. Mae'n bwysig ein bod ni'n hyfforddi pobl ar gyfer swyddi sydd ar gael iddynt yn lleol. Rhaid inni osgoi hyfforddi pobl ar gyfer swyddi nad ydynt ar gael yn lleol oherwydd maent wedyn yn gorfod gadael eu hardaloedd.

Elin Jones: It is important to ensure that in this field there are local strategies for training provision and that the training is relevant to the local economic situation. Newport may not need the same training provision as Ceredigion for instance. It is important that we train people for the jobs that are available locally. We should avoid training people for jobs that are not available locally because they are then forced to leave their areas.

Hyd yn hyn, nid yw darpariaeth hyfforddiant wedi canolbwyntio'n ddigonol ar anghenion cyflogwyr lleol. O ganlyniad, mae diffyg darpariaeth hyfforddi mewn ardaloedd gwledig ar gyfer y sector prosesu bwyd, sydd hefyd yn sector twf. Pan fyddwn yn trafod adroddiad ETAG yn y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, mae'n bwysig ein bod yn rhoi rôl ganolog i ddatblygu strategaethau lleol ar gyfer darparu hyfforddiant.

To date, training provision has not focused adequately on the needs of local employers. As a result, there is a lack of training provision in rural areas for the food sector, which is also a growth sector. When we discuss the ETAG report in the Post-16 Education and Training Committee, it is important that we give a central role to the development of local strategies for training provision.

Tom Middlehurst: Delivery of training must be tailored to local needs. In determining local needs we must listen to what employers need. I believe this issue will be one of the central elements of Committee meetings over the next few months. The ETAG report has been put on the agenda of many Committee meetings and I am certain that Members will raise these issues in the future.

Tom Middlehurst: Rhaid teilwrio hyfforddiant ar gyfer anghenion lleol. Wrth bennu'r angen lleol, rhaid inni wrando ar yr hyn sydd ei angen ar gyflogwyr. Credaf y bydd hyn yn un o elfennau canolog cyfarfodydd Pwyllgor yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Rhoddwyd adroddiad ETAG ar agenda sawl cyfarfod Pwyllgor ac yr wyf yn sicr y bydd Aelodau'n codi'r materion hyn yn y dyfodol.

Mick Bates: I agree with Elin's remarks about rurality. It is an issue on which we have to focus. I am concerned about the role of Training and Enterprise Councils and the

Mick Bates: Cytunaf â sylwadau Elin am gefn gwlad. Mae'n fater y mae'n rhaid inni ganolbwyntio arno. Yr wyf yn bryderus ynghylch swyddogaeth y Cyngorau

possibility that we will lose the approach that is offered by small businesses. I would like to hear Tom Middlehurst's views on the subject of the continued contribution of TECs in the delivery of innovation.

Hyfforddi a Menter a'r posibilrwydd y byddwn ni'n colli'r hyn sydd gan fusnesau bychain i'w gynnig. Hoffwn glywed barn Tom Middlehurst ar bwnc parhau â chyfraniad y CHM ym maes arloesi.

2:29 p.m.

Tom Middlehurst: I am aware of these concerns, which have been expressed in many quarters. ETAG stressed that the sort of vital functions currently undertaken by TECs, like those for workplace training, must be absorbed into every new structure. These functions will provide the important building blocks for local delivery and we can give detailed consideration to how we ensure those commitments are met in the Subject Committee.

Tom Middlehurst: Yr wyf yn ymwybodol o'r pryderon hyn a fynegwyd o sawl tu. Pwysleisiodd ETAG fod yn rhaid i'r math o swyddogaethau hanfodol a gyflawnir gan y CHM ar hyn o bryd, er enghraifft y rheini sydd yn ymwneud â hyfforddiant yn y gweithle, gael eu hymgorffori ym mhob strwythur newydd. Y swyddogaethau hyn fydd y blociau adeiladu pwysig a fydd yn sicrhau'r ddarpariaeth yn lleol. Gallwn roi ystyriaeth fanwl i sut y byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu cadw yn y Pwyllgor Pwnc.

Addysg Bellach (Ardaloedd Gwledig) Further Education (Rural Areas)

Q2 Alun Pugh: How will you ensure that people living in sparsely populated rural areas have access to 'adequate and sufficient' further education opportunities? (QAQ119JS)

C2 Alun Pugh: Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig, tenau eu poblogaeth, yn cael cyfleoedd 'digonol a chyflawn' i dderbyn addysg bellach? (QAQ119JS)

Tom Middlehurst: Increased money was earmarked for further education this year and the next two years. Given his background, I am sure Alun Pugh is aware of that. This allows for at least 28,000 additional further education students by the year 2002.

Tom Middlehurst: Clustnodwyd rhagor o arian ar gyfer addysg bellach eleni ac ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Ac ystyried ei gefndir, yr wyf yn siŵr bod Alun Pugh yn ymwybodol o hynny. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer o leiaf 28,000 o fyfyrwyr addysg bellach ychwanegol erbyn y flwyddyn 2002.

Further education students' access funds are being increased from £0.5 million in 1998-99 to a total of £13.3 million between 1999-2000 and 2001 and 2002, to provide access and improve retention.

Cynyddir cronfeydd mynediad myfyrwyr addysg bellach o £0.5 miliwn yn 1998-99 i gyfanswm o £13.3 miliwn rhwng 1999-2000 a 2001 a 2002, er mwyn darparu mynediad a sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn cwblhau eu cyrsiau.

The development of national initiatives such as the UK-wide university of industry and the Wales Digital College Network will further enhance learning opportunities through information and communications technology. These measures will benefit every part of Wales, not least the rural areas.

Bydd datblygu cynlluniau cenedlaethol megis prifysgol diwydiant ledled gwledydd y DU a rhwydwaith Coleg Digidol Cymru'n creu rhagor o gyfleoedd dysgu eto drwy gyfrwng technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Bydd y datblygiadau hyn yn dod â budd i bob rhan o Gymru, yn enwedig i'r ardaloedd gwledig.

Alun Pugh: If you live in areas like Colwyn Bay or Ruthin you have very good access to high-quality training opportunities, but this is not always the case in rural areas. So, do you believe that the Joint Academic Network, the JANET network, should be extended to allow people access to high-quality learning opportunities through information technology?

Alun Pugh: Os ydych chi'n byw mewn ardaloedd megis Bae Colwyn neu Ruthun, mae'n hawdd ichi gael gafael ar gyfleoedd hyfforddi o safon uchel, ond nid yw hyn bob amser yn wir am ardaloedd gwledig. Felly, a ydych chi'n credu y dylid ymestyn y Cyd-Rwydwaith Academaidd, sef rhwydwaith JANET, er mwyn rhoi cyfle i bobl fanteisio ar gyfleoedd i gael addysg o safon uchel drwy gyfrwng technoleg gwybodaeth?

Tom Middlehurst: All Further Education colleges have been linked to the JANET network, and rural institutions are developing their information and learning technology strategies to facilitate their outreach, open and distant learning capabilities.

Tom Middlehurst: Mae pob coleg Addysg Bellach wedi'i gysylltu â rhwydwaith JANET, ac mae sefydliadau gwledig yn datblygu eu strategaethau technoleg gwybodaeth a dysgu i hwyluso'u gallu i ddarparu dysgu estyn-allan, dysgu agored a dysgu o bell.

Cyflwyno Ffioedd Hyfforddi Introduction of Tuition Fees

Q3 Michael German: Will Tom Middlehurst specify the issues which would be important considerations in addressing the matter of the introduction of student tuition fees in higher education institutions in Wales and the issues which would face the National Assembly in reviewing this decision? (OAQ103JS)

C3 Michael German: A wnaiff Tom Middlehurst nodi pa faterion a fyddai'n ystyriaethau pwysig wrth fynd i'r afael â phwnc cyflwyno ffioedd hyfforddi myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r materion a fyddai'n wynebu'r Cynulliad Cenedlaethol wrth adolygu'r penderfyniad hwn? (OAQ103JS)

Tom Middlehurst: The higher education sector in Wales will gain income amounting to £66 million from private contributions to tuition fees over three years to 2001-2002, including contributions from students domiciled in England who fill nearly half the places at Welsh higher education institutions.

Tom Middlehurst: Bydd y sector uwch yng Nghymru yn ennill incwm o £66 miliwn o du cyfraniadau preifat tuag at ffioedd hyfforddi dros dair blynedd hyd at 2001-2002, gan gynnwys cyfraniadau gan fyfyrwyr â'u cartrefi yn Lloegr sydd yn llenwi bron i hanner lleoedd sefydliadau addysg uwch Cymru.

The new funding system is based on the principle that costs of higher education should be shared by those who benefit. It is designed to ensure equity, whilst at the same time enabling access to higher education regardless of a student's circumstances or financial background and ensuring free education for the least well off. Responsibility for student matters, including tuition fees for England and Wales, rests with the Department for Education and Employment. This function was not

Seilir y drefn gyllido newydd ar yr egwyddor mai'r sawl sydd yn cael budd o addysg uwch a ddylai rannu'r costau. Y nod yw sicrhau tegwch, ac ar yr un pryd agor drysau addysg uwch, waeth beth fo amgylchiadau neu gefndir ariannol myfyriwr a sicrhau addysg am ddim i'r lleiaf cefnog. Yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd yn gyfrifol am faterion myfyrwyr, gan gynnwys ffioedd hyfforddi ar gyfer Cymru a Lloegr. Ni throsglwyddwyd y swyddogaeth hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

transferred to the National Assembly for Wales.

Michael German: Does Tom share my concerns on the introduction of tuition fees, which are excluding people from the higher education needed to raise our skills base in Wales? Does he agree that the early indications from the clearing house are that the number of applications, particularly from those who are older and post-18, is reduced in Wales. People are being put off by increases in tuition fees and fewer people, particularly those who are more mature, are applying for these places. We must consider the effect this will have on raising the skills levels that are so important to the development of a new economic base for Wales.

Tom Middlehurst: The Government strategy will widen access and improve and increase student numbers. That policy objective was adopted following the Dearing Report. The Government's funding arrangements for higher education were built on the Dearing Inquiry. They are designed to ensure equity. They offer a fairer and a more progressive system than the previous confusion of loans and grants, parental, spouses and individual contributions. The new arrangements are designed to protect those in need. Tuition fees continue to be free to students from lower income families, amounting to 30 per cent of the students whose parental income is taken into account and a further third who will pay less than the full fee.

The Government has taken other measures to widen access. A number of positive steps recently included extension of the subsidised loans available to 50 to 54-year-olds, consistent with the Government's policy on lifelong learning, hardship loans of £250 for students who are in financial difficulties and a whole raft of other measures designed to open up access to universities. There are many positive Government policies that are particularly designed to increase student numbers in higher education.

Michael German: A yw Tom yn rhannu fy mhryderon ynghylch cyflwyno ffioedd hyfforddi sydd yn cau pobl allan o'r addysg uwch sydd gymaint ei hangen os ydym am godi safon sylfaenol ein sgiliau yng Nghymru? A yw'n cytuno bod yr ystadegau cyntaf gan y tŷ clirio yn awgrymu bod gostyngiad yn nifer y ceisiadau, yn enwedig gan bobl hŷn a thros 18 yng Nghymru. Mae'r cynnydd yn y ffioedd hyfforddi yn gwneud i bobl gadw draw ac mae llai o bobl, yn enwedig y rhai hŷn, yn gwneud cais am y lleoedd hyn. Rhaid inni ystyried yr effaith a gaiff hyn ar wella lefelau'r sgiliau sydd mor bwysig er mwyn datblygu sylfaen economaidd newydd i Gymru.

Tom Middlehurst: Bydd strategaeth y Llywodraeth yn agor mwy o ddrysau ac yn gwella a chynyddu niferoedd y myfyrwyr. Mabwysiadwyd yr amcan polisi hwnnw ar ôl Adroddiad Dearing. Seiliwyd trefniadau cyllido'r Llywodraeth ar gyfer addysg uwch ar Ymchwiliad Dearing. Y nod oedd sicrhau tegwch. Maent yn cynnig trefn decach a mwy blaengar na'r hen ddryswch o fenthyciadau a grantiau, a chyfraniadau gan rieni, cymar neu unigolyn. Nod y trefniadau newydd yw gwarchod y sawl sydd mewn angen. Nid oes raid i fyfyrwyr o deuluoedd is eu hincwm dalu'r ffioedd dan y drefn newydd sef oddeutu 30 y cant o'r myfyrwyr yr ystyrir incwm eu rhieni ac mae yna draean arall a fydd yn talu llai na'r ffi lawn.

Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau eraill i agor drysau. Ymhlith y camau cadarnhaol a gymerwyd yn ddiweddar yr oedd ymestyn y benthyciadau gyda chymhorthdal sydd ar gael i bobl rhwng 50 a 54 oed, sydd yn gyson â pholisi'r Llywodraeth ar ddysgu gydol oes, cynnig benthyciadau caledi o £250 i fyfyrwyr sydd mewn trafferthion ariannol a llu o fesurau eraill a gynlluniwyd er mwyn agor drysau prifysgolion. Mae gan y Llywodraeth lawer o bolisiau cadarnhaol sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gynyddu nifer myfyrwyr addysg uwch.

Phil Williams: Is the Secretary aware that recent research by the Higher Education Funding Council, stated that children from the population section with highest average income are 15 times more likely to go to university than children from the poorer section.

Does he not agree that the abolition of grants and the introduction of fees for the majority of students will not reduce that inequality?

Tom Middlehurst: I agree that we must open access especially for poorer families to ensure that they have every opportunity to enter higher education. I do not accept that those measures in themselves are a necessary impediment to access. On the contrary, the Government is trying to introduce a number of measures that will make it easier for low income families to access higher education. A number of recent measures taken by the Government to try to mitigate the impact of student loans have started to take effect. Examples include, free remission for part-time students in higher education who lose their jobs; from September part-time higher education students on low incomes, such as those on state benefits, will no longer have to pay tuition fees. Also from September, there will be a new grant of up to a £100 per week to help with the housing costs of young people under-21, who have been in care and who enter university. These are all very positive measures to assist the more vulnerable and needy in our society.

Phil Williams: A yw'r Ysgrifennydd yn ymwybodol bod gwaith ymchwil diweddar gan y Cyngor Cyllido Addysg Bellach yn dweud bod plant o'r garfan honno o'r boblogaeth sydd â'r incwm uchaf ar gyfartaledd 15 gwaith yn fwy tebygol o fynd i'r brifysgol na phlant o'r garfan dlotach.

Onid yw'n cytuno na fydd dileu grantiau a chyflwyno ffioedd ar gyfer mwyafrif y myfyrwyr yn dileu'r annhegwch hwnnw?

Tom Middlehurst: Cytunaf fod yn rhaid inni agor drysau, yn enwedig i deuluoedd tlawd, er mwyn sicrhau bod ganddynt bob cyfle i fynd i mewn i addysg uwch. Nid wyf yn derbyn bod y mesurau hynny ynddynt eu hunain o anghenraid yn rhwystro mynediad. I'r gwrthwyneb, mae'r Llywodraeth yn ceisio cyflwyno nifer o fesurau a fydd yn ei gwneud yn haws i deuluoedd ar incwm isel fynd i mewn i addysg uwch. Mae nifer o gamau a gymerwyd gan y Llywodraeth yn ddiweddar i geisio lliniaru effaith benthyciadau i fyfyrwyr wedi dechrau cael effaith. Dyma rai enghreifftiau: dileu'r ffi i fyfyrwyr addysg uwch rhan amser sydd yn colli eu swyddi; o fis Medi ni fydd rhaid i fyfyrwyr addysg uwch rhan amser ar incwm isel, megis rhai sydd yn cael budd-dal gan y wladwriaeth dalu ffioedd hyfforddi. Hefyd, o fis Medi ymlaen, bydd grant newydd o hyd at £100 yr wythnos ar gael i gynorthwyo gyda chostau llety pobl dan 21 oed sydd wedi bod mewn gofal ac yn dechrau yn y brifysgol. Mae'r rhain i gyd yn gamau cadarnhaol iawn i gynorthwyo'r bobl fwyaf bregus ac anghenus yn ein cymdeithas.

Gofal Plant Childcare

Q4 Christine Chapman: Does Tom Middlehurst intend to ensure that adequate and affordable childcare provision is available throughout Wales for all those who wish to be able to take part in training and learning opportunities? (OAQ127)

Tom Middlehurst: I am sure you are aware that the National Childcare Strategy in Wales aims to ensure that good quality, affordable

C4 Christine Chapman: A yw Tom Middlehurst yn bwriadu sicrhau y bydd gofal plant digonol a fforddiadwy ar gael ledled Cymru i'r bobl hynny sydd am dderbyn cyfleoedd i ddysgu ac i dderbyn hyfforddiant? (OAQ127)

Tom Middlehurst: Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol mai nod y Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant yng Nghymru yw

and accessible childcare is available for parents who wish to work outside the home or to take part in training and education. In order to make childcare more affordable and accessible for those in further and higher education there has been a significant increase in access funds over the period covered by the comprehensive spending review. Help with childcare is also available for those participating in New Deal and Work Place Learning for Adults.

sicrhau bod gofal plant o safon dda, sydd yn fforddiadwy a hawdd cael gafael arno ar gael i rieni sydd am weithio y tu allan i'r cartref neu am gael addysg neu hyfforddiant. Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu fforddio gofal plant a'i bod yn haws i bobl mewn addysg bellach ac uwch gael gafael arno, bu cynnydd sylweddol yn y cronfeydd mynediad yn ystod cyfnod yr adolygiad gwario cynhwysfawr. Mae cymorth gyda gofal plant ar gael hefyd i'r sawl sydd yn rhan o gynllun y Fargen Newydd a chynllun Dysgu yn y Gweithle i Oedolion.

I am pleased the Labour Government has recognised the importance of childcare, supported I am sure, by other parties in this Chamber. I am also pleased to note that the Welsh Affairs Committee is visiting Newport next week to publish its report. The Cabinet also includes someone with considerable expertise in the field of childcare, my colleague Jane Hutt. I shall certainly be learning from her.

Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth Lafur wedi cydnabod pwysigrwydd gofal plant a bod pleidiau eraill yn y Siambr yn siŵr o gefnogi hynny. Yr wyf hefyd yn falch o nodi bod y Pwyllgor Materion Cymreig yn ymweld â Chasnewydd yr wythnos nesaf i gyhoeddi ei adroddiad. Mae'r Cabinet hefyd yn cynnwys rhywun sydd â phrofiad sylweddol ym maes gofal plant, fy nghydweithwraig Jane Hutt. Byddaf yn sicr o ddysgu ganddi.

Christine Chapman: When ensuring that education and training providers address the issue of childcare, will you also ensure that these providers address the wider issue of equality of opportunity for all?

Christine Chapman: Wrth sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn mynd i'r afael â mater gofal plant, a fyddwch chi hefyd yn sicrhau bod y darparwyr hyn yn mynd i'r afael â mater ehangach cyfle cyfartal i bawb?

We almost need a distinct culture change in this country so that the education and training needs of women, those with disabilities and ethnic minorities, are given the priority they deserve. This has not always been the case in the past.

Bron y gellir dweud bod angen newid diwylliant llwyr yn y wlad hon er mwyn sicrhau bod anghenion addysg a hyfforddi menywod, pobl ag anableddau a lleiafrifoedd ethnig yn cael y flaenoriaeth a haeddant. Nid yw hyn bob amser wedi bod yn wir yn y gorffennol.

2:39 p.m.

Tom Middlehurst: The National Childcare Strategy is being taken forward by local partnerships, which will continue to work to ensure the good quality, affordable childcare, is available for children from 0 to 14 in every neighbourhood in Wales.

Tom Middlehurst: Bwrir ymlaen gyda'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant gan bartneriaethau lleol, a fydd yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod gofal plant o safon uchel, fforddiadwy, ar gael i blant rhwng 0 a 14 oed ym mhob cymdogaeth yng Nghymru.

The First Secretary announced funding of £2.4 million for the Childcare Strategy in

Cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd gyllid o £2.4 miliwn ar gyfer y Strategaeth Gofal

Wales in 1999-2000. Local authorities will distribute £1.4 million of that sum among 22 early years development and childcare partnerships. Around £900,000 will go to TECs to provide infrastructure support for out-of-school childcare provision which is eligible for funding from the new opportunities fund. In addition, £150,000 has been allocated to continue the under five initiative this year.

Helen Mary Jones: I welcome Tom's response to Christine's questions, and I would like to ask him what provisions are being made through the National Childcare Strategy and local partnerships, in terms of access to education, to ensure that there is childcare provision through the medium of Welsh, and, where appropriate, through ethnic-minority languages.

We know that Welsh-speaking women take longer out of the workplace than their English-speaking counterparts, and there may be many reasons for this, for example, the lack of childcare places through the medium of Welsh. So, I would be grateful to hear what specific provision is available for families who speak Welsh and ethnic-minority languages.

Tom Middlehurst: I am sure that any policies we adopt in addressing the needs of Welsh speakers or those of ethnic-minority languages will be fair and equitable. I cannot give you any statistics to support that Helen, but I will certainly obtain some information for you if you wish. However, I give you an absolute commitment that there will be fair and equitable treatment for all people in Wales as long as I am Secretary.

Plant yng Nghymru yn 1999-2000. Bydd awdurdodau lleol yn dosbarthu £1.4 miliwn o'r swm hwnnw ymhlith 22 o bartneriaethau sydd yn ymwneud â datblygiad yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Bydd oddeutu £900,000 yn mynd i'r CHM i ddarparu cefnogaeth seilwaith ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol sydd yn gymwys i gael nawdd gan y gronfa cyfleoedd newydd. Hefyd, dyrannwyd £150,000 i fwrw ymlaen â'r cynllun dan bump eleni.

Helen Mary Jones: Croesawaf ymateb Tom i gwestiynau Christine a hoffwn ofyn iddo pa ddarpariaethau a wneir drwy'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant a phartneriaethau lleol, o ran mynediad at addysg, er mwyn sicrhau bod darpariaeth gofal plant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a lle bo hynny'n briodol, drwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifoedd ethnig.

Gwyddom fod menywod Cymraeg eu hiaith yn treulio cyfnodau hwy y tu allan i'r gweithle na'u cymheiriaid Saesneg eu hiaith, ac efallai bod sawl rheswm dros hyn, er enghraifft, y diffyg lleoedd gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, byddwn yn ddiolchgar o gael clywed pa ddarpariaeth benodol sydd ar gael ar gyfer teuluoedd sydd yn siarad Cymraeg ac ieithoedd lleiafrifoedd ethnig.

Tom Middlehurst: Yr wyf yn siŵr y bydd unrhyw bolisiâu a fabwysiadwn i fynd i'r afael ag anghenion siaradwyr Cymraeg neu bobl sydd yn siarad ieithoedd lleiafrifoedd ethnig yn deg ac yn gydradd. Ni allaf roi unrhyw ystadegau ichi i gefnogi hynny Helen, ond yn sicr fe gaf y wybodaeth ichi os dymunwch. Fodd bynnag, rhoddaf ymrwymiad llwyr ichi y bydd pawb yng Nghymru yn cael eu trin yn deg ac yn gydradd cyhyd ag y byddaf fi'n Ysgrifennydd.

Dirprwydd Swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd Delegation of Functions to the First Secretary

The Presiding Officer: I have received three amendments and I will call the Members who proposed these amendments to move them

Y Llywydd: Derbyniais dri gwelliant a galwaf yr Aelodau a gynigiodd y gwelliannau hyn i'w cynnig ar ôl i'r Trefnydd gynnig y

after the Business Secretary has proposed the governing motion.

Andrew Davies: I propose that

the Assembly, acting under Section 62(1)(b) of the Government of Wales Act 1998, resolves to delegate, subject to paragraph (2) and any other resolution of the Assembly, its functions to the Assembly First Secretary; Paragraph (1) does not apply to any function in respect of which the Assembly is precluded under that Act from delegating.

I know that amendments to the motion and the supporting documents—discharge of functions under the Government of Wales Act, delegations and accountability—have been tabled. The amendment on the document is proposed by Dr John Marek, and the other amendments on the motion by Michael German. The Government is content to accept those amendments and I hope that members will vote to accept the amended version. If the motion is accepted, I will arrange for a revised copy of the document to be laid in the Table Office this week.

John Marek: I propose the following amendment. Following paragraph 6 add::

The First Secretary shall as soon as is practicable lay before the Assembly details of all powers he has delegated to other Assembly Secretaries and those which he has kept unto himself.

I am pleased to hear that the Government is going to accept this amendment. I cannot accuse it of inundating the Assembly with lots of information. I proposed the amendment to acquire more information on what exactly the Assembly's powers are. I hope the details will be reasonably precise. Obviously the details cannot be 100 per cent comprehensive. There will now be a real attempt to inform the Assembly on what decisions are being made, and the Assembly can reconsider the document at a later stage.

Michael German: I propose the following

prif gynnig.

Andrew Davies: Cynigiaf fod

*Bod y Cynulliad, yn gweithredu o dan Adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo ei swyddogaethau, yn unol â pharagraff (2) ac unrhyw benderfyniad arall gan y Cynulliad, i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad
Nid yw Paragraff (1) yn gymwys i unrhyw swyddogaeth yr atelir y Cynulliad rhag ei dirprwyo o dan y Ddeddf.*

Gwn fod gwelliannau i'r cynnig a'r dogfennau ategol—trosglwyddo swyddogaethau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, dirprwyadau ac atebolrwydd—wedi'u gosod gerbron. Cynigir y gwelliant i'r ddogfen gan Dr John Marek, a'r gwelliannau eraill i'r cynnig gan Mike German. Mae'r Llywodraeth yn fodlon derbyn y gwelliannau hynny a gobeithiaf y bydd yr aelodau'n pleidleisio o blaid derbyn y fersiwn gyda'r gwelliant. Os derbynnir y cynnig, trefnaf i gopi diwygiedig o'r ddogfen gael ei gosod yn y Swyddfa Gyflwyno yr wythnos hon.

John Marek: Cynigiaf y gwelliant canlynol. Ar ôl paragraff 6 ychwaneger:

Bydd y Prif Ysgrifennydd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn gosod manylion gerbron y Cynulliad am yr holl bwerau y mae wedi'u dirprwyo i Ysgrifenyddion eraill y Cynulliad a'r rheini y mae wedi'u cadw ar ei gyfer ei hun.

Yr wyf yn falch o glywed bod y Llywodraeth yn bwriadu derbyn y gwelliant hwn. Ni allaf ei chyhuddo o orlwytho'r Cynulliad â thoreth o wybodaeth. Cynigiaf y gwelliant er mwyn cael rhagor o wybodaeth ynghylch beth yn union yw pwerau'r Cynulliad. Gobeithiaf y bydd y wybodaeth a ddaw yn eithaf manwl. Mae'n amlwg na all y manylion fod yn hollgynhwysfawr. Bellach, gwneir ymdrech wirioneddol i roi gwybod i'r Cynulliad pa benderfyniadau a wneir, a gall y Cynulliad ailystyried y ddogfen rywbryd eto.

Michael German: Cynigiaf y gwelliant isod:

amendment:

'paragraph (3)' be added after the words 'paragraph (2)' in paragraph 1.

Ychwaneger y geiriau 'paragraff (3)' ar ôl y geiriau 'paragraff (2)' ym mharagraff 1.

A new paragraph 3 be added as follows:

Ychwaneger paragraff 3 newydd fel a ganlyn:

'Nothing in this resolution will have the effect of either reducing the pre-eminence of the authority of the full Assembly, or reducing the role of the Assembly Committees in reviewing the effectiveness of policies and in developing new policies, as described in Standing Order No. 9.7(i), in contributing to the development of the Assembly's policies.'

'Ni fydd dim yn y penderfyniad hwn nac yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn, nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth adolygu effeithiolrwydd polisiau a datblygu polisiau newydd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog Rhif 9.7(i), wrth gyfrannu at ddatblygu polisiau'r Cynulliad.'

We decided to return to this motion when it first came before the Assembly, because we thought there was a misunderstanding in the draft on how this Assembly was originally set out. The National Assembly Advisory Group report, which I know Members have perused at great length, considered the balance between the Executive and the Committee functions of this Assembly.

Penderfynwyd dychwelyd at y cynnig hwn pan ddaeth gerbron y Cynulliad y tro cyntaf, oherwydd y credem fod camddealltwriaeth yn y drafft ynghylch ffurf y Cynulliad hwn yn wreiddiol. Yn adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, y gwn i'r Aelodau ei ddarllen yn fanwl, rhoddwyd ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng swyddogaethau Gweithredol a swyddogaethau Pwyllgor y Cynulliad hwn.

I am glad the Government is prepared to accept this amendment as it seeks to recognise that we have a hybrid version of a new form of Government. There is no model for what we are trying to do here. Those who take the Westminster model are mistaken, as are those who look to local government, because this is a new style of government. I am assured by John Marek, who knows about these things, that there is no model for this anywhere in the British Commonwealth. That makes us a unique branch, developing a new constitutional settlement that I hope we will export throughout the world.

Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth yn barod i dderbyn y gwelliant hwn gan geisio cydnabod mai fersiwn hybrid o fath newydd ar Lywodraeth sydd gennym. Nid oes patrwm ar gyfer yr hyn y ceisiwn ei wneud yma. Mae'r sawl sydd yn dilyn patrwm San Steffan yn gwneud camgymeriad, fel y mae'r rheini sydd yn edrych i gyfeiriad llywodraeth leol, oherwydd yma, ceir dull newydd o lywodraethu. Mae John Marek, sydd yn hyddysg yn y pethau hyn, yn fy sicrhau nad oes patrwm ar gyfer hyn mewn unrhyw fan arall yn y Gymanwlad Brydeinig. Mae hynny'n ein gwneud ni'n gangen unigryw, sydd yn meithrin ateb cyfansoddiadol newydd y byddwn, gobeithio, yn ei allforio i bedwar ban byd.

However, to achieve that balance, it is essential that this Assembly does not give away powers that it does not need to. Those of you who have read the accompanying document, will have noted that it is very legalistic as you might expect, because it

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r cydbwysedd hwnnw, mae'n hanfodol nad yw'r Cynulliad yn ildio pwerau heb fod angen iddo wneud hynny. Bydd y rheini ohonoch a ddarllenodd y ddogfen ategol wedi sylwi ei bod yn hynod o gyfreithiol ei naws, fel y byddech yn ei

refers to legal matters. Although, this hybrid Assembly is trying to create a new equilibrium—a new balance between Committees and the Executive—the words ‘Subject Committees’ only appear once in paragraph five.

That balance will lead to tension—a healthy and constructive one, I hope, which will be a challenge to us all. Within the framework of the Government of Wales Act, the NAAG report sought to propose a new and innovative policy-making structure in which effective and efficient decision-making is balanced by accountability and flexibility. That is why the group went through the route of the current committee procedures.

This proposed amendment to the motion is not legalistic. I have no idea whether it would stand up in a court of law or even before you, Mr Presiding Officer. However, it expresses the view of this Assembly that we wish to create a balance, and a constructive tension, and develop a new form of government unique to Wales, and hopefully unique and exportable to other parts of the world.

David Davies: When we decide which motion to debate, and I assume it will be either the original motion or the amended version, I would like to call for a recorded vote. My reasoning is very simple, I am not prepared to—

The Presiding Officer: Order. We have not reached the voting procedure.

David Davies: I call for a recorded vote when we come to the voting procedure because this is very important to us.

The First Secretary: John Marek’s amendment is very helpful as it creates an opportunity to spell out the role of the Cabinet and its relationship with the First Secretary and the First Secretary’s

ddisgwyl, am ei bod yn cyfeirio at faterion cyfreithiol. Er bod y Cynulliad hybrid hwn yn ceisio taro mantol newydd—cydbwysedd newydd rhwng Pwyllgorau a’r Adran Weithredol—dim ond unwaith y mae’r geiriau ‘Pwyllgorau Pwnc’ yn ymddangos ym mharagraff pump.

Bydd y cydbwysedd hwnnw yn arwain at dyndra—tyndra iach ac adeiladol, gobeithiaf, a fydd yn her inni oll. O fewn fframwaith Deddf Llywodraeth Cymru, ceisiai adroddiad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol gynnig strwythur creu polisïau newydd a blaengar lle ceir cydbwysedd rhwng gwneud penderfyniadau effeithiol, effeithlon ac atebolrwydd a hyblygrwydd. Dyma pam yr aeth y grŵp ar drywydd y trefniadau pwyllgor sydd gennym ar hyn o bryd.

Nid yw’r gwelliant hwn a gynnigir i’r cynnig yn gyfreithiol ei eiriad. Nid oes gennyf syniad a fyddai’n cael ei ystyried yn ddilys mewn llys barn na hyd yn oed yn eich golwg chi Mr Llywydd. Fodd bynnag, mae’n mynegi barn y Cynulliad hwn, sef ein bod am greu cydbwysedd, a thyndra adeiladol, a datblygu ffurf newydd ar lywodraeth sydd yn unigryw i Gymru, ac sydd hefyd gobeithio yn

unigryw ac yn un y gellir ei hallforio i rannau eraill o’r byd.

David Davies: Wrth benderfynu pa gynnig y byddwn yn ei drafod, a thybiaf mai naill ai’r cynnig gwreiddiol neu’r fersiwn â’r gwelliant fydd hwnnw, hoffwn wneud cais am gofnodi’r bleidlais. Mae gennyf reswm syml iawn, nid wyf yn barod i—

Y Llywydd: Trefn. Nid ydym wedi cyrraedd y broses bleidleisio.

David Davies: Galwaf am gofnodi’r bleidlais pan ddeuwn at y broses bleidleisio oherwydd y mae hyn yn bwysig iawn i ni.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae gwelliant John Marek o gymorth mawr gan ei fod yn creu cyfle i ddiffinio swyddogaeth y Cabinet a’i berthynas â’r Prif Ysgrifennydd a pherthynas y Prif Ysgrifennydd â’r Cynulliad drwyddo

relationship with the Assembly as a whole.

draw.

It will also give us an opportunity to look at the way we deal with some of the major partnership and cross-cutting issues. So, I shall come back to a Plenary session quite quickly in response to that amendment.

Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle inni edrych ar y ffordd yr ymdriniwn â rhai o'r prif bartneriaethau a'r materion sydd yn croesi ffiniau. Felly, deuaif yn ôl at Sesiwn Llawn yn weddol fuan er mwyn ymateb i'r gwelliant hwnnw.

The spirit of the settlement Mike referred to is very important because it is about relationships. We require trust to make the Assembly work. We can only put principles into practice by taking actions, but mechanisms must be in place to underpin them.

Mae ysbryd yr ateb y cyfeiriodd Mike ato yn bwysig iawn am ei fod yn ymwneud â'r berthynas rhwng y gwahanol elfennau. Er mwyn inni wneud i'r Cynulliad weithio, mae angen ymddiriedaeth. Dim ond drwy weithredu y gallwn roi egwyddorion ar waith, ond rhaid i fecanweithiau fod yn eu lle i gynnal y gweithredu hwnnw.

I do not think that the number of references to any particular group like a Subject Committee is a measure of its importance in the settlement. Yesterday when we were discussing 'Values for National Assembly Work' it became clear that we were not dealing with targets. Similarly, in dealing with delegations, we are not considering separately the way in which Committees and other parts of the Assembly have to work—everything must interlock.

Ni chredaf fod y nifer o gyfeiriadau at unrhyw grŵp penodol megis Pwyllgor Pwnc yn adlewyrchu ei bwysigrwydd yn yr ateb. Ddoe, wrth inni drafod 'Gwerthoedd ar gyfer Gwaith y Cynulliad Cenedlaethol' daeth yn amlwg nad oeddem yn ymdrin â thargedau. Yn yr un modd, wrth ymdrin â dirprwyo, nid ydym yn ystyried y ffordd y mae'n rhaid i'r Pwyllgorau a rhannau eraill o'r Cynulliad weithio ar wahân—rhaid i bopeth weu i'w gilydd.

I think his point is that this resolution should not stand alone; it must be seen in the context of the Standing Orders, and the powers of the Assembly as a whole.

Credaf mai ei bwynt yw na ddylai'r penderfyniad hwn sefyll ar ei ben ei hun; rhaid ei weld yng nghyd-destun y Rheolau Sefydlog, a phwerau'r Cynulliad drwyddo draw.

2:49 p.m.

I am convinced that we are developing a unique settlement, which will result in a lot of interest around the Commonwealth and Europe, as well as the UK. It will prove that we can do things better in Wales than in Westminster and it is in our interests to show big brother that there are better ways of doing things.

Yr wyf yn argyhoeddedig ein bod yn llunio ateb unigryw a fydd yn arwain at lawer o ddiddordeb ledled y Gymanwlad ac Ewrop, yn ogystal ag yng ngwledydd y DU. Bydd yn profi ein bod yn gallu gwneud pethau'n well yng Nghymru nag yn San Steffan ac mae er ein lles ni i ddangos i'r brawd mawr bod gwell ffyrdd o wneud pethau.

When the Assembly has been in place for a year, I hope that people will look at us and say, 'They have done it well in Wales.' We have only had a few weeks in this Assembly, but I think we have managed to do things differently across the party boundaries and with a degree of good will—I am glad to see

Pan fydd y Cynulliad wedi bod ar waith am flwyddyn, gobeithiaf y bydd pobl yn edrych arnom ac yn dweud, 'Maent wedi gwneud gwaith da yng Nghymru.' Ychydig o wythnosau prin a gawsom yn y Cynulliad hwn eto, ond credaf inni lwyddo i wneud pethau'n wahanol ar draws ffiniau'r pleidiau

Dafydd Wigley is amused—that people may not have predicted in advance. Long may it continue. I am pleased to respond positively to the points raised in the moving of the amendments.

a chyda mwy o ewyllys da—mae'n dda gennyf weld gwên ar wyneb Dafydd Wigley—nag y byddai pobl wedi'i ragweld ymlaen llaw efallai. Hir y parhao hynny. Mae'n bleser gennyf ymateb yn gadarnhaol i'r pwyntiau a godwyd wrth gynnig y gwelliannau.

The Presiding Officer: The Government of Wales has accepted both amendments to the motion. The Assembly, therefore, must consider the amended motion. Under Standing Order No. 6.20 the Presiding Officer—that is still me despite what it said in the *Western Mail* this morning—may put a motion or an amendment to the vote by a show of hands. I will do that. If the Presiding Officer considers that the result is in doubt, or that the announcement is about to be challenged, he will call for a confirmatory vote. I now put the motion to a show of hands, knowing that there will be a challenge, and then I will take a confirmatory vote.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo. Heriwyd y cynnig.

Y Llywydd: Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y ddau welliant i'r cynnig. Felly, rhaid i'r cynulliad ystyried y cynnig gyda'r gwelliant. Dan Reol Sefydlog Rhif 6.20 caiff y Llywydd—a myfi yw hwnnw er gwaethaf yr hyn a ddywedwyd yn y *Western Mail* y bore yma—roi cynnig neu welliant i bleidlais drwy ddangos dwylo. Fe wnaif hynny. Os yw'r Prif Ysgrifennydd yn meddwl bod amheuaeth ynghylch y canlyniad neu fod y cyhoeddiad ar fin cael ei herio, bydd yn galw am bleidlais gadarnhau. Yn awr, rhoddaf y cynnig gerbron i chi ddangos dwylo, gan wybod y bydd hynny'n cael ei herio, ac yna, cymeraf bleidlais gadarnhau.

A vote was held by show of hands. Motion challenged.

David Davies: I would like to explain—

David Davies: Hoffwn esbonio—

The Presiding Officer: There is no opportunity to explain anything once this process has taken place. You should have indicated and spoken during the debate. Our proceedings require us to continue in an orderly fashion, or we will not get through our business. I have accepted your request for a confirmatory vote, and we are now in the middle of the voting process. I would be grateful if Members refrained from putting on any opera hats or using any other forms of practice used in Westminster. I call for the confirmatory vote.

Y Llywydd: Nid oes cyfle i esbonio dim unwaith y bydd y broses hon wedi digwydd. Dylech fod wedi dangos eich bwriad a siarad yn ystod y ddadl. Rhaid inni fwrw ymlaen â'n trafodion mewn dull trefnus, neu ni fydd modd inni ddod i ben â'n busnes. Derbyniais eich cais am bleidlais gadarnhau ac yr ydym bellach yng nghanol y broses bleidleisio. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Aelodau'n ymatal rhag gwisgo unrhyw het opera a rhag defnyddio unrhyw ddull arall a ddefnyddir yn San Steffan. Galwaf am y bleidlais gadarnhau.

2:59 p.m.

*Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 9.
The Assembly divided: For 49, Against 0, Abstain 9.*

*Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:*

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David Rhys
Marek, John
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

*Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:*

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davidson, Jane
Davies, David
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Richards, Rod

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.*

Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru) Minority Party Debate (Plaid Cymru)

Cyflogau Athrawon Teachers' Pay

Y Llywydd: Fe symudwn ymlaen at yr eitem nesaf ar yr agenda, sef dadl y pleidiau llai. Mae'r ddadl gyntaf gan Blaid Cymru—The Party of Wales. Yr wyf wedi derbyn gwelliant i'r cynnig yn enw'r Ysgrifennydd Busnes. Byddaf yn caniatáu 60 munud ar gyfer y ddadl, 10 munud yn gyfan ar gyfer agor a chau'r ddadl gan y blaid leiafrifol ac yna 10 munud i Lywodraeth Cymru yn ystod y ddadl. Wrth alw Aelodau i siarad yn y ddadl, byddaf yn ffafrio aelodau'r blaid leiafrifol sydd wedi trefnu'r ddadl.

The Presiding Officer: We move on to the next item on the agenda, the minority party debate. The first debate is from Plaid Cymru—The Party of Wales. I have received an amendment to the motion in the name of the Business Secretary. I will allow 60 minutes for the debate, 10 minutes in total for the minority party to open and close the debate and then 10 minutes for the Government of Wales during the debate. In calling Members to speak in the debate, I will be favouring the minority party members who have organised the debate.

Gareth Jones: Cynigiau fod:

Gareth Jones: I propose that:

y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r gwrthwynebiad cyffredinol yng Nghymru i'r egwyddor y dylai cyflogau athrawon gael eu cysylltu â chanlyniadau, ac yn penderfynu ceisio darganfod dull o ddiwygio'r system gyflogau sydd yn wahanol i'r hyn a nodir yn argymhellion presennol Llywodraeth Llundain, er mwyn gwella ysbryd athrawon a chodi safonau, ond gan sicrhau bod lefelau'r cyflogau yng Nghymru yn parhau yn gyffelyb i gyflogau yn Lloegr.

the National Assembly notes the general opposition in Wales to the principle that teachers' pay should be linked to results, and resolves that it will seek to identify an alternative method of reforming the salaries system to that set out in the London Government's current proposals, so as to improve teachers' morale and raise standards, while ensuring that salary levels in Wales remain comparable with England.

Diolch am y cyfle i agor y drafodaeth hon. Hoffwn ddweud fod yr hyn y mae'r Papur Gwyrdd 'Y Gorau ar gyfer Dysgu ac Addysgu' yn cyfeirio ato yn gwbl gymeradwy, sef:

Thank you for the opportunity to open this debate. May I say that what the Green Paper 'The BEST for Teaching and Learning' refers to is commendable, that is:

'hyrwyddo'r broses o gefnogi a datblygu'r proffesiwn dysgu—er budd pob un plentyn sydd mewn ysgol yng Nghymru.'

'to further the process of supporting and developing the profession of teaching—in the interests of every single child at school in Wales.'

Croesawaf hefyd yr hyn y mae'r Gweinidog Addysg yn ei ddweud yn y ddogfen:

I welcome what the Minister for Education says in the document:

'Ar yr un pryd, y mae cyhoeddi Papur Gwyrdd ar wahân i Gymru yn dystiolaeth bellach o'n parodrwydd i wrando ar lais y proffesiwn yng Nghymru, ac i roi iddo'r

'At the same time, the publication of a separate Green Paper for Wales gives further evidence of our willingness to listen to the voice of the profession in Wales, and to give

pwys priodol a dyledus.’

A gaf finnau bwysleisio'r geiriau hynny hefyd: 'i wrando ar lais y proffesiwn'. Mae lle drafodaeth a chonsensws proffesiynol a fyddai'n gweddu i'n system addysg unigryw ni yng Nghymru, yn hytrach na gorfodi ar ein hysgolion drefn gwbl anghydnaws â'u diwylliant a'u hethos.

Cymeradwyaf y ffaith fod y ddogfen, er mwyn cyflawni'r nod o godi safonau, yn pwysleisio rôl gwbl allweddol yr athro yn y dosbarth ac yn derbyn bod tasg sylweddol i'w chyflawni o ran codi morâl athrawon a chryfhau statws a delwedd y proffesiwn yn gyffredinol. Er y gellir cytuno â'r dadansoddiad o'r broblem, mae llawer o'r hyn a gynigir o ran gwella'r sefyllfa yn annerbyniol, o safbwynt Lloegr ac o safbwynt y gyfundrefn addysg yng Nghymru.

Heddiw canolbwyntir ar y bwriad i orfodi ar ein hysgolion system o gysylltu tâl â chanlyniadau. Byddai'r system hon, o'i gweithredu, yn tanseilio ar unwaith y nod sylfaenol o ddatblygu'r proffesiwn er budd y plant, gan y byddai'n arwain at anghyfiawnder a dirywiad yng nghydberthynas athrawon â'i gilydd, a'u parodrwydd i gydweithio fel tîm. Byddai gweithredu'r argymhelliad hwn yn sicr o waethygu morâl athrawon ac yn dwysáu'r argyfwng recriwtio. Nid oes tystiolaeth gadarn y byddai tâl ar sail canlyniadau ac allbynnau disgyblion yn cyflawni'r hyn a honnir. Gwrthwynebir yr argymhelliad yn bennaf am y rhesymau a ganlyn.

Yn gyntaf, mae'r athroniaeth a'r meddylfryd sydd yn sail iddo yn annerbyniol i drwch y proffesiwn ac yn gwbl anghydnaws â'r angen i ddatblygu yng Nghymru gyfundrefn addysg sydd yn seiliedig ar gydweithredu yn hytrach na chystadlu. Hefyd, nid yw'r hinsawdd na'r cyfundrefnau priodol yn ein hysgolion i fewnoli'r fath chwyldro. Fel y dengys ymatebion yr holl undebau athrawon yn eglur, byddai angen buddsoddi miliynau o bunnau i newid y sefyllfa. Gallai creu biwrocratiaeth newydd, gymhleth ac anymarferol danseilio rhai o'r cyfundrefnau

it due and proper weight.’

I would like to emphasise the words 'listen to the voice of the profession'. There is room for professional discussion and consensus which would suit our individual education system in Wales, rather than forcing on our schools a system that is totally unsuited to their culture and ethos.

I commend the fact that the document, in order to fulfil the aim of raising standards, emphasises the key role of the teacher in the classroom and accepts that there is a substantial task to accomplish in terms of raising teachers' morale and strengthening the status and image of the profession in general. While it is possible to agree on an analysis of the problem, much of what is proposed in terms of improving the situation is unacceptable from the standpoint of England and the education system in Wales.

Today we concentrate on the intention to enforce a system on our schools which links pay to results. This system, if operated, would immediately undermine the basic aim of developing the profession for the benefit of the children, as it would lead to injustice and a decline in the relationship between teachers and their readiness to work as a team. Operating this recommendation would certainly lower teacher morale and intensify the recruitment crisis. There is no firm evidence that pay based on the outputs and results of pupils would achieve that which is claimed. We oppose the recommendation primarily for the following reasons.

First, the philosophy and the thinking behind it is unacceptable to most of the profession and is totally incompatible with the need to develop an education system in Wales that is based on co-operation rather than competition. Also, our schools do not have the climate or the appropriate system to be able to internalise such a revolution. As the responses of all the teachers' unions clearly show, an investment of millions of pounds would be needed to change the situation. Creating new, complicated and impractical bureaucracy could undermine some of those

gwerthfawr hynny sydd yn gwreiddio yn ein hysgolion yn awr, megis monitro ac arsylwi gwersi, hunanarfarnu, adnabod tangyrhaeddiad a gosod targedau. Y mae'r rheini yn eu lle ar hyn o bryd ac yn gwreiddio. Dyma'r elfennau gwerthfawr y medrid eu datblygu a'u haddasu ar gyfer cyfundrefn o wobrwyo ymdrechion a pherfformiad pob athro.

Ymhellach, nid yw'r cynigion ar gyfer Cymru yn eu hanfod yn wahanol i'r hyn a geir yn nogfen Lloegr. Collwyd cyfle da, yn arbennig yng nghyswllt dyfodiad y Cynulliad, i ddatblygu atebion gwahanol, perthnasol a mwy radical. Ni ddylid ychwaith gysylltu gwerthusiad athrawon, sydd yn offeryn gwerthfawr ar gyfer adnabod anghenion datblygiad proffesiynol athrawon yng nghyd-destun cynllun datblygu ysgol, â chynllun tâl ar sail perfformiad. Ni ddylem gysylltu'r ddau beth. Yn sicr, ni ddylem ei gysylltu â pherfformiad athro, sydd yn dibynnu ar allbynnau megis canlyniadau disgyblion. Yr wyf yn cytuno â'r egwyddor y dylid gwobrwyo pob athro sydd yn perfformio'n effeithiol ac yn cyfrannu, fel aelod o dîm, at ysgol lwyddiannus. Serch hynny, ni allaf gytuno â dull arfaethedig y Papur Gwyrdd o gyflawni hyn. Mae'r drefn werthuso yn arf gwerthfawr a phwysig yn ein hysgolion. Mae'n hyrwyddo datblygiad ac effeithiolrwydd proffesiynol ein athrawon. Nid system o arfarnu perfformiad athrawon yw'r gwerthuso hwn. Er bod y ddwy drefn yn dylanwadu ar ei gilydd ac yn gorgyffwrdd, maent yn ddwy drefn wahanol. Mae'n gamgymeriad sylfaenol i'r Papur Gwyrdd hwn geisio uno dwy system sydd mor wrthgyferbyniol. Mae'r drefn o werthuso athrawon yn system ddatblygol, ffurfiannol sydd angen ei pherffeithio. Mae'n seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth y gwerthuswr a'r sawl a werthusir. Cydnabyddir, yn gyfrinachol, gryfderau a gwendidau'r unigolyn fel sail i'w ddatblygiad pellach yn unol â chyfeiriad a gofynion cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r elfen gyfrinachol yn holl bwysig mewn unrhyw drafodaeth ar wendidau a cheisio gwella. Mae'n drefn statudol ac mae i'r Papur Gwyrdd dweud nad yw gwerthuso athrawon wedi'i gymryd o ddifrif yn gwneud cam â'r ysgolion hynny sydd wedi elwa ac yn

valuable systems which are rooted in our schools, such as monitoring and observing lessons, self-appraisal, recognising under-achievement and setting targets. These are already firmly in place. They are valuable elements that could be developed and adapted to a system of rewarding the efforts and performance of every teacher.

Furthermore, the proposals for Wales are not essentially different from those in the document for England. A good opportunity was lost, especially in the context of the formation of the Assembly, to develop different, relevant and more radical answers. Teacher appraisal, which is a valuable instrument for recognising the needs of the professional development of teachers in the context of a school development scheme, should not be linked to a performance-related pay scheme. We should not connect these two things. Certainly, we should not link this to teacher performance, which depends upon outputs such as pupil results. I agree with the principle that all teachers who perform effectively and contribute as team members in a successful school should be rewarded. However, I cannot agree with the Green Paper's proposed means of achieving this. The system is a valuable and important instrument in our schools. It promotes the professional development and effectiveness of our teachers. This appraisal system is not one of assessing teachers' performance. Although the two systems influence and overlap each other, they are two separate systems. It is a basic flaw of the Green Paper that it attempts to combine two such conflicting systems. The system of teacher appraisal is a developing, formative system which needs perfecting. It is based on trust between the evaluator and those being appraised. The strengths and weaknesses of the individual are identified, confidentially, as a basis for his or her further development in accordance with the direction and demands of the school development scheme. The confidential element is essential to any discussion on weaknesses and improvement. It is a statutory system and, in stating that teacher appraisal is not taken seriously, the Green Paper does an injustice to those

dal i elwa o'r drefn.

schools which have benefited and continue to benefit from the system.

Y gwir amdani yw bod y drefn wedi'i hamddifadu o gyllid. Byddai modd ailafael, am lai o gost, yn y system werthfawr hon a diogelu hawl pob athro i ddatblygu'n broffesiynol. Pe gellid datblygu system werthuso effeithiol, ac iddi hygredd, yn ein hysgolion, gellid wedyn mynd i'r afael â'r mater sydd o wirioneddol bwys, sef gwobrwyo athrawon ar sail perfformiad. Dyma asgwrn y gynnwys.

The truth is that the system has been deprived of finance. It would be possible to resume using this valuable system, at less cost, and protect every teacher's right to professional development. By developing an effective and credible appraisal system in our schools, it would then be possible to get to grips with the crucial issue: rewarding teachers on the basis of performance. That is the bone of contention.

3:09 p.m.

Yn y byd sydd ohoni, credaf y bydd yn rhaid i'r proffesiwn wynebu arfarnu perfformiad. Erfyniaf inni beidio â chymysgu'r ddau beth, sef gwerthuso ac arfarnu perfformiad fel a argymhellir yn y Papur Gwyrdd. Yn hytrach, gadewch inni adeiladu a pherffeithio system gwobrwyo perfformiad ar sail yr hyn sydd yn digwydd eisoes yn ein hysgolion—monitro, arsylwi gwersi, hunanarfarnu, adnabod tangyrhaeddiad a gosod targedau. Mae hyn yn arfer da sydd yn cael sylw a chanmoliaeth gan arolygwyr ysgolion. Gadewch inni fireinio'r arfer da sydd yn gyfarwydd i'n hathrawon a sefydlu meini prawf a fyddai'n heriol ond o fewn cyrraedd pob athro. Byddai meini prawf cydnabyddedig, cytûn a heriol hefyd yn ysgogi gwell perfformiad. Byddai'n broses naturiol gynhyrchiol ac yn adeiladol yn hytrach nag yn fygythiol.

In today's world, I believe that the profession will have to face the appraisal of performance. We must not mix the two things, namely appraisal and assessment as recommended in the Green Paper. Rather, let us build and perfect a system of rewarding performance on the basis of what already happens in our schools—monitoring, the observation of classes, self-appraisal, recognising underachievement and setting targets. This is good practice that has been praised by school inspectors. Let us refine the good practice with which our teachers are familiar and establish criteria that would be challenging, but within the reach of every teacher. Recognised, agreed and challenging criteria would also motivate better performance. It would be a naturally productive process, and constructive rather than threatening.

Wedi ymgynghori a chytuno ar y meini prawf hynny, gellir gwireddu a diogelu dau nod pwysig yn ein hysgolion: trefn werthuso a fyddai'n hyrwyddo hawl pob athro i ddatblygiad mewn swydd a chyfundrefn deg ond heriol a fyddai'n gwobrwyo perfformiad da, ond nid perfformiad yn seiliedig ar allbynnau disgyblion a chanlyniadau arholiadau.

After consulting and agreeing upon the criteria, we will be able to realise and safeguard two important aims in our schools: an appraisal scheme that would promote the right of every teacher to in-service development and a fair and challenging system that would reward good performance, but not performance based on pupils' output and examination results.

Y drydedd system y dylid ei mewnnoli yng nghyfundrefn pob ysgol yw'r honno ar gyfer delio â'r lleiafrif bach yn y proffesiwn sydd yn brin o gyflawni'r holl ofynion.

The third system that should be included in every school system is that for dealing with the small minority in the profession who are short of accomplishing all the requirements.

Carwn gloi trwy ofyn i chi gefnogi'r hyn a

I wish to close by asking you to support the

gynigir a chytuno trosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 oed, er mwyn iddo drafod ac ymgynghori ymhellach gyda'r proffesiwn ar y tair system yr wyf yn argymhell y dylem eu mabwysiadu yn ein hysgolion.

Y Llywydd: Os gallai pob siaradwr gyfyngu ei hun i chwe munud, rhoddir cyfle i bawb sydd am siarad.

Owen John Thomas: Mae'n rhaid imi ddatgan diddordeb gan fy mod yn athro ysgol tan ddiwedd y tymor hwn. Mae'r newidiadau a gynigir gan y Papur Gwyrdd yn rhan o gyfres sydd wedi bwrw athrawon ers degawd.

As I said, the changes that are facing the teaching profession are part of a series that have gone on for over ten years. Each one is a blow to undermine the confidence and morale of teachers throughout the profession. In 1988 the National Curriculum appeared—it was supposed to be the answer to everything. It brought tonnes of files, expensive documents and it lasted a little over five years. During those five years mature, professional and experienced teachers were told that their previous teaching methods were wrong. Can you imagine the effect that had in classrooms throughout England and Wales? Then, five years later, they were told that the programme that they had been given, the great National Curriculum, was wrong and was being replaced.

Gallwn ddychmygu'r teimlad o ryddhad a'r therapi wrth i bobl daflu'r holl ddogfennau hynny. Rhoddwyd dogfennau gwerth cannoedd o filoedd o bunnoedd mewn bagiau du.

Why should we believe that the latest proposals are any better than the ones we had then? What about the ones that came in 1995? Here we are a few years later amending them again. Why should they be any better? We are a small nation that

proposal and to agree to transfer this matter to the Under-16 Education Committee for further discussion and consultation with the profession on the three systems that I recommend we should adopt in our schools.

The Presiding Officer: If everybody could limit themselves to six minutes, everybody who wishes to speak will be given an opportunity.

Owen John Thomas: I must declare an interest since I am a school teacher until the end of this term. The changes that are proposed in the Green Paper are part of a series which have been thrown at teachers for a decade.

Fel y dywedais, mae'r newidiadau sydd yn wynebu'r proffesiwn dysgu yn rhan o gyfres sydd wedi bod yn cael eu cyflwyno ers dros ddeng mlynedd. Mae pob un yn ergyd sydd yn tanseilio hyder ac ysbryd athrawon ym mhob rhan o'r proffesiwn. Yn 1988 ymddangosodd y Cwricwlwm Cenedlaethol—hwn oedd i fod i ateb popeth. Yn ei sgîl, daeth tunelli o ffeiliau, dogfennau drud a pharhaodd ychydig dros bum mlynedd. Yn ystod y pum mlynedd hynny, dywedwyd wrth athrawon aeddfed, proffesiynol a phrofiadol bod y dulliau addysgu a ddefnyddid ganddynt gynt yn anghywir. A allwch chi ddychmygu'r effaith a gafodd hynny mewn ystafelloedd dosbarth ledled Cymru a Lloegr? Yna, bum mlynedd yn ddiweddarach, dywedwyd wrthynt fod y rhaglen a roddwyd iddynt, y Cwricwlwm Cenedlaethol gwych, yn anghywir ac yn cael ei ddisodli.

We can imagine the feeling of relief and the therapy as people threw all those documents away. Hundreds and thousands of pounds worth of documents were put into black bin bags.

Paham y dylem gredu bod y cynigion diweddaraf yn well na'r rhai a gawsom bryd hynny? Beth am y rhai a gawsom yn 1995? Dyma ni, ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach yn eu diwygio eto. A oes unrhyw rheswm dros gredu eu bod yn well?

became the first literate nation in the world in the eighteenth century through Griffith Jones' circulatory schools and Madam Bevan who was a prime mover. We must have the courage to make the same type of move today and do things for ourselves.

Just over a century later the Welsh Intermediate and Technical Education Act 1889 provided the first non-fee paying high school education throughout Britain. Later in the century, the miners and iron workers came together and put their pennies into the establishment of the University of Wales. That was not Government action either; it came from the people. I ask you to be confident in yourselves, as representatives of the people of Wales, and ensure that we decide what is best for our schools. We must not look over the bridge for leadership. Plaid Cymru's proposal is good, but the Green Paper's ideas are not. I understand that we will accept the amendment but I do not like the wording. Look at the following words.

Ystyriwch eiriau Saesneg y gwelliant:

'to implement a performance management system in Wales.'

Pa effaith fydd hynny'n ei chael?

What effect will that have on the teaching profession? Imagine how the teachers will feel when they read that—they are feeling pretty low already. They will not be laughing, Alun. They are very upset. Morale is very low and has been for the last 10 years at least.

Yr wyf yn erfyn arnoch i gefnogi hyn. Nid wyf yn hapus â'r gwelliant. Nid oeddwn yn gwybod tan heddiw ein bod yn ei dderbyn. Although I did not know that we were accepting the amendment, I will go along with it since it is a party line.

Mae'n rhaid imi ddweud nad wyf yn hoffi'r geiriau hynny o gwbl.

Cenedl fechan ydym ni a ni oedd y genedl lythrennog gyntaf yn y byd, diolch i ysgolion cylchynol Griffith Jones yn y ddeunawfed ganrif a Madam Bevan a fu ar flaen y gad yn y maes. Rhaid inni fod yn ddigon dewr i gymryd camau tebyg heddiw a gwneud pethau drosom ni'n hunain.

Prin ganrif yn ddiweddarach, drwy gyfrwng Deddf Addysg Ganolraddol a Thechnegol Cymru 1889 cafwyd yr addysg uwchradd ddi-dâl gyntaf ym Mhrydain. Yn ddiweddarach yn y ganrif, daeth y glowyr a'r gweithwyr haearn ynghyd a chyfrannu eu ceiniogau i sefydlu Prifysgol Cymru. Nid y Llywodraeth a wnaeth hyn ychwaith; y bobl oedd yn gyfrifol. Gofynnaf i chi gael hyder ynoch chi'ch hunain, fel cynrychiolwyr pobl Cymru a sicrhau ein bod ni'n penderfynu beth sydd orau i'n hysgolion. Rhaid inni beidio ag edrych dros y bont i gael arweiniad. Mae cynnig Plaid Cymru'n dda ond nid yw hynny'n wir am syniadau'r Papur Gwyrdd. Deallaf y byddwn yn derbyn y gwelliant ond nid wyf yn hoff o'r geiriad. Edrychwch ar y geiriau a ganlyn.

Look at the wording of the English version of the amendment:

'to implement a performance management system in Wales.'

What effect will that have?

Pa effaith a gaiff hynny ar broffesiwn addysgu? Dychmygwch sut y bydd athrawon yn teimlo wrth ddarllen y geiriau hynny—maent yn teimlo'n ddigon isel yn barod. Nid chwerthin y byddant hwy, Alun. Maent yn gofidio'n fawr. Maent yn isel iawn eu hysbryd ac wedi bod felly ers 10 mlynedd o leiaf.

I am pleading with you to support this. I am not happy with the amendment. I did not know until today that we were accepting it. Er nad oeddwn yn gwybod ein bod yn derbyn y gwelliant, yr wyf yn barod i gydysnio am mai hynny yw penderfyniad fy mhlaidd.

I must say that I do not like the wording at all.

Brian Hancock: I would like to offer a slightly different perspective. I have been a parent governor since 1985 so I have seen some of the changes. I am currently a primary school governor and a secondary school governor. I helped to establish the Gwent Association of School Governors which has become the Newport Association of School Governors and the Torfaen Association of School Governors. I am a founder member of the Confederation of School Governors Associations of Wales, or Governors Wales. At a recent conference the Green Paper was discussed. In typical fashion, only a short time was allowed for consultation with governors on the proposed Green Paper.

Brian Hancock: Hoffwn gynnig safbwynt ychydig yn wahanol. Bûm yn rhiant lywodraethwr ers 1985 ac felly yr wyf wedi gweld rhai o'r newidiadau. Yr wyf ar hyn o bryd yn llywodraethwr mewn ysgol gynradd ac mewn ysgol uwchradd. Cynorthwya i sefydlu Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Gwent sydd bellach wedi dod yn Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Casnewydd a Chymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Torfaen. Yr wyf yn un o'r aelodau a sefydlodd Gonffederasiwn Cymdeithasau Llywodraethwyr Ysgolion Cymru, neu Lywodraethwyr Cymru. Mewn cynhadledd yn ddiweddar, trafodwyd y Papur Gwyrdd. Fel arfer, dim ond ychydig o amser a ganiatawyd ar gyfer ymgynghori gyda llywodraethwyr ar y Papur Gwyrdd a gynigid.

Governors are inherently involved in improving standards for children, and they want the best for their staff. Therefore, they are interested in the professional development of staff because that means improving standards for the children who attend the schools. We must keep our eye on the ball. We are educating the citizens of tomorrow and we must get the best deal for them on every possible occasion.

Mae Llywodraethwyr o anghenraid yn ymwneud â gwella safonau i blant ac maent am gael y gorau i'w staff. Felly, mae ganddynt ddiddordeb yn natblygiad proffesiynol staff oherwydd bod hynny'n golygu gwella safonau i'r plant sydd yn mynychu'r ysgolion. Rhaid inni gadw ein llygad ar y bêl. Yr ydym yn addysgu dinasyddion yfory a rhaid inni sicrhau'r fargen orau iddynt ar bob gafael.

Governors look at this proposal, they have no training or consultation and the system must be in place by September. If it is not, the appraisal of teachers in a year's time will not happen. Governors, the well-meaning, somewhat semi-professional, but unpaid servants of the schools, are put upon yet again. We must put these systems together. I must support this motion, because I cannot support the unprofessional appraisal of teachers. This must be done in a professional and consultative attitude with everybody involved.

Bydd Llywodraethwyr yn edrych ar y cynnig hwn, heb ddim hyfforddiant nac ymgynghori, a rhaid i'r drefn fod ar waith erbyn mis Medi. Oni fydd, ni chaiff athrawon eu harfarnu ymhen y flwyddyn. Bydd hyn yn faich arall ar lywodraethwyr, pobl sydd yn llawn bwriadau da, pobl led-broffesiynol sydd yn gwasanaethu eu hysgolion yn ddi-dâl. Rhaid inni greu'r systemau hyn. Rhaid imi gefnogi'r cynnig hwn, oherwydd ni allaf gefnogi arfarnu athrawon mewn ffordd amhroffesiynol. Rhaid gwneud hyn gydag agwedd broffesiynol a thrwy ymgynghori a chan gynnwys pawb.

3:19 p.m.

The Presiding Officer: The Government of Wales has indicated that it wishes to take 10 minutes at the end of the debate. The Government of Wales is moving the

Y Llywydd: Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn dymuno cael 10 munud ar ddiwedd y ddadl. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y gwelliant yn ffurfiol.

amendment formally.

Rosemary Butler: I propose the following amendment tabled by Andrew Davies:

delete text after 'The National Assembly' to 'so as to' and insert 'supports the principal of rewarding excellence in the teaching profession but notes the general opposition in Wales, to any crude linking of teachers' pay to results and resolves that it will seek to implement a performance management system in Wales.'

However, I would like to alter the word 'principal' to the word 'principle'. I hope to speak towards the end of the debate in support of this amendment.

Jonathan Morgan: I have listened to the debate with keen interest, and like Gareth Jones, I also have concerns about the Government proposals. The Conservative Party is not ideologically opposed to performance-related pay. As a structure it works well in many sectors. We see it operating in industry and finance, and in the services sector. It has provided targets and opportunities for people to be rewarded. I have always believed that performance related pay should be there to reward excellence, best practice, and to inspire those employees to be creative and innovative.

However, what is good for one sector is not necessarily good for another. I believe PRP is difficult to use in the teaching profession. I am therefore sympathetic to the concerns raised by Plaid Cymru, but more importantly, to those worries expressed by the teaching profession at large. The system outlined in the Government's Green Paper is far too centralised and rigid. In similar vein to other plans for the teaching profession, it displays the 'man in Whitehall knows best' mentality.

We would prefer to see any additional funds

Rosemary Butler: Cynigiaf y gwelliant a ganlyn a roddwyd gerbron gan Andrew Davies:

dileer y testun ar ôl 'Mae'r Cynulliad Cenedlaethol' hyd at 'er mwyn' ac ychwaneger 'yn cefnogi'r egwyddor o wobrwyo rhagoriaeth yn y proffesiwn addysgu ond yn nodi'r gwrthwynebiad cyffredinol yng Nghymru i unrhyw gysylltiad amrwd rhwng tâl athrawon a chanlyniadau, ac yn penderfynu y bydd yn ceisio gweithredu system rheoli perfformiad yng Nghymru.'

Fodd bynnag, hoffwn newid y gair 'principal' i'r gair 'principle'. Gobeithiaf siarad o blaid y gwelliant hwn tua diwedd y ddadl.

Jonathan Morgan: Gwrandewais ar y ddadl gyda diddordeb brwd, ac fel Gareth Jones, mae gennyf innau bryderon ynghylch cynigion y Llywodraeth. Nid oes gan y Blaid Geidwadol wrthwynebiad ideolegol i gysylltu cyflog a pherfformiad. Fel strwythur, mae'n gweithio'n dda mewn sawl sector. Fe'i gwelir ar waith ym myd diwydiant a chyllid, ac yn y sector gwasanaethau. Mae wedi darparu targedau a chyfle i bobl gael eu gwobrwyo. Yr wyf wedi credu erioed y dylai cyflog sydd yn gysylltiedig â pherfformiad fod ar gael i wobrwyo rhagoriaeth a'r arferion gorau ac i ysbrydoli'r gweithwyr hynny i fod yn greadigol ac yn flaengar.

Fodd bynnag, nid yw'r hyn sydd yn dda i un sector o anghenraid yn dda i sector arall. Credaf fod cysylltu cyflog â pherfformiad yn anodd i'w wneud yn y proffesiwn addysgu. Felly, mae gennyf gydymdeimlad â'r pryderon a godwyd gan Blaid Cymru, ond yn bwysicach, â'r pryderon hynny a fynegwyd gan y proffesiwn addysgu'n gyffredinol. Mae'r drefn a amlinellir ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth wedi'i chanoli ormod ac yn rhy haearnaidd. Mae'n debyg i gynlluniau eraill ar gyfer y proffesiwn addysgu yn yr ystyr ei fod yn adlewyrchu meddylfryd 'y dyn yn Whitehall sydd yn gwybod orau.'

Byddai'n well gennym weld unrhyw arian

handed to our head teachers and to our governors who are at the sharp end of education delivery in Wales. Surely, they are better placed than a Minister in Westminster or in Cardiff to determine the best way to reward and motivate our teachers. This obsession with central control must stop. There has been no clarification as to whether all of the funds allocated to PRP are additional to those funds already allocated to education budgets. Rewarding teachers through the scheme should not be a replacement for teacher's basic salaries.

It would also involve considerable bureaucratic administration. It is unclear how the external assessors will operate. How will they be appointed, and to whom will they be responsible? Is this just another tier of administration on top of local education authorities, the Office for Standards in Education, and the Department for Education and Employment? Teachers need less red tape, not more.

There have also been concerns raised about the performance criteria that would need to be used in any PRP scheme. Targets would need to be set on an objective criteria not based on the subjective judgements of those who do not necessarily work in the classroom. Schools are diverse and no classroom is the same. Setting and streaming can confuse the picture with the system of payment by results. A teacher looking after a lower ability class cannot be expected to achieve the same results as a teacher looking after a top stream class.

We need to be constructive about rewarding teachers and best practice, but a mixture of centralisation, bureaucracy and arbitrary decisions cannot achieve this. If this scheme placed money in the hands of head teachers and governors to decide their own ways of rewarding their staff, then we would be more supportive.

Brian Gibbons: I agree with the thesis put forward in the motion and the amended

ychwanegol yn cael ei roi i'r penaethiaid ac i'n llywodraethwyr sydd ar flaen y gad yn darparu addysg yng Nghymru. Onid ydynt mewn gwell sefyllfa na Gweinidog yn San Steffan neu yng Nghaerdydd i benderfynu beth yw'r ffordd orau o wobrwyo a chymell ein hathrawon? Rhaid rhoi terfyn ar yr obsesiwn gyda rheoli o'r canol. Ni chafwyd dim eglurhad ynghylch a fydd yr holl arian a ddyrennir ar gyfer cyflog a gysylltir â pherfformiad yn ychwanegol at yr arian a ddyrannwyd eisoes i gyllidebau addysg ai peidio. Ni ddylid gwobrwyo athrawon drwy gyfrwng y cynllun hwn ar draul eu cyflogau sylfaenol.

Byddai hefyd yn golygu cryn waith biwrocrataidd. Nid yw'n glir sut y bydd yr aseswyr allanol yn gweithio. Sut y cânt eu penodi, ac i bwy y byddant yn gyfrifol? Ai dim ond haen arall o weinyddiaeth ychwanegol yw hon ar ben yr awdurdodau addysg lleol, y Swyddfa Safonau mewn Addysg a'r Adran Addysg a Chyflogaeth? Llai o dâp coch sydd ei angen ar athrawon, nid rhagor.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch y meini prawf perfformio y byddai angen eu defnyddio mewn unrhyw gynllun cyflog a gysylltir â pherfformiad. Byddai angen gosod targedau ar sail meini prawf gwrthrychol yn hytrach nag ar sail barn oddrychol pobl nad ydynt o anghenraid yn gweithio mewn ystafell ddosbarth. Mae ysgolion yn amrywio ac mae pob ystafell ddosbarth yn wahanol. Gall setio a ffrydio ddrysu'r darlun wrth ddefnyddio trefn talu ar sail canlyniadau. Ni ellir disgwyl i athro/athrawes sydd yn gyfrifol am ddosbarth gallu is gael yr un canlyniadau ag athro/athrawes sydd yn gyfrifol am ddosbarth ffrwd uchaf.

Rhaid inni fod yn adeiladol wrth wobrwyo athrawon a'r arferion gorau, ond ni allwn gyflawni hyn drwy gyfrwng cymysgedd o ganoli, biwrocratiaeth a phenderfyniadau mympwyol. Pe bai'r cynllun hwn yn rhoi arian yn nwylo penaethiaid a llywodraethwyr er mwyn iddynt hwy benderfynu sut i wobrwyo'u staff, byddem yn fwy cefnogol.

Brian Gibbons: Cytunaf â'r thesis a gyflwynir yn y cynnig a'r cynnig diwygiedig,

motion, in so far as it is not reasonable to expect that teachers should be remunerated on the basis of the results of their school, particularly when thinking about exam results. As in the health service and many services, the determinant of the outcome cannot be found in the classroom, the hospital or the surgery, but in the society where the school is based.

If we are going to have performance related pay based on results, then it is going to seriously disadvantage teachers working in the most difficult areas. By saying that teachers should not be paid by results, I am not saying that good performance should not be rewarded. I firmly believe that good performance by teachers should be recognised and rewarded.

I have been a governor in Cymer Afan Comprehensive School in the Afan Valley for the last 15 years. My children have attended that school. One of the most frustrating pains that I have experienced as a school governor, is watching keen and enthusiastic teachers being appointed each year, giving excellent added value to the education system, who then after a couple of years decide to move on. They decide to move because of career progression and professional status. In a Valleys comprehensive, many keen and ambitious teachers find it is not possible to achieve the professional status and prestige that they want.

This is a major challenge for the education system, particularly in areas of greater educational need. Those proposing this motion, while I agree with their central pieces, have got to answer the specific question of how do we motivate and reward teachers who are providing considerable value added service in extremely difficult circumstances?

We need to consider the concept of peripheries of excellence. We know plenty about the centres of excellence in our big cities and big towns, where leading people seeking professional prestige and high academic rewards move. However, they

i'r graddau nad yw'n rhesymol disgwyl i athrawon gael eu talu ar sail canlyniadau eu hysgol, yn enwedig drwy ystyried canlyniadau arholiadau. Fel sydd yn wir am y gwasanaeth iechyd a sawl gwasanaeth arall, nid yn yr ystafell ddosbarth yr ysbyty na'r feddygfa y mae canfod yr hyn sydd yn pennu'r canlyniadau, ond yn y gymdeithas lle mae'r ysgol honno.

Os ydym am gyflwyno cyflogau ar sail perfformiad drwy ystyried canlyniadau, yna bydd athrawon sydd yn gweithio yn yr ardaloedd mwyaf anodd dan anfantais ddifrifol. Pan ddywedaf na ddylid talu athrawon ar sail canlyniadau, nid wyf yn dweud na ddylid gwobrwyo perfformiad da. Yr wyf yn gadarn o'r farn y dylid cydnabod a gwobrwyo gwaith da gan athrawon.

Yr wyf yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cymer Afan yng Nghwm Afan ers 15 mlynedd. Aeth fy mhlant i'r ysgol honno. Un o'r pethau mwyaf rhwystredig a brofais fel llywodraethwr ysgol oedd gweld athrawon brwd ac awyddus yn cael eu penodi bob blwyddyn, yn rhoi gwerth ychwanegol rhagorol i'r drefn addysg, ac yna ar ôl ychydig o flynyddoedd yn penderfynu symud yn eu blaenau. Maent yn penderfynu symud er mwyn dringo ysgol gyrfa a cheisio gwell statws proffesiynol. Mewn ysgol gyfun yn y Cymoedd, bydd llawer o athrawon brwd ac uchelgeisiol yn gweld nad oes modd iddynt gael y statws proffesiynol a'r bri y dymunant eu cael.

Mae hyn yn gosod her fawr i'r drefn addysg, yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae'r angen addysgol ar ei fwyaf. Rhaid i'r rhai sydd yn cynnig y cynnig hwn, er fy mod yn cytuno â chraidd eu dadl, ateb y cwestiwn penodol, sef, sut mae cymell a gwobrwyo athrawon sydd yn darparu gwasanaeth â gwerth ychwanegol sylweddol dan amgylchiadau anodd iawn?

Rhaid inni ystyried y syniad o greu cyrion rhagoriaeth. Gwyddom ddigon am ganolfannau rhagoriaeth yn ein dinasoedd a'n trefi mawrion. Maent yn denu'r bobl uchelgeisiol sydd yn ceisio parch proffesiynol a gwobrwyon academiaidd o fri.

move away from the area of greatest need. And in areas like the Valleys and the inner cities, the inverse care law applies in education just as much as in health.

We need therefore to develop the concept of peripheries of excellence in education, where teachers can feel that they are doing a well rewarded and high prestige job in areas of greatest educational need. By having these peripheries of excellence, our teachers will be able to get professional status and career progression within these educational disadvantaged areas. However, prestige and status are not enough. It is reasonable also that they should be provided with some sort of financial remuneration for their particular effort. It is for this reason that, while I agree with the thesis put forward in the main resolution I would commend the amendment to this Assembly.

Jenny Randerson: Related pay is a good concept as long as it relates to the teachers' performance and not to the pupils' performance. Children are not cars. You can train a teacher as you can train an operative on a car assembly line. You can put together the same raw materials—in the case of cars—the components. Operatives putting together those parts can more or less guarantee identical outcomes. Teachers can put together all the same raw materials, the same books, equipment, expertise, time, and classrooms. However, two children sitting beside each other come out with sometimes startlingly different results.

Any kind of performance related pay based solely on pupil performance is contrary to the very definition of good education. There are a host of reasons why one child performs better than another. These may include in addition to ability, factors such as the pre-school experience, the precise point in the year in which a child is born, social and economic backgrounds, class size, gender, ethnic and linguistic background, special

Fodd bynnag, bydd y rhain yn ymadael â'r ardaloedd lle mae'r angen ar ei fwyaf. Ac mewn ardaloedd fel y Cymoedd a chanol ein dinasoedd, mae'r ddeddf gofal groes yr un mor berthnasol ym myd addysg ag y mae ym myd iechyd.

Felly, mae angen inni ddatblygu'r syniad o gyrion rhagoriaeth ym myd addysg, lle gall athrawon deimlo eu bod yn gwneud swydd sydd yn cael ei gwobrwyo'n dda ac sydd yn uchel ei pharch mewn ardaloedd lle bo'r angen addysgol ar ei fwyaf. Drwy greu gyrion rhagoriaeth fel hyn, bydd modd i'n hathrawon gael statws proffesiynol a dringo ysgol gyrfa yn yr ardaloedd di-fraint hyn. Fodd bynnag, nid yw bri a statws yn ddigon. Mae'n rhesymol hefyd iddynt gael rhyw fath o dâl ariannol am eu hymdrech arbennig. Dyna paham, er fy mod yn cytuno â'r thesis a gynigir yn y prif benderfyniad, y byddwn yn cymeradwyo'r gwelliant i'r Cynulliad hwn.

Jenny Randerson: Mae cysylltu cyflog â pherfformiad yn syniad da ar yr amod ei fod yn ymwneud â pherfformiad athrawon yn hytrach nag â pherfformiad y plant. Nid ceir yw plant. Gallwch hyfforddi athrawon fel y gallwch chi hyfforddi rhywun sydd yn gweithio ar linell cydosod ceir. Gallwch roi'r un deunyddiau crai at ei gilydd—yng nghyswllt ceir—y cydrannau. Gall y gweithwyr sydd yn gosod y rhannau hynny at ei gilydd fwy neu lai warantu y bydd y canlyniadau yr un ffunud â'i gilydd. Gall athrawon roi'r un deunyddiau crai at ei gilydd, yr un llyfrau, offer, arbenigedd, amser ac ystafelloedd dosbarth. Fodd bynnag, bydd canlyniadau dau blentyn sydd yn eistedd wrth ochr ei gilydd yn aml iawn yn syfrdanol o wahanol.

Mae seilio unrhyw fath o gyflog a gysylltir â pherfformiad ar berfformiad disgyblion yn groes i holl hanfod addysg dda. Mae lluo o resymau pam fod un plentyn yn gwneud yn well na'r llall. Yn ogystal â gallu, gall y rhesymau hyn gynnwys ffactorau megis profiad y plant cyn dod i'r ysgol, pryd yn union yn ystod y flwyddyn ganwyd plentyn, cefndir cymdeithasol ac economaidd, maint y dosbarth, ai bachgen ynteu merch yw'r

educational needs, health and so on.

plentyn, cefndir ethnig ac ieithyddol, anghenion addysgol arbennig, iechyd ac yn y blaen.

3:29 p.m.

Social and economic background as a factor means that in some schools you get large numbers of children who do not perform as well as they might in other circumstances. The effect of paying by results will only confirm the existing trend of high achieving teachers gravitating to those schools with the best results. Consequently, it will confirm the position of schools at the bottom of the performance tables.

Mae'r ffactor cefndir cymdeithasol ac economaidd yn golygu bod nifer fawr o blant mewn rhai ysgolion nad ydynt yn gwneud cystal ag y byddent dan amgylchiadau eraill. Effaith talu ar sail canlyniadau fydd cadarnhau'r duedd sydd eisoes yn bod, sef y bydd yr athrawon sydd yn cyflawni orau yn symud i'r ysgolion lle ceir y canlyniadau gorau. Canlyniad hyn fydd cadarnhau safle'r ysgolion sydd ar waelod y tablau perfformio.

The document sets out a cumbersome overly bureaucratic system and above all one that is unworkable. I believe it places head teachers in an invidious position, particularly in small schools. I believe it places governors in an invidious position, because in the document, they have the discretion on whether to pay the additional awards. In cash strapped schools that could be a very difficult decision. It is a recipe for litigation from teachers who might wish to challenge decisions.

Mae'r ddogfen yn disgrifio trefn feichus a gorfiiwrocataidd sydd yn anad dim yn anymarferol. Credaf ei bod hi'n gosod penaethiaid mewn sefyllfa annymunol, yn enwedig mewn ysgolion bach. Credaf ei bod yn gosod llywodraethwyr mewn sefyllfa annymunol, oherwydd yn ôl y ddogfen, cânt benderfynu a ydynt am dalu'r dyfarniadau ychwanegol ai peidio. Mewn ysgolion sydd yn brin o arian, gallai hynny fod yn benderfyniad anodd iawn. Efallai y bydd athrawon sydd am herio penderfyniadau'n cymryd camau cyfreithiol.

It refers to appraisal as if it is in place. It is not in place. In very large parts of Wales there is a system in place to which people pay lip service. In other parts of Wales it has fallen more or less into disuse. The only way excellent teachers could be rewarded up until now was to leave the classroom. That is entirely wrong. The Liberal Democrats welcome the concept that, in order to raise educational standards, we must make teaching a career in itself rather than a step towards management.

Mae'n cyfeirio at arfarnu fel petai eisoes ar waith. Nid yw hynny'n wir. Mewn rhannau helaeth o Gymru, rhyw led ddilyn y drefn o ran ffurfioldeb yn unig a wneir. Mewn rhannau eraill o Gymru, mae pobl fwy neu lai wedi rhoi'r gorau i'w defnyddio. Yr unig ffordd y gall athrawon rhagorol gael eu gwobrwyo ar hyn o bryd yw iddynt ymadael â'r ystafell ddosbarth. Mae hynny'n hollol anghywir. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu'r syniad bod yn rhaid inni wneud addysgu'n yrfa ynddi'i hun os ydym am godi safonau addysgol, yn hytrach na'i weld yn gam tuag at reoli.

This Green Paper will not resolve that problem. I venture to suggest that it will make the situation worse. As Owen John Thomas said, it will lower morale, if that is possible. The way performance related pay has been put forward is not acceptable. I am very disappointed that we have proposals for

Ni fydd y Papur Gwyrdd yn datrys y broblem hon. Mentraf awgrymu y bydd yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Fel y dywedodd Owen John Thomas, bydd yn llethu ysbryd athrawon fwy nag erioed, os oes modd gwneud hynny. Nid yw'r ffordd y cyflwynwyd y cynnig ar gyflog ar sail perfformiad yn dderbyniol. Yr wyf yn

Wales which seem to be a step back from the enlightened approach which was taken, for instance, over target setting in schools here in Wales. It is possible now to set targets for one year that are lower than the previous year's, because they take into account where that group of pupils is now, and how much progress you can expect them to make. That is the way in which education should be approached. You have to see what progress you can make and what value you can add.

siomedig iawn bod gennym gynigion ar gyfer Cymru sydd i bob golwg yn gam yn ôl o'u cymharu â'r agwedd oleuedig a gymerwyd, er enghraifft, gyda golwg ar osod targedau mewn ysgolion yma yng Nghymru. Bellach, mae modd gosod targedau ar gyfer un flwyddyn sydd yn is na thargedau'r flwyddyn flaenorol, gan ystyried sefyllfa grŵp o ddisgyblion ar y pryd a faint o gynnydd y gellir disgwyl iddynt ei wneud. Dyna agwedd sydd ei hangen ym myd addysg. Rhaid gweld pa gynnydd y gellir ei wneud a pha werth y gallwch ei ychwanegu.

I, like others, was very disappointed when the Green Paper was produced. We waited a long time for it and we were led to believe it would be different, but I regret to say that the Minister of State laboured and brought forth a mouse, and an English mouse at that.

Yr oeddwn i, fel pobl eraill, yn siomedig iawn pan gynhyrchwyd y Papur Gwyrdd. Buom yn disgwyl yn hir amdano a chawsom ein harwain i gredu y byddai'n wahanol, ond mae'n ddrwg gennyf ddweud i'r Ysgrifennydd Gwladol lafurio ac esgor ar lygoden, a llygoden Seisnig oedd hi hefyd.

The response to the Government's consultation process has been overwhelmingly negative. Therefore, the challenge now is to prove that consultation means what it says, that views will be listened to. Views throughout education have been overwhelmingly negative. Go back to the drawing board and let us have a set of proposals. We support the idea of rewarding excellence in teaching. We support the idea of giving teachers something to aim for within the teaching profession without having to take on management responsibility, but let us have a set of proposals that are suitable for Wales.

Bu'r ymateb i broses ymgynghori'r Llywodraeth yn llethol o negyddol. Felly, yr her bellach yw profi mai ystyr ymgynghori yw ymgynghori ac y gwrandewir ar farn pobl. Ymateb negyddol a gafwyd o bob rhan o fyd addysg. Meddylwch eto a dewch â set o gynigion inni. Cefnogwn y syniad o wobrwyo rhagoriaeth ym myd addysgu. Cefnogwn y syniad o roi rhywbeth i athrawon anelu ato o fewn y proffesiwn addysgu heb iddynt orfod ysgwyddo cyfrifoldebau rheoli, ond rhwch inni set o gynigion sydd yn addas ar gyfer Cymru.

As Liberal Democrats we will not be voting for the amendment because we believe that it is no where near strong enough, although we accept that it is better than the situation we are in at the moment. However, we do not think it is good enough. I would be grateful if the Assembly Secretary for Education would address the fear expressed in many quarters that the £40 million associated with this proposal would be withdrawn from the Welsh budget if this scheme is not implemented. This is a practical fear and we need to have our minds set at rest on this issue.

Fel Democratiaid Rhyddfrydol, ni fyddwn yn pleidleisio o blaid y gwelliant oherwydd credwn nad yw'n ddigon cryf o bell ffordd, er ein bod yn derbyn ei fod yn well na'r sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni chredwn ei fod yn ddigon da. Byddwn yn ddiolchgar petai Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg yn mynd i'r afael â'r ofn a fynegwyd o sawl tu y bydd y £40 miliwn sydd yn gysylltiedig â'r cynnig hwn yn cael ei dynnu o gyllideb Cymru oni weithredir y cynllun hwn. Mae hwn yn ofn ymarferol a rhaid inni fod yn dawel ein meddyliau ynghylch hyn.

Alun Pugh: Until last month I was responsible for staff appraisal and development in a college with 1,000 staff and some 20,000 students. I think we all recognise that teaching is a highly complex process. It does not lend itself to simple measurement or tailorist approaches. Any attempt to crudely link teachers' pay with pupil results is wholly unacceptable. Some of the best teaching in Wales is done in schools which achieve only modest places in league tables. It must be very tough working in a school such as Penrhys for example.

However, just because performance measurement is difficult does not mean it should not be done. It should not be beyond the wit of this Assembly, working with outside organisations including the elected trade union representatives of the teaching profession, to devise a scheme. This scheme could incorporate the observation of classroom performance, teachers' contribution to the broader life of a school, teachers' participation and commitment to professional and staff development, and pupil performance in examinations using appropriate value added tools. We can devise a reward scheme that raises the real standards of living for the thousands of committed professionals working in Welsh schools.

Carwyn Jones: I suspect that linking performance related pay for teachers with exam results is as difficult as linking our pay with the size of our majorities. That does not mean however that we cannot put into place a system that rewards good teachers. The teaching profession in Wales over the past 40 years has lost a lot of its status. As a result people have not been attracted into the profession and that has been a problem.

When I was in school only 14 years ago, I had two opportunities in front of me, either university and a degree that led to what was seen as a good job, or a degree and a path into the teaching profession which, at that time, even by those who advised me, was

Alan Pugh: Tan y mis diwethaf, yr oeddwn yn gyfrifol am arfarnu a datblygu staff mewn coleg lle ceir 1,000 o staff ac oddeutu 20,000 o fyfyrwyr. Credaf ein bod i gyd yn cydnabod bod addysgu'n broses hynod o gymhleth. Nid yw'n briodol mynd ato gydag agwedd syml y mesurydd neu'r teiliwr. Mae unrhyw ymgais i greu cyswllt amrwd rhwng cyflogau athrawon a chanlyniadau disgyblion yn hollol annerbyniol. Gwelir peth o'r addysgu gorau yng Nghymru mewn ysgolion nad ydynt yn serennu yn y tablau perfformio. Mae'n siŵr bod gweithio mewn ysgol megis Penrhys, er enghraifft, yn dalcen caled iawn.

Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod mesur perfformiad yn anodd yn golygu na ddylid mynd i'r afael â'r dasg. Ni ddylai fod y tu hwnt i allu'r Cynulliad hwn, o gydweithio gyda sefydliadau allanol gan gynnwys cynrychiolwyr undebau llafur etholedig y proffesiwn addysgu, i ddyfeisio cynllun. Gallai'r cynllun hwn ymgorffori arsylwi perfformiad yn yr ystafell ddosbarth, cyfraniad athrawon at fywyd ehangach ysgol, cyfranogiad ac ymrwymiad athrawon i ddatblygu proffesiynol a datblygu staff a pherfformiad disgyblion mewn arholiadau gan ddefnyddio'r dulliau ychwanegu gwerth priodol. Gallwn ddyfeisio cynllun gwobrwy sydd yn codi safonau byw ymarferol y miloedd o bobl broffesiynol ymroddedig sydd yn gweithio yn ysgolion Cymru.

Carwyn Jones: Amheuaif fod cysylltu cyflog â pherfformiad athrawon ar sail canlyniadau arholiadau yr un mor anodd â chysylltu ein cyflogau ninnau gyda maint ein mwyafrifoedd. Nid yw hynny'n golygu fodd bynnag na allwn lunio trefn sydd yn gwobrwyo athrawon da. Mae'r proffesiwn addysgu yng Nghymru yn ystod y 40 mlynedd diwethaf wedi colli llawer o'i statws. O ganlyniad, nid yw'r proffesiwn wedi bod yn denu pobl ac mae hynny wedi bod yn broblem.

Pan oeddwn i yn yr ysgol prin 14 o flynyddoedd yn ôl, roedd gennyf ddau ddewis, naill ai mynd i'r brifysgol a chael gradd a fyddai'n arwain at yr hyn a welid yn swydd dda, neu radd a llwybr i'r proffesiwn addysgu, a ystyrid, ar y pryd, hyd yn oed gan

seen as the worst possible scenario.

y rhai a roddai gyngor imi, yn ddewis gwaeth na'r gwaethaf.

That has to change. It cannot possibly continue. Brian Gibbons has already referred to one of the problems of pay being related to examination results. People would leave difficult schools for the more comfortable schools. In some schools, children pass examinations almost on automatic pilot. It would lead to mediocre teachers in schools where there are highly motivated parents being paid more than excellent teachers in schools where achieving results is more difficult. There would be a brain drain away from schools that are not seen as comfortable schools.

Rhaid i hynny newid. Ni allwn adael i'r sefyllfa barhau. Cyfeiriodd Brian Gibbons eisoes at un o'r problemau sydd yn codi yn sgîl cysylltu cyflog gyda chanlyniadau arholiadau. Byddai pobl yn gadael yr ysgolion anodd er mwyn cael swydd yn y rhai sydd yn cynnig bywyd brafiach. Mewn rhai ysgolion, bydd plant yn llwyddo mewn arholiadau heb fawr ddim ymdrech. Canlyniad hyn fyddai bod athrawon di-ddrwg di-dda mewn ysgolion lle mae'r rhieni'n uchelgeisiol iawn yn cael cyflog uwch nag athrawon rhagorol mewn ysgolion lle mae sicrhau canlyniadau da'n anos. Byddai llif o athrawon da yn gadael yr ysgolion llai cyfforddus eu delwedd.

On the other hand, we have to find a way of rewarding people for what they do. There are many teachers who give up their spare time to teach. There are some who teach pupils in order to give them extra tuition, when going through examinations outside of the normal examination system for example. There are other teachers who give up their time to teach music and others who teach sports, and teaching sport went through a crisis in the 1980s with the mountain of paper thrown at teachers. As a result the teaching of sport suffered, and became a weakness in education.

Ar y llaw arall, rhaid inni ganfod ffordd o wobrwyo pobl am eu gwaith. Mae llawer o athrawon sydd yn rhoi o'u hamser hamdden i addysgu. Bydd rhai'n rhoi hyfforddiant ychwanegol i'w disgyblion adeg arholiadau y tu allan i'r drefn arholi arferol er enghraifft. Bydd athrawon eraill yn rhoi o'u hamser i ddysgu cerddoriaeth ac eraill i ddysgu chwaraeon, a bu'n argyfwng ar ddysgu chwaraeon yn yr 80au yn sgîl y mynyddoedd o bapur a luchiwyd at athrawon. O ganlyniad, dioddefodd chwaraeon a daeth yn fan gwan yn y byd addysg.

We must find a way of supporting and rewarding those people who work in that way. The amendment suggests that we look at putting into place a performance management system. That means that we can spot weaknesses in certain areas of education and that we can reward teachers, so that they do not have to leave the classroom to progress their careers. That is what the amendment is about. I urge everybody to support it.

Rhaid inni ddod o hyd i ryw ffordd o gefnogi a gwobrwyo'r bobl hynny sydd yn gweithio fel hyn. Mae'r gwelliant yn awgrymu ein bod yn llunio trefn rheoli perfformiad. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu gweld gwendidau mewn meysydd penodol ym myd addysg ac y gallwn wobrwyo athrawon, fel nad oes raid iddynt adael yr ystafell ddosbarth i ddringo ysgol gyrfa. Dyna fyrdwn y gwelliant. Anogaf bawb i'w gefnogi.

3:39 p.m.

Rosemary Butler: You will all agree that this afternoon's debate has been excellent. The contributions from Carwyn Jones, Gareth Jones, Jenny Randerson, Jonathan

Rosemary Butler: Fe gytunwch i gyd i'r ddadl fod yn un ragorol y prynhawn yma. Yr oedd cyfraniadau Carwyn Jones, Gareth Jones, Jenny Randerson, Jonathan Morgan a

Morgan and Brian Gibbons all contained similar points.

I recognise the strength of feeling on teachers' pay in the teaching profession, the Assembly and elsewhere. This is a key issue in any move to improve the quality of school education and to produce a system that recognises teachers' essential role. We are determined to raise the status of teaching and improve the profession's reward structure. We have been, and will remain, consistent about this. In return for proper assessment the Green Paper, 'The BEST for Teaching and Learning' proposes a significant pay increase for a large proportion of teachers; a fair exchange of serious investment in return for necessary reform.

I know there is confusion and concern about how performance assessment and pay should be treated. There are some difficult issues here, many of them technical. These need to be resolved in our continuing discussions with teacher associations and unions. In fact, we had Doug McAvoy from the National Union of Teachers in the building. I shall address some of the concerns now. Jonathan, I speak not as a man from Westminster, but a woman in Wales. I give my assurance that we will not be doing away with the annual School Teachers' Review Body uplift for individuals award, or making it conditional on any new performance appraisal. Every teacher will benefit from the existing framework for pay and conditions. We expect teachers to have an annual pay increment up to the threshold subject, as they are now, to satisfactory performance.

However, there is no question of continuing with the existing appraisal system, which does not recognise teachers' remarkable achievements year by year. I am committed to ensuring that teachers' professional ability and success is properly reflected in a modern appraisal system but I also want to see that the existing pay structure is developed to provide rewards for the most effective

Brian Gibbons i gyd yn cynnwys pwyntiau tebyg.

Yr wyf yn cydnabod cryfder y teimladau ynghylch cyflogau athrawon yn y proffesiwn addysgu, y Cynulliad ac mewn mannau eraill. Mae hwn yn fater allweddol wrth gymryd unrhyw gam i wella ansawdd addysg ein hysgolion a chreu trefn sydd yn cydnabod swyddogaeth hanfodol athrawon. Yr ydym yn benderfynol o godi statws addysgu a gwella strwythur gwobrwyo'r proffesiwn. Yr ydym wedi bod yn gyson a byddwn yn parhau i fod yn gyson ynghylch hyn. Yn gyfnewid am drefn asesu iawn, mae'r Papur Gwyrdd, Y Gorau ar gyfer Addysgu a Dysgu yn cynnig cynyddu'n sylweddol gyflogau cyfran helaeth o'n athrawon, a buddsoddi o ddifrif yn gyfnewid am ddiwygio angenrheidiol.

Gwn fod dryswch a phryder ynghylch sut y dylid ymdrin ag asesu perfformiad a chyflog. Mae sawl mater anodd yn codi, llawer ohonynt yn rhai technegol. Mae angen datrys y rhain wrth inni barhau i drafod gyda chymdeithasau ac undebau'r athrawon. A dweud y gwir, bu Doug McAvoy o Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yn yr adeilad i'n gweld. Af i'r afael â rhai o'r pryderon yn awr, Jonathan, gan siarad nid fel dyn o San Steffan, ond fel menyw yng Nghymru. Yr wyf yn eich sicrhau na fyddwn yn dileu codiad blynyddol y Corff Adolygu Athrawon Ysgol i unigolion, nac yn gwneud hwnnw'n amodol ar unrhyw drefn newydd i arfarnu perfformiad. Bydd pob athro/athrawes yn elwa o'r fframwaith cyflogau ac amodau gwaith presennol. Disgwyliwn i athrawon gael cynnydd blynyddol yn eu cyflog hyd at y trothwy, fel y maent ar hyn o bryd, ar yr amod eu bod yn gwneud eu gwaith yn foddhaol.

Fodd bynnag, nid oes bwriad o gwbl o barhau â'r drefn arfarnu bresennol nad yw'n cydnabod y gwaith nodedig a gyflawnir gan athrawon o'r naill flwyddyn i'r llall. Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gallu proffesiynol athrawon a'u llwyddiant yn cael eu hadlewyrchu'n iawn mewn trefn arfarnu fodern ond yr wyf hefyd am weld datblygu'r strwythur cyflog presennol er mwyn

practitioners. A number of speakers have made that point this afternoon. I want higher awards for our best performing teachers, to help raise the status of the profession and to recruit and retain the best. Brian Gibbons made this point. To achieve this, I want to open up a higher salary for teachers who want to focus on teaching without taking on managerial responsibilities. Higher quality teachers who wish to remain in the classroom deserve better prospects for advancement and recognition for their undoubted skills.

gwobrwyo'r athrawon mwyaf effeithiol. Mae nifer o'r siaradwyr y prynhawn yma wedi gwneud y pwynt hwnnw. Yr wyf am sicrhau gwobrau uwch i'r athrawon sydd yn perfformio orau, er mwyn cynorthwyo i godi statws y proffesiwn ac er mwyn recriwtio a chadw'r bobl orau. Gwnaeth Brian Gibbons y pwynt hwn. Er mwyn cyflawni hyn, yr wyf am agor y drws ar gyflog uwch i athrawon sydd am ganolbwyntio ar addysg heb ysgwyddo cyfrifoldebau rheoli. Mae athrawon o safon uwch sydd am aros yn yr ystafell ddosbarth yn haeddu gwell rhagolygon ar gyfer dringo a chydabod eu sgiliau diamheuol.

Despite the potential benefits, I do not want to impose an additional award system on teachers regardless of their personal wishes. No teacher will be forced to cross the threshold for this higher award system, which would be on top of the existing pay structure. Under these proposals, no teacher will be worse off and the majority could be better off. There will be no crude link, above or below the threshold, between rewarding teaching excellence and examination or assessment results. This is not, and never has been, part of these proposals. Any system to reward excellence will be based on wide consultation and will not be bureaucratic or rigid. Teachers have had enough bureaucracy. We shall consider the different demands that arise by setting subject and age groups according to our needs and circumstances in Wales.

Er gwaetha'r darpar fanteision, nid wyf am orfodi trefn wobrwyo ychwanegol ar athrawon yn groes i'w dymuniadau personol. Ni orfodir yr un athro/athrawes i groesi'r trothwy i'r drefn gwobrau uwch, a fyddai'n ychwanegol at y strwythur cyflogau presennol. Dan y cynigion hyn, ni fydd unrhyw athrawon yn waeth eu byd a gallai'r mwyafrif fod yn well eu byd. Ni wneir dim cysylltiadau amrwd, uwchben y trothwy nac oddi tano, rhwng gwobrwyo addysgu rhagorol a chanlyniadau arholiadau neu asesiadau. Nid yw hyn ac ni fu erioed yn rhan o'r cynlluniau hyn. Seilir unrhyw drefn i wobrwyo rhagoriaeth ar ymgynghori eang ac ni fydd yn fiwrocraidd nac yn haearnidd. Mae athrawon wedi cael digon ar fiwrocraeth. Byddwn yn ystyried y gwahanol ofynion sydd yn codi yn sgîl setio grwpiau fesul pwnc ac oedran yn unol â'n hanghenion a'n hamgylchiadau yng Nghymru.

Schools will have significant scope to set the appraisal parameters in a sensitive and manageable way. It is essential that the new appraisal system enables teachers to give a straightforward account of how they are improving teaching and learning. This is to justify additional increases above the initial threshold supplement over time. Responses to the Green Paper consultation do not indicate the Welsh profession's desire to negotiate pay and conditions separately from those in England. I am determined that Welsh teachers should not be denied benefits available to their colleagues in England.

Bydd cyfle sylweddol i ysgolion osod ffiniau'r arfarnu mewn ffordd sydd yn sensitif ac yn hawdd i'w rheoli. Mae'n hanfodol fod trefn arfarnu newydd yn galluogi athrawon i ddisgrifio'n syml sut y maent yn gwella addysgu a dysgu. Diben hyn fydd cyfiawnhau cynnydd ychwanegol ar ben yr ategiad gwreiddiol i'r trothwy dros gyfnod o amser. Nid yw'r ymateb i'r ymgynghori ar y Papur Gwyrdd yn awgrymu bod y proffesiwn yng Nghymru yn awyddus i drafod cyflogau ac amodau gwaith ar wahân i'w cydweithwyr yn Lloegr. Yr wyf yn benderfynol o sicrhau nad yw athrawon yng

Neither should Wales be regarded as a less attractive place in which to teach for the longer term. That would be detrimental to realise our objective to improve educational standards and the standing of the profession in Wales. This matter has been given wide consultation in Wales.

We are considering the responses to the proposals in the Green Paper. We will continue to work hard to reach a consensus appropriate for Wales on how excellence in the classroom can be rewarded. I shall keep the Subject Committee informed and, naturally, they will have an opportunity to comment on the progress. This motion reflects a desire to consider the strongly held views in the profession and elsewhere. It also reflects the need to treat teachers fairly and to reward them appropriately for their professionalism, commitment and vital contribution to improving education in Wales. I hope the Assembly will approve the Government amendments to the motion moved by Gareth Jones. I have not addressed Jenny Randerson's question because I do not understand the figures. Perhaps we can address that together afterwards.

Cynog Dafis: Diolch am y cyfle i grynhoi'r ddadl bwysig hon. Ni chredaf fod unrhyw fater pwysicach, nac un sydd yn denu cymaint o ddiddordeb oddi wrth bobl Cymru. Mae yna deimlad cryf ar y mater hwn. Fe'i gwelir fel prawf o allu'r Cynulliad i lunio polisiau sydd yn berthnasol, derbyniol ac, os oes rhaid, gwahanol, i Gymru.

Croesawaf natur y ddadl hon. Y mae wedi bod yn ardderchog o ran safon o bob rhan o'r Cynulliad. Cawsom gyflwyniad meistrolgar gan Gareth Jones. Tarddodd y cyflwyniad o wybodaeth fanwl iawn o'r sefyllfa. Yr oedd yn athro ysgol, wedyn yn brifathro ac yn gwybod sut mae pob ochr yn gweithredu. Y mae'n gwybod beth yw bod yn athro. Y mae hefyd yn gwybod gofynion prifathro yn nhermau creu cymhelliad i dderbyn

Nghymru'n colli'r manteision sydd ar gael i'w cydweithwyr yn Lloegr. Ni ddylai Cymru ychwaith gael ei hystyried yn lle llai deniadol i ddysgu ynddi yn y cyfnod hwy. Byddai hynny'n niweidiol o ran gwireddu'n hamcan sef gwella safonau addysgol a statws y proffesiwn yng Nghymru. Ymgynghorwyd yn eang ar y mater hwn yng Nghymru.

Yr ydym yn ystyried yr ymateb a gafwyd i'r cynigion yn y Papur Gwyrdd. Byddwn yn parhau i weithio'n galed i sicrhau consensws sydd yn briodol ar gyfer Cymru gyda golwg ar sut mae gwobrwyio rhagoriaeth yn yr ystafell ddosbarth. Byddaf yn bwydo gwybodaeth i'r Pwyllgor Pwnc, ac, yn naturiol, bydd ganddynt gyfle i gyflwyno eu sylwadau ar y cynnydd a wneir. Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu dymuniad i ystyried y farn gref a arddelir yn y proffesiwn ac mewn mannau eraill. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith fod angen trin athrawon yn deg a'u gwobrwyo'n briodol am eu proffesiynoldeb, eu hymrwymiad a'u cyfraniad hollbwysig tuag at wella addysg yng Nghymru. Gobeithio y bydd y Cynulliad yn cymeradwyo gwelliannau'r Llywodraeth i'r cynnig a gynigiwyd gan Gareth Jones. Nid wyf wedi ymateb i gwestiwn Jenny Randerson am nad wyf yn deall y ffigurau. Efallai y gallwn fynd i'r afael â hynny gyda'n gilydd wedyn.

Cynog Dafis: Thank you for the opportunity to summarise this important debate. I do not believe that there is any issue more important, or an issue that attracts more interest from Welsh people. There is strong feeling on this matter. It is seen as a test of the Assembly's ability to draw up relevant policies that are acceptable and if necessary, different, for Wales.

I welcome the nature of this debate. It has been excellent in terms of its standard from every part of the Assembly. We had a masterly presentation by Gareth Jones. This was a result of very detailed knowledge of the situation. He was a teacher who became a headteacher and knows what goes on, on both sides. He knows what being a teacher is. He also knows the requirements of a headteacher in terms of creating motivation

newidiadau heriol sydd yn symud agenda'r ysgol ymlaen. Y mae'r holl gyfraniadau eraill wedi fy nharo. Fel y dywedodd y Prif Ysgrifennydd, mae gennym elfen gryf o unfrydedd. Yr oeddwn yn falch o glywed Jonathan Morgan yn siarad mor oleuedig ac mor ddeallus. Mae hynny'n galonogol. Siaradodd pob un o'r siaradwyr ar sail profiad: Jenny Randerson, Owen John Thomas, Brian Hancock ac Alun Pugh, a oedd wrthi tan yn ddiweddar iawn, yn ceisio rhedeg proses werthuso i athrawon mewn addysg bellach.

Mae safbwynt Cymreig wedi dod i'r amlwg yn y ddadl. I ymateb i rai o sylwadau'r Prif Ysgrifennydd, yr ydym yn derbyn y dylai athrawon da gael gwobr neu werthfawrogiad ariannol. Nid oes problem ynglŷn â hynny. Y mae'n briodol fod athrawon yn cael eu gwobrwyo am fod yn athrawon da ac aros yn yr ystafell dosbarth yn hytrach na symud i sectorau rheoli'r ysgol.

Rhaid inni gael proses o benderfynu beth yw athro da a sut i gydnabod hynny. Nid oes unrhyw awgrym y dylai fod negodi gwahanol ynghylch gwahanol lefelau o gyflog yng Nghymru i gymharu â'r hyn sydd yn digwydd yn Lloegr. Mae ein cynnig yn gwneud hyn yn glir. Fe fyddai hynny'n broblem fawr, ond credwn fod modd bod yn wahanol yn nhermau amodau dyrchafiad mor bell â symud athrawon i gategoriâu uwch a rhoi tâl iddynt yn gydnabyddiaeth am hynny. Y mae hynny yn bosiblwydd cryf. Y mae hyn yn brawf allweddol ar Lywodraeth Cymru fel y cafodd ei ddisgrifio gan y Llywydd. Prawf allweddol i'r Lywodraeth a'r Cynulliad fydd gweld a fydd yn bosibl cael system o'r fath a fydd yn addas ac yn gymeradwy. Fel arall, a fyddwn ynghlwm o raid wrth orchmynion Llundain? Bu sôn am fygythiad na fydd Cymru yn derbyn arian ychwanegol i athrawon oni bai ein bod yn derbyn y pecyn cyfan. Yr wyf yn siŵr fod pawb yn teimlo'n aflonydd ynghylch hynny, felly dylem fod yn rhydd i ddilyn ein llwybr ein hunain.

3:49 p.m.

Heb amheuaeth, mae argymhellion y Llywodraeth yn anghymeradwy ac anaddas.

to accept challenging changes that progress the school's agenda. All the contributions have impressed me. As the First Secretary said, there is a strong element of consensus. I was pleased to hear Jonathan Morgan speaking in such an enlightened and intelligent way. That is heartening. All of the speakers spoke from experience: Jenny Randerson, Owen John Thomas, Brian Hancock and Alun Pugh who, until very recently, was trying to run an appraisal process for teachers in further education.

A Welsh perspective has come to the fore in this debate. In response to some of the First Secretary's comments, we accept that there should be a reward or financial remuneration for good teachers. There is no argument about that. It is appropriate that teachers are rewarded for being good teachers and staying in the classroom, rather than moving into the school's management sector.

There has to be a process to decide what is a good teacher and how to acknowledge that. There is no suggestion that there should be different negotiations about different salary levels in Wales compared to what happens in England. Our proposal makes this quite clear. That would be a major problem, but we believe it is possible to be different in terms of promotion conditions as far as moving teachers to higher categories and giving them financial reward for that. That is a strong possibility. This is a crucial test for the Government of Wales as the Presiding Officer describes it. A key test for the Government and the Assembly will be to see whether it is possible to have a system of this kind, which is appropriate and commendable. Otherwise, will we be tied to orders from London? A threat has been mentioned that perhaps Wales would not get the additional money for teachers unless we accept this package in its entirety. I am sure we all feel uneasy about that, therefore we should be free to follow our own path.

Clearly, the Government's recommendations are unacceptable and inappropriate. There is

Mae'r gwrthwynebiad yn gyffredinol. Nid wyf wedi cwrdd ag un sector sydd yn cefnogi'r argymhellion, nid ymysg athrawon, rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau lleol na chyfarwyddwyr addysg. Mae yna deimlad cryf. Mae llawer o ddiffygion; ni allaf fynd drostynt i gyd oherwydd diffyg amser. Mae yna bryderon ynghylch y broses o groesi'r trothwy i'r ail lefel a'r gofyniad i athrawon sydd wedi ei groesi i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Os mai'r syniad yw gwobrwyo athrawon da sydd yn aros yn yr ystafell ddosbarth, pam ychwanegu at eu dyletswyddau?

Craidd y mater yw'r cwestiwn o gysylltu cyflogau athrawon â pherfformiad eu disgyblion. Trafodwyd hyn yn fanwl heddiw. Sefydlwyd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon i gael gwared â thalu i athrawon yn ôl eu perfformiad bron ganrif yn ôl, a dyma ni'n sôn amdano heddiw yn ystod dadl y Llywodraeth. Mae hynny'n drist iawn. Mae'r system hon yn rhwym o fod yn anghyfiawn. Mae'r sôn am gael gwerthusiadau blynyddol a fydd yn penderfynu a gaiff athrawon eu cynyddiad yn fygythiol ac yn swnio'n hurt i ni. Bydd hefyd yn llethol o fiwrocrataidd ac yn gwaethygu'r argyfwng recriwtio. Dyna yw'r mater pwysicaf.

Gofynnwn ni, fel plaid, fod y Pwyllgor Addysg Cyn-16 yn trafod y mater yn fanwl ac yn helaeth. Mae yna ymgynghoriad yn digwydd ac mae'r Llywodraeth yn derbyn y canlyniadau yn awr. Yn hytrach na bod yr Ysgrifennydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw penderfyniad y Llywodraeth, dylai'r Pwyllgor drafod a derbyn barn o bob cyfeiriad. Bydd y Pwyllgor yn cyrraedd consensws ar yr hyn sydd yn dderbyniol ac yn fuddiol ac yn ystyried beth fydd yn gwella morâl athrawon a recriwtio ac yn codi safonau. Dylai'r mater ddod wedyn i'r Cynulliad.

Beth a wnawn am welliant Llywodraeth Cymru? Y mae'n cwrdd â'n pryderon ni yn rhannol, ond nid yw'n ddigon da ac nid wyf yn hoffi'r defnydd o'r gair 'amrwd'. Mae hynny fel pe bai'n amodi'r gwrthwynebiad i dalu yn ôl canlyniadau. Pe bai yna ddulliau prydferth, mirain, soffistigedig, cain o

general opposition to them. I have not encountered any sector that supports these recommendations, not among teachers, parents, governors, local authorities or directors of education. This is a strong feeling. There are many deficiencies; I cannot go over them all because of lack of time. There are concerns about crossing the threshold to the second level and the requirement for teachers who have crossed it to undertake additional responsibilities. If the idea is to reward good teachers who stay in the classroom, why add to their duties?

The crux of the matter is the question of linking teachers' salaries with their pupils' performance. This has been discussed in detail today. The National Union of Teachers was established to get rid of performance related pay nearly a century ago, and here we are talking about it in the Government's debate. That is very sad. This system is bound to be unjust. Talk of annual appraisals that will decide whether teachers will receive their increment is threatening and sounds senseless to us. It will also be extremely bureaucratic and will worsen the recruitment crisis. That is the most important issue.

As a party, we want the Under-16 Education Committee to discuss this matter in detail and at length. Consultation is underway and the Government is receiving the results at the moment. Rather than the Secretary informing the Committee of the Government's decision, the Committee should discuss and receive views from all directions. The Committee will then reach a consensus on what is acceptable and beneficial and consider what will improve teachers' morale and recruitment and raise standards. The matter should then come before the Assembly.

What shall we do with the Government of Wales' amendment? It partly meets our concerns, but it is inadequate and I do not like the use of the word 'crude'. It is as though it is a condition to the objection of performance related pay. Even if there were some beautiful, refined, sophisticated,

gysylltu tâl â chanlyniadau plant, byddwn yn ei wrthod. Ni ddylai fod cysylltiad rhwng cyflogau athrawon a chanlyniadau disgyblion. Nid ydym eisiau ei weld yng Nghymru. Yr wyf braidd yn amheus o'r hen ymadrodd 'system rheoli perfformiad' oherwydd ei fod yn awgrymu rhywbeth gormesol, ond fe welwn beth yw ei ystyr. Mae yna amheuaeth ynghylch gallu'r Cynulliad mewn perthynas â hyn. Nid ydym yn siŵr beth fydd disgrisiwn y Cynulliad. Derbyniais nodyn o gyngor o'r Adran Addysg ynglŷn â hyn yn ystod yr awr ddiwethaf. Os bydd y Llywodraeth yn Llundain yn mynnu parhau â hyn yng Nghymru, mae'n siŵr fod ganddi'r gallu i wneud hynny. Pe bai ein hewyllys wleidyddol ni a Llundain yn bod i roi disgrisiwn i Gymru i fod yn wahanol, byddai modd i'r Cynulliad ddilyn ei drywydd ei hun. Dyna beth yr ydym ni'n dymuno'i weld yn digwydd.

Bydd y Cynllun yn derbyn argymhellion y Llywodraeth a sylwadau'r Pwyllgor yn yr Hydref ac fe gawn ni gyfle i farnu bryd hynny. Ar sail hynny, yr wyf yn fodlon cyngori fy mhlaidd i beidio â gwrthwynebu'r gwelliant, er na fyddwn yn ei gefnogi. Pan ddaw'r argymhellion i'r Cynulliad, os bydd sôn am gysylltu cyflogau athrawon â chanlyniadau, byddwn yn ei wrthwynebu, bydd gwrthwynebiad cyffredinol yng Nghymru a byddwn yn ymgyrchu yn ei erbyn. Am y tro, teimlwn ei bod yn briodol i ganiatáu i'r Pwyllgor ystyried y mater a mynd drwy'r broses a awgrymais.

Y Llywydd: Y cynnig gerbron y Cynulliad yw derbyn y gwelliant.

Mike German: Point of order. Are we allowed to vote on the amendment?

The Presiding Officer: No. The amendment has been accepted and forms part of the substantive motion.

Cynog Dafis: Dywedais na fyddem yn gwrthwynebu'r gwelliant.

Y Llywydd: Yr ydych yn dymuno, felly, ein bod yn rhoi'r gwelliant a'r cynnig ar wahân?

elegant methods of linking pay to pupils' performance, I would still reject it. There should not be a link between teachers' performance and pupils' results. We do not want to see this in Wales. I am rather doubtful of the phrase 'performance management system' because it suggests something oppressive, but we will see what that means. There is some doubt about the Assembly's powers in this context. We are not sure what the Assembly's discretion will be. I received a note of advice from the Department for Education about this during the last hour. If the Government in London insists on continuing with this in Wales, it can certainly do so. If we and London had the political will to give us the discretion in Wales to be different, the Assembly could follow its own path. That is what we want to see happening.

The Assembly will receive the Government's recommendations and the Committee's comments in October and we will then have the opportunity to decide. On that basis, I am willing to advise my party not to oppose the amendment, though we will not support it. When we receive the recommendations in the Assembly, if there is mention of linking teachers' pay with pupils' results, we will oppose it, there will be general opposition in Wales and we will campaign against it. For the time being, we feel it is appropriate to allow the Committee to consider the matter and go through the process I suggested.

The Presiding Officer: The proposal before the Assembly is to accept the amendment.

Mike German: Mater o drefn. A ydym yn cael pleidleisio ar y gwelliant?

Y Llywydd: Nac ydych. Mae'r gwelliant wedi ei dderbyn ac mae'n rhan o'r cynnig gwreiddiol.

Cynog Dafis: I said we would not object to the amendment.

The Presiding Officer: Therefore, you wish us to put the amendment and the proposal

separately?

Cynog Dafis: Ydw.

Cynog Dafis: Yes.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn gyntaf ar y gwelliant gan Lywodraeth Cymru i gynnig Plaid Cymru.

The Presiding Officer: We will vote first on the amendment by the Government of Wales to the Plaid Cymru motion.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y gwelliant.*

*A vote was held by show of hands.
Amendment adopted.*

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

The Presiding Officer: We will now vote on the motion.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y prif gynnig wedi'i ddiwygio.*

*A vote was held by show of hands.
Amended motion adopted.*

Dadl Plaid Leiafrifol (Y Blaid Geidwadol) Minority Party Debate (The Conservative Party)

Cyllid Cyhoeddus Public Money

The Presiding Officer: This debate, by the Conservative Party, will last for 60 minutes. I will follow the procedure adopted for the earlier debate, to allow 10 minutes for both the Minority Party and the Government of Wales speaker. I will call Members favouring the Conservative Party. Edwina Hart will speak for the Government later on in the debate.

Y Llywydd: Bydd y ddadl hon, gan y Blaid Geidwadol, yn para 60 munud. Byddaf yn dilyn y drefn a fabwysiadwyd yn y ddadl yn gynharach, sef caniatáu 10 munud i lefarydd y Blaid Leiafrifol a llefarydd Llywodraeth Cymru. Byddaf yn galw Aelodau sydd yn ffafrio'r Blaid Geidwadol. Bydd Edwina Hart yn siarad ar ran y Llywodraeth yn ddiweddarach yn y ddadl.

John Marek: If the Government's position was set out early in the debate, we could at least have a knowledgeable debate. Could that be considered in future?

John Marek: Pe bai safiad y Llywodraeth yn cael ei amlinellu'n gynnar yn y ddadl, gallem o leiaf ddadlau ar sail gwybodaeth. A ellid ystyried hynny i'r dyfodol?

3:59 p.m.

The Presiding Officer: That is a point of order. I have offered the Government of Wales the opportunity to speak at any stage. Edwina Hart will exercise that right towards the end of the debate and that is perfectly in order.

Y Llywydd: Mater o drefn yw hynny. Rhoddais gyfle i Lywodraeth Cymru siarad ar unrhyw adeg. Bydd Edwina Hart yn arddel yr hawl honno tua diwedd y drafodaeth ac mae hynny'n gwbl dderbyniol.

Nick Bourne: I propose that

Nick Bourne: Cynigiau fod

this Assembly condemns the Government for wasting public money on the Assembly itself when money would be better spent on public services.

y Cynulliad hwn yn condemnio'r Llywodraeth am wastraffu cyllid cyhoeddus ar y Cynulliad ei hun pan fyddai'n well gwario'r arian yn fwy effeithiol ar wasanaethau cyhoeddus.

I refer to one aspect of that—the proposed new Assembly building. It is true that costs are incurred in running an Assembly. Democracy does not come cheap. We accept that in the Conservative group and we are committed to making the Assembly work. However, we question the massive cost of a new Assembly building. We know from the First Secretary that few costs have so far been incurred in relation to the new Assembly building so we question whether we need a new building.

Cyfeiriai at un agwedd o hynny—adeilad newydd arfaethedig y Cynulliad. Mae'n wir bod costau'n anochel wrth gynnal Cynulliad. Ni cheir democratiaeth yn rhad. Yr ydym yn derbyn hynny yn y grŵp Ceidwadol ac yr ydym wedi ymrwymo i wneud i'r Cynulliad weithio. Fodd bynnag, yr ydym yn amheus ynglŷn â chost enfawr adeilad newydd i'r Cynulliad. Gwyddom oddi wrth y Prif Ysgrifennydd mai ychydig gostau a wynebwyd hyd yma yng nghyswllt adeilad newydd y Cynulliad, felly holwn a oes angen adeilad newydd arnom.

The National Assembly Advisory Group met in this building when it was Crickhowell House. I recall, as other group members will, that we took an informal vote about the suitability of this building for an Assembly. It was the one occasion when we were absolutely unanimous; we said that it was totally unsuitable. We were wrong. The Welsh Office staff and others have performed magnificently to transform this building. This is now the Assembly's home.

Improvements can be made to some facilities here: some can be enhanced, other new ones can be added. There is no shortage of space here, at least not potentially. This might be irrelevant if there weren't a massive cost associated with this new building. The cost is put in the White Paper as between £12 million and £17 million. Nothing has changed. We know in practice, and this is not a party political point as it happens under all governments, that these costs rise.

There have been three arguments in favour of a new Assembly building. The first was raised yesterday by Helen Mary Jones, who has just left the Chamber. It appears the people of Llanelli are worried that she is behind a pillar. It seems civil unrest and riots are about to break out in Llanelli. It is an excessive cost to move such a pillar, as I am sure the electorate of Llanelli would agree. The seating arrangements must have been agreed by the Plaid Cymru group so presumably, it was a conscious decision to put her there.

[Interruptions.]

The Presiding Officer: Order. It is not customary practice and courtesy to refer to Members in their absence, and certainly not to refer to them in any way which connects them with the structure of a building.

Nick Bourne: There was no such intention. The next part of the speech is complimentary about Helen Mary. If the electors of Llanelli wish for reassurance about her contribution behind the pillar, there are 59 Members here who will testify that she is doing good work

Cyfarfu Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn Nhŷ Crucywel, sef yr adeilad hwn. Mi gofiau, fel y gwna aelodau eraill y grŵp, inni bleidleisio'n anffurfiol ar addasrwydd yr adeilad hwn ar gyfer Cynulliad. Hwn oedd yr unig achlysur inni fod yn gwbl unfrydol; dywedasom ei fod yn gwbl anaddas. Yr oeddem yn anghywir. Mae staff y Swyddfa Gymreig ac eraill wedi gweithio'n aruthrol i drawsnewid yr adeilad hwn. Dyma gartref y Cynulliad erbyn hyn.

Gellir gwella rhai o'r cyfleusterau yma: gellir caboli rhai ac ychwanegu eraill o'r newydd. Nid oes prinder lle yma, o leiaf nid o ran potensial. Hwyrach y byddai hyn yn amherthnasol pe na bai cost anferthol ynghlwm wrth yr adeilad newydd hwn. Yn y Papur Gwyn, nodir y bydd y gost rhwng £12 miliwn a £17 miliwn. Nid oes dim wedi newid. Gwyddom, ac nid pwynt gwleidyddol pleidiol yw hwn gan ei fod yn digwydd dan bob llywodraeth, fod y costau hyn yn codi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Cafwyd tair dadl o blaid adeilad newydd i'r Cynulliad. Codwyd y cyntaf ddoe gan Helen Mary Jones, sydd newydd adael y Siambr. Mae'n debyg bod pobl Llanelli yn poeni am ei bod hi tu ôl i biler. Yn ôl y sôn mae terfysg a chythrwfl ar fin torri allan yn Llanelli. Mae'n gost afresymol i symud piler o'r fath, fel y byddai etholwyr Llanelli yn cytuno yr wyf yn siŵr. Mae'n rhaid bod grŵp Plaid Cymru wedi cytuno i'r trefniadau eistedd felly, mi dybiaf, yr oedd yn benderfyniad bwriadol i'w rhoi hi yn y fan hon.

[Torri ar draws.]

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'n arferol nac yn gwrtais cyfeirio at Aelodau yn eu habsenoldeb, ac yn sicr nid i gyfeirio atynt mewn ffordd sydd yn eu cydgysylltu â strwythur adeilad.

Nick Bourne: Nid oedd unrhyw fwriad o'r fath. Mae rhan nesaf yr araith yn ganmoliaethus i Helen Mary. Os yw etholwyr Llanelli am gael cadarnhad o'i chyfraniad o'r tu ôl i'r piler, mae yma 59 o Aelodau a fyddai'n tystio ei bod hi'n gwneud gwaith da

behind that pillar and she is visible in every sense except the obvious. I am glad she is here for this part of the speech and highly visible in every sense.

The second argument is about the auditorium, the public gallery, and as to whether it is large enough for people wishing to hear debates. It is a matter for concern though if it is always nearly full. Full to overflowing is a good thing in many ways. We can look at ways of achieving a larger auditorium without spending all this money.

The final argument is important and is about symbolism, the importance of a symbol of our new Assembly and the new Wales. Yesterday, the First Secretary spoke of his vision of priorities. In his State of the Nation address, he said, 'Better job opportunities, better education, better health and a better quality of life for the Welsh people, underlined by best values.' It is a vision to which most of us subscribe, at least in its broad headline. However, if Christine will forgive this, many of us thought the vision lacked beef.

Where does the money spent on a new Welsh Assembly building fit into this framework? Which of those priorities are served by a new building? I challenge any Assembly Secretary here to say they do not mind £17 million coming out of their budget to fund this new building. I challenge any Assembly Member to say they would be happy for their constituency or region to lose money to fund the new building. All Members are too responsible to volunteer that. However, somebody's budget or a combination of budgets must suffer. Do we need a new building? Do we need this as a symbol of our Assembly?

We have symbols enough of public bodies, of local councils throughout Wales. They can be identified in their glory by a visitor from outer space. Imagine the scene. A visitor from outer space, a martian, has landed in Wales. He knows little of the local situation. He might not know the difference between a

o'r tu ôl i'r piler a'i bod hi'n weladwy ym mhob ystyr ond yr un amlwg. Yr wyf yn falch ei bod hi yma ar gyfer y rhan hon o'r araith ac yn weladwy iawn ym mhob ystyr.

Mae'r ail ddadl am yr awditoriwm, yr oriel gyhoeddus, ac a yw'n ddigon mawr i'r bobl sydd yn dymuno gwrandao ar y dadleuon. Mae'n fater o bryder os yw bob amser bron yn llawn. Mae llawn hyd at fod yn orlawn yn beth da mewn llawer ffordd. Gallwn edrych ar ffyrdd o sicrhau awditoriwm mwy heb wario'r holl arian yma.

Mae'r ddadl olaf yn un bwysig ac yn ymwneud â symbolaeth, pwysigrwydd symbol i'n Cynulliad newydd a'r Gymru newydd. Ddoe, siaradodd y Prif Ysgrifennydd am flaenoriaethau ei weledigaeth ef. Yn ei anerchiad Cyflwr y Genedl, dywedodd, 'Gwell cyfle i gael gwaith, gwell addysg, gwell iechyd, gwell ansawdd bywyd i bobl Cymru, wedi eu seilio ar y gwerthoedd gorau.' Mae'n weledigaeth a gefnogir gan y rhan fwyaf ohonom, o leiaf ar ffurf pennawd bras. Fodd bynnag, a maddeued Christine imi, teimlai llawer ohonom fod diffyg grym yn y weledigaeth.

Sut y mae'r arian a werir ar adeilad newydd i'r Cynulliad yn gweddu i'r fframwaith hwn? Pa rai o'r blaenoriaethau hyn a wasanaethir gan adeilad newydd? Heriaf unrhyw un o Ysgrifenyddion y Cynulliad i ddweud nad oes ots ganddynt golli £17 miliwn o'u cyllideb i gyllido'r adeilad newydd hwn. Heriaf unrhyw Aelod o'r Cynulliad i ddweud y byddent yn hapus i'w hetholaeth neu ranbarth golli arian i gyllido'r adeilad newydd. Mae'r Aelodau i gyd yn rhy gyfrifol i honni hynny. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i gyllideb rhywun neu gyfuniad o gyllidebau ddioddef. A oes angen adeilad newydd arnom? A oes ei angen arnom fel symbol o'n Cynulliad?

Mae gennym symbolau ddigon i gyrff cyhoeddus, i gynghorau lleol ledled Cymru. Byddai ymwelydd o'r gofod yn eu hadnabod yn eu hysblander. Dychmygwch y darlun. Mae ymwelydd o'r gofod, brodor o Fawrth, wedi glanio yng Nghymru. Ni wŷr fawr ddim am y sefyllfa'n lleol. Hwyrach na wŷr y

carnivore and a vegetarian. He might not understand the beef on the bone ban or its implications. He or she might happily tuck into beef on the bone. However, you can be sure that visitor from outer space would be able to take you to any town or area and point—

Val Feld: I am confused by your proposition. I read that you wish the Assembly to condemn the waste of public money on the Assembly itself when it should be spent on public services. However, what I am hearing from you is a case against a new building. Is it your contention that this Assembly should be shut down because we are unable to continue in this building and we should not spend money on a new building? If this is the case, why have you spent so much time and public money as a member of the National Assembly Advisory Group, planning for the Assembly's future?

Nick Bourne: You are under a misconception. I am not suggesting that the Assembly should be shut down. I made it clear that I thought this building suitable for an Assembly and that facilities could and should be enhanced. I am grateful for the opportunity to say this. I am not speaking against the Assembly, I am speaking against waste. A new building is not a sensible way to spend Welsh taxpayers' money. That money could be more sensibly spent. This is not against the Assembly, it is against waste.

In any town, in any area, you can identify the public buildings, the symbol of the local authority, whether it be Rhondda Cynon Taff or Cardiff County Hall, Swansea County Hall or Powys County Hall. The public building stands in a prime position in the town, normally ugly, too large for its needs, the heating is on full and it is paid for with other people's money.

You, Edwina, know that we have in Swansea some of the most deplorable housing, yet we have a marvellously appointed County Hall. The same is true in Cardiff and in Rhondda Cynon Taff where there is dire poverty, as

gwahaniaeth rhwng cigysydd a llysfwytäwr. Efallai na fyddai'n deall y gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn na'i oblygiadau. Hwyrach y byddai ef neu hi yn cael blas ar gig eidion ar yr asgwrn. Fodd bynnag, gallwch fod yn siŵr y gallai'r ymwelydd hwn o'r gofod fynd â chi i unrhyw dref neu ardal neu fan—

Val Feld: Yr wyf wedi fy nrysu gan eich cynnig. Darllenaf eich bod am i'r Cynulliad gondemnio gwastraffu arian cyhoeddus ar y Cynulliad ei hun pan ddylid ei wario ar wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf yn ei glywed gennych yw achos yn erbyn adeilad newydd. Ai eich honiad chi yw y dylid cau drysau'r Cynulliad hwn gan na allwn gario ymlaen yn yr adeilad hwn ac na ddylem wario arian ar adeilad newydd? Os mai dyna'r achos, pam ydych chi wedi gwario cymaint o amser ac arian cyhoeddus fel aelod o Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, yn cynllunio ar gyfer dyfodol y Cynulliad?

Nick Bourne: Yr ydych dan gamargraff. Nid wyf yn awgrymu y dylid cau drysau'r Cynulliad. Fe'i gwneuthum yn glir fy mod o'r farn bod yr adeilad hwn yn addas i Gynulliad ac y gellid gwella a chaboli'r cyfleusterau. Diolchaf am y cyfle i ddweud hyn. Nid wyf yn siarad yn erbyn y Cynulliad, yr wyf yn siarad yn erbyn gwastraff. Nid yw adeilad newydd yn ffordd ddoeth o wario arian trethdalwyr Cymru. Gellir gwario'r arian hwnnw yn ddoethach. Nid yw hyn yn erbyn y Cynulliad, ond yn erbyn gwastraff.

Mewn unrhyw dref, mewn unrhyw ardal, gallwch adnabod yr adeiladau cyhoeddus, symbol yr awdurdod lleol, boed yn Rhondda Cynon Taf neu yn Neuadd y Sir, Caerdydd, Neuadd y Sir, Abertawe neu Neuadd y Sir, Powys. Saif yr adeilad cyhoeddus mewn man amlwg yn y dref, mae'n hyll fel arfer, yn rhy fawr i'w anghenion, mae'r gwres ar ei uchaf a thelir amdano gydag arian pobl eraill.

Fe wyddoch chi, Edwina, fod gennym yn Abertawe rai o'r tai gwaethaf, eto mae gennym Neuadd y Sir o'r radd flaenaf. Mae'r un peth yn wir yng Nghaerdydd ac yn Rhondda Cynon Taf lle ceir tlodi difrifol, fel

we heard from Christine Chapman. Yet we have these public buildings, testaments built with other people's money when it could be more usefully spent elsewhere. This is not an attack on the work of the people there or the great bulk of councillors who served in those councils.

Would it not be better in Wales to spend £17 million on essential public services, on health care, providing care for cancer patients or for a children's hospital? We could provide education for lifelong learners, for those who want to return to education where they have been denied an earlier opportunity. The money could be spent on our hard pressed rural communities, on improved assistance for farmers, perhaps to encourage new entrants into farming or to improve transportation in Wales.

In mid and west Wales, this money could make a difference if spent on community hospitals. In the Swansea Valley it could help bring jobs to Ystradgynlais. Throughout Wales it could be used to attract new entrants into farming. In Cardiff it could be used to fund a children's hospital. This should be our positive vision for Wales.

4:09 p.m.

The National Assembly for Wales should not be seen by the people of Wales as an expensive new building. It should be seen as the body which helps to deliver first class public services. The Assembly is not a building; the Assembly is the people here who are working for Wales. At the end of four years we do not want the only real or perceived difference for Wales to be a new Assembly building paid for by dipping into other budgets.

No effort has been made to seek the opinions of people in Wales on this new building. The First Secretary has given an assurance that Assembly Members will be involved and I welcome that. We also need to involve people in Wales and find out what they feel,

y clywsom gan Christine Chapman. Eto i gyd, saif yr adeiladau cyhoeddus hyn, testamentau a godwyd gydag arian pobl eraill er y gellid bod wedi ei wario'n fwy buddiol mewn mannau eraill. Nid ymosod yr wyf ar waith pobl yn y mannau hyn nac ar fwyafrif helaeth y cynghorwyr a fu'n gwasanaethu ar y cynghorau hyn.

Oni fyddai'n well i Gymru wario £17 miliwn ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol, ar ofal iechyd, yn darparu gofal i gleifion sydd â chanser neu ar ysbyty plant? Gallem ddarparu addysg i'r rhai sydd yn dysgu gydol eu hoes, i'r rheiny sydd am ddychwelyd at addysg gan na chawsant gyfle cyn hyn. Gellid gwario'r arian ar ein cymunedau cefn gwlad sydd dan gymaint o bwysau, ar well cymorth i ffermwyr, ar annog pobl i ddod i mewn i ffermio o'r newydd efallai neu ar wella trafnidiaeth yng Nghymru.

Yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, gallai'r arian hwn wneud gwahaniaeth pe câi ei wario ar ysbytai cymuned. Yng Nghwm Tawe gallai helpu i ddod â swyddi i Ystradgynlais. Ledled Cymru, gellid ei ddefnyddio i ddenu pobl newydd i mewn i ffermio. Yng Nghaerdydd, gellid ei ddefnyddio i gyllido ysbyty plant. Dyma'r weledigaeth gadarnhaol y dylem ei harddel dros Gymru.

Ni ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei ddirnad gan bobl Cymru fel adeilad newydd costus. Dylai gael ei weld fel corff sydd yn helpu i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf. Nid adeilad yw'r Cynulliad; y Cynulliad yw'r bobl sydd yma yn gweithio dros Gymru. Ar ddiwedd pedair blynedd nid ydym am weld mai'r unig newid gwirioneddol neu dybiedig i Gymru yw adeilad newydd i'r Cynulliad, y talwyd amdano trwy dynnu arian o gyllidebau eraill.

Ni wnaed unrhyw ymgais i geisio barn pobl yng Nghymru am yr adeilad newydd hwn. Rhoddwyd sicrwydd gan y Prif Ysgrifennydd y bydd gan Aelodau'r Cynulliad lais ynddo a chroesawaf hynny. Mae angen hefyd inni roi llais i bobl Cymru a chanfod eu teimladau

perhaps through a citizens' jury. I would like to know whether that could happen. Many of us recall the overwhelming reaction of people when the winning design was chosen. They thought it unnecessary and expensive. This project seems to be sponsored by the Blairite faction of the Labour Party. Tony Blair is surrounded by some ghastly people, like lice on the back of a hedgehog. You say that I am a petty little man, Alun, but I was going to say that those words display the worst characteristics of Westminster politics. They are not my words. They are the words of Ken Livingstone MP about your leader. I can prove the words are not mine; they come from a *New Statesman* article. I do not know to what extent other Welsh Labour Party members share that view. However, I would condemn them as they go too far. This is the Assembly's home. This should not be a transit camp for the Assembly but rather a building which we can improve through principles of good housekeeping, ensuring that money is spent on public services in Wales and that they are enhanced and improved.

You, Edwina, are the guardian of our finances, our chatelaine. We look to you to keep safe the keys to the coffers of Welsh public spending. You should ensure that money is only spent on essential public services. Throughout Wales there are many expensive underused public buildings. The Conservative party will fight to ensure that resources available to Wales are spent on essential public services and not on inessential public buildings. At the end of the day £70 million to move a pillar is a lot of money.

David Davies: There are many people in Wales who are not convinced of the validity of the Assembly. I am not only referring to people in my constituency of Monmouth. One concern that the people of Wales had during the referendum was that every penny spent on this Assembly will be a penny less for schools and hospitals in Wales.

If this new building goes ahead, it is not going to have any offices or facilities. It is

hwy, trwy reithgor dinasyddion efallai. Hoffwn wybod a allai hynny ddigwydd. Bydd llawer ohonom yn cofio ymateb pennaf pobl pan ddewiswyd y cynllun buddugol. Teimlent ei fod yn ddianghenraid ac yn ddrud. Ymddengys bod y prosiect hwn yn cael ei noddi gan garfan Blairiaid y Blaid Lafur. Mae Tony Blair wedi ei amgylchynu gan bobl digon anghynnes, fel chwain ar gefn draenog. Fe ddywedwch chi, Alun, fy mod I'n ddyn bach pitw, ond yr oeddwn am ddweud bod y geiriau hyn yn nodweddiadol o wleidyddiaeth San Steffan ar ei gwaethaf. Nid fy ngeiriau i ydynt. Geiriau Ken Livingstone AS ydynt am eich arweinydd. Gallaf brofi nad fi biau'r geiriau, dônt o erthygl yn y *New Statesman*. Ni wn i ba raddau y mae aelodau eraill y Blaid Lafur yng Nghymru yn rhannu'r farn hon. Fodd bynnag, byddwn yn eu condemnio am fynd yn rhy bell. Hwn yw cartref y Cynulliad. Ni ddylai fod yn wersyll dros dro ond yn adeilad inni wella arno trwy fod yn ddarbodus, gan sicrhau bod arian yn cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'u bod yn cael eu hehangu a'u gwella.

Chi, Edwina, yw ceidwad yr arian, ein meistres. Disgwyliwn i chi gadw allwedd i'r coffrau gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn saff. Dylech wneud yn siŵr mai dim ond ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol y caiff ei wario. Mae yna lawer o adeiladau cyhoeddus costus nad ydynt yn cael eu defnyddio i'w heithaf ledled Cymru. Bydd y blaid Geidwadol yn ymladd i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i Gymru yn cael eu gwario ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol, nid ar adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn hanfodol. Yn y pen draw, mae £70 miliwn i symud piler yn llawer iawn o arian.

David Davies: Mae llawer o bobl yng Nghymru nad ydynt wedi eu hargyhoeddi bod y Cynulliad yn ddilys. Nid dim ond at bobl yn fy etholaeth i ym Mynwy y cyfeirir. Un o bryderon pobl Cymru yn ystod y refferendwm oedd y bydd pob ceiniog a werir ar y Cynulliad hwn yn geiniog yn llai i ysgolion ac ysbytai Cymru.

Os codir yr adeilad newydd hwn, ni fydd ynddo unrhyw swyddfeydd na chyfleusterau.

simply going to be a debating chamber for the Assembly Members. It is going to be built at a cost of roughly one-third of a million pounds for each of the elected Members. That is a decision that will cause howls of outrage throughout Wales.

There is a crisis in the health service. The First Secretary appeared to admit that yesterday. The situation is so bad that one gentleman in Newport is not going to receive a lifesaving quadruple heart by-pass because of a shortage of a few thousand pounds. I urge each of the Chamber Members to look around and think carefully about how they would like £17 million spent. I hope you reject this new building and back a campaign for funding for the health service in Wales so that the people of Wales get the health service they deserve.

David Melding: In supporting this motion, I want to reiterate the eloquent points of my colleagues. At this initial, important stage in the Assembly's history, we should be setting precedents and concentrating on our work. Whatever you think about a new fancy building, it is not integral to the National Assembly's work. We will be sending a self-indulgent signal to the people of Wales if the first thing we approach with vision and gusto is constructing a new building for the Assembly. There is no justification for that. Its purpose is just to house the Debating Chamber and a few other ancillary rooms for committee meetings and the like. Much of our day-to-day work will go on in this building, for which we have been admirably well equipped by the civil service and other support staff. I thank everyone involved for supporting us and ensuring that we are off to a flying start, particularly with the new technology. The work we need to do is the essential issue. It is slightly depressing that we have started by arguing about a new Assembly building before we have convinced everyone about—[*Interruption.*]

I am glad that Labour Party members find that remark unintentionally humorous. I will

Dim ond siambr ddadlau i Aelodau'r Cynulliad a geir. Fe'i codir am gost o un rhan o dair o filiwn o bunnoedd yn fras am bob Aelod etholedig. Mae'n benderfyniad a fydd yn peri dicter mawr ar hyd a lled Cymru.

Mae'r gwasanaeth iechyd mewn argyfwng. Yr oedd y Prif Ysgrifennydd fel pe bai'n cyfaddef hynny ddoe. Mae'r sefyllfa mor ddrwg fel na fydd un gŵr bonheddig o Gasnewydd yn cael triniaeth ddargyfeiriol bedrwbl ar ei galon, i achub ei fywyd, am fod y gwasanaeth yn brin o ychydig filoedd o bunnoedd. Anogaf bob Aelod yn y Siambr i edrych o'ch cwmpas ac ystyried yn ofalus sut yr hoffech i'r £17 miliwn gael ei wario. Gobeithiaf y byddwch yn gwrthod yr adeilad newydd hwn ac yn cefnogi ymgyrch o blaid cyllid i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru fel y caiff pobl Cymru y gwasanaeth iechyd y maent yn ei haeddu.

David Melding: Wrth gefnogi'r cynnig, hoffwn ailadrodd pwyntiau huawdl fy nghyfeillion. Yn y cyfnod cychwynnol, pwysig hwn yn hanes y Cynulliad, dylem fod yn gosod cynseiliau ac yn canolbwyntio ar ein gwaith. Beth bynnag fo'ch barn am adeilad newydd ffansi, nid yw'n rhan annatod o waith y Cynulliad Cenedlaethol. Byddwn yn rhoi'r argraff i bobl Cymru ein bod yn boddio'n dymuniadau ein hunain os mai'r peth cyntaf a wnawn gyda gweledigaeth ac egni yw codi adeilad newydd i'r Cynulliad. Nid oes unrhyw gyfiawnhad i hynny. Ei ddiben yw darparu lle i'r Siambr a rhai ystafelloedd eraill ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ac ati. Gwneir llawer o'n gwaith beunyddiol yn yr adeilad hwn, ac mae'r gwasanaeth sifil a staff cefnogi eraill wedi darparu'n rhagorol ar ein cyfer yn hynny o beth. Diolchaf i bawb dan sylw am ein cefnogi a sicrhau ein bod yn cael dechrau da, yn enwedig gyda'r dechnoleg newydd. Yr ystyriaeth graidd yw'r gwaith y mae gofyn inni ei wneud. Mae braidd yn ddigalon ein bod yn dechrau trwy ddadlau am adeilad newydd i'r Cynulliad cyn inni argyhoeddi pawb—[*Torri ar draws.*]

Yr wyf yn falch bod y sylw yna yn anfwriadol ddigrif i aelodau'r Blaid Lafur.

talk about the controversy in the Labour Party regarding this building. Let us think historically. We may be 60 new, potentially puffed up politicians if we are not careful. Perhaps you do not want to take the modest approach, but we do on this side of the Chamber. We have been elected. Most of us were unprepared and were unsure what procedures applied and what duties would be incumbent upon us. We are all learning as we go along. It is encouraging as more of us make our first speeches and contributions to see the quality of the people who have been elected. I am not including myself; I am not as conceited as that. There was a lot of debate early on about the quality of Assembly candidates. I do not think there is any argument that the National Assembly has been an option for people who want to see public services better developed and delivered in Wales. People here have this honourable commitment, but you are going to get it wrong if you concentrate on providing a new building.

The Mother of Parliaments, if that is a not an inappropriate and exclusive term, first met in a chapel. Much of our political debate has developed because of that decision in the thirteenth century. They did not seek a new, fancy building. They took what was available and worked well with it. The most ancient of precedents would incline us to modesty. If you want to use Nordic examples, they met around oak trees or whatever was in the village green. They did not think they needed a new building. They did the work that was important and that is what we should be doing. We should be concentrating on our work.

Why do we not need a new building? As Cardiff became a great industrial city in the nineteenth century, our forefathers and mothers reserved a part at the heart of our capital for its civic buildings. They put in place probably the finest civic centre in Britain, possibly in western Europe, and a fantastic neo-baroque building lies waiting for us. That is where we would be if there

Gadewch imi sôn am y dadlau yn y Blaid Lafur am yr adeilad hwn. Gadewch inni feddwl yn hanesyddol. Mae'n wir ein bod yn 60 gwleidydd newydd, rhy bwysig yn ein golwg ein hunain efallai, oni fyddwn yn ofalus. Efallai nad ydych chi am fod yn ddiymhongar, ond yr ydym ni yr ochr hon i'r Siambr yn dymuno bod felly. Cawsom ein hethol. Nid oedd y rhan fwyaf ohonom wedi ein paratoi ac yr oeddem yn ansicr o'r gweithdrefnau a pha ddyletswyddau y byddem yn eu hysgwyrddo. Mae pawb ohonom yn dysgu wrth ein gwaith. Wrth i fwy ohonom gyflwyno'n haraith a'n cyfraniadau cyntaf, calonogol yw gweld safon y bobl a etholwyd. Nid wyf yn cynnwys fy hun, nid wyf mor hunandybus â hynny. Cafwyd llawer o bryder ar y dechrau am ansawdd yr ymgeiswyr i'r Cynulliad. Credaf, heb unrhyw amheuaeth, mai pobl sydd am weld gwell gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu datblygu a'u cyflwyno yng Nghymru sydd wedi dewis y Cynulliad. Ceir ymroddiad anrhydeddus gan y bobl sydd yma ond ni fyddwch yn llwyddo os canolbwyntiwrch ar godi adeilad newydd.

Mewn capel y cyfarfu Mam y Senedd, os nad yw hwnnw'n derm amhriodol a dethol. Datblygwyd llawer o'n dadlau gwleidyddol oherwydd y penderfyniad hwnnw yn y drydedd ganrif ar ddeg. Ni cheisiasant hwy adeilad newydd, ffansi. Defnyddient yr hyn oedd ar gael, a gweithio'n dda gydag ef. Byddai'r cynseiliau cynharaf yn ein harwain at gynildeb. Os hoffech gael enghreifftiau Nordig, byddent yn cwrdd o amgylch coed derw neu beth bynnag fyddai yn llain y pentref. Ni themlent fod angen adeilad newydd arnynt. Gwnaethant y gwaith oedd yn bwysig a dyna'r hyn y dylem ninnau ei wneud. Dylem fod yn canolbwyntio ar ein gwaith.

Pam nad oes angen adeilad newydd arnom? Wrth i Gaerdydd dyfu'n ddinas ddiwydiannol fawr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cadwodd ein cyndadau a'n mamau ran yng nghanol ein prifddinas ar gyfer ei hadeiladau dinesig. Sefydlwyd y ganolfan ddinesig gyda'r orau ym Mhrydain, os nad yng ngorllewin Ewrop, ac mae adeilad neo-baróc ysblennydd yn disgwyl amdanom. Yn yr

was not an awful row in the Labour Party about the terms and conditions by which it could be obtained. There would be no debate about whether we would be building a new Assembly building. We would be there. There was a consensus amongst the political parties that that is what should happen. Some Labour Party politicians fell out, so we have presented the people of Wales with a £20 million bill to sort out that argument and have a new Chamber built here in the car park.

4:19 p.m.

That is not an edifying reason to have a new historical building. A marvellous building, not a 100 years old, is available to us. People recognise that building all over the world. That is the option if we wanted presence and dignity, which I presume is what we are after with a fancy new Chamber. I do not belittle that. There is an argument that people expect to have a building of real worth and historical fabric. However, a building is waiting, lying idle and we are not prepared to sort it out. It is a sad reflection that we are now talking about a new building. Although perhaps it is not an extravagant cost, £20 million is a lot of money.

We have talked about our own vision for the millennium. If we wanted to mark our existence with some form of capital project, we could look at other options. We have mentioned a children's hospital. The advances in children's medicine in my lifetime have been dramatic. Older Members will remember the crippling, wasting diseases many children fell prey to. We now realise that a new form of children's medicine is developing. Drugs are usually developed for the adult market. The effect they have on children is often poorly investigated. We need to develop expertise in Wales as they have in Bristol, and have our own centre of excellence in a children's hospital. I am not saying we cannot do that if we have a new Assembly building. A hospital may still become an option. We may see plans brought forward to achieve this. I

adeilad hwnnw y byddem oni bai am y ffræ aruthrol yn y Blaid Lafur am delerau ac amodau ei ryddhau. Ni fyddem yn trafod a ddylem godi adeilad newydd i'r Cynulliad ai peidio. Byddem yn yr adeilad hwnnw. Cytunai'r pleidiau gwleidyddol mai dyna ddylai ddigwydd. Cafwyd ffræ ymysg rhai o wleidyddion y Blaid Lafur, felly mae pobl Cymru yn gorfod wynebu bil o £20 miliwn i ddatrys yr anghydfod a chael Siambr newydd wedi ei chodi yma yn y maes parcio.

Nid yw hwn yn rheswm adeiladol dros godi adeilad hanesyddol newydd. Mae adeilad rhagorol, nad yw'n 100 mlwydd oed, ar gael inni. Mae pobl yn adnabod yr adeilad ym mhob rhan o'r byd. Dyna'r dewis os dymunwn gael presenoldeb ac urddas, sef yr hyn y tybiaf yr ydym yn ei geisio gyda Siambr newydd ffansi. Nid wyf yn diffrïo hynny. Gellir dadlau bod pobl yn disgwyl cael adeilad o werth gwirioneddol ag adeiledd hanesyddol. Mae adeilad yn disgwyl, yn gorwedd yn segur ac nid ydym yn barod i ddatrys y sefyllfa. Mae'n adlewyrchiad trist ein bod ni yn awr yn siarad am adeilad newydd. Er nad yw'n gost afradlon efallai, mae £20 miliwn yn llawer o arian.

Yr ydym wedi sôn am ein gweledigaeth ni ar gyfer y mileniwm. Os ydym am nodi ein bodolaeth trwy gyfrwng rhyw fath o brosiect cyfalaf, gallem ystyried dewisiadau eraill. Soniwyd am ysbyty plant. Cafwyd datblygiadau dramatig ym maes meddygaeth plant yn ystod fy oes i. Bydd yr Aelodau hyn yn cofio'r clefydau a ddioddefai llawer o blant; clefydau a'u parlysaï ac a'u nychai. Erbyn hyn yr ydym yn sylweddoli bod math newydd o feddygaeth plant yn datblygu. Datblygir cyffuriau fel arfer ar gyfer y farchnad oedolion. Yn aml, nid ymchwilir yn dda i'r effaith a gânt ar blant. Mae angen inni ddatblygu arbenigedd yng Nghymru, fel a wnaed ym Mryste, a chael ein canolfan ragoriaeth ein hunain mewn ysbyty plant. Nid wyf yn dweud na allwn wneud hynny os cawn adeilad newydd i'r Cynulliad. Efallai y daw ysbyty yn ddewis o hyd. Hwyrach y

am not saying that we could have a hospital instead of a new Assembly building. These things are not mutually exclusive. However, it is as an example of what we could do with that money. The idea for a hospital has real vision. We could still have a marvellous building by using the City Hall. You cannot say that we are not taking the Assembly seriously. [*Interruption.*]

Ron Davies: I find it hard to accept that from a representative of a party that ruled Wales from 1979 to 1997. The things we are now told that are good and desirable about schools and hospitals were systematically undermined, both by the policies of the Government he supported and by the funding arrangements put in place by the Government he supported. If we are to take these arguments with some credibility, we should have an admission from him that the party he followed led to the health service and our education being in the condition they are in now. The people of Wales have voted for a Labour Government, which has the commitment that billions of extra funding would be put into the health service and education to remedy those defects.

David Melding has made these assertions time and time again about City Hall. Everybody knows the nature of that debate. I do not intend to re-run it now. The cost of the City Hall would have been almost double the cost of the proposal we are considering for a new building. If he wishes to argue the case of that building, he can not argue on the basis of that.

Jenny Randerson: Members know I am a Cardiff councillor. I declare that interest. Not long ago I asked the leader of the Council whether that building was still available, because I am of the Cardiff City Hall school of thought originally. I was told it was definitely not available and that it was earmarked for a Museum of Cardiff. I do not want to intrude on the Labour Party's private grief over this issue but the public record on this ought to be put straight.

cyflwynir cynlluniau i wireddu hyn. Nid wyf yn dweud y gallem gael ysbyty yn lle adeilad newydd i'r Cynulliad. Nid cael un ar draul y llall yw'r unig ddewis. Fodd bynnag, mae'n enghraifft o'r hyn y gallem ei wneud gyda'r arian. Mae i'r syniad o ysbyty weledigaeth wirioneddol. Gallem ddal i gael adeilad hynod trwy ddefnyddio Neuadd y Ddinas. Ni allwch ddweud nad ydym yn cymryd y Cynulliad o ddifrif. [*Torri ar draws.*]

Ron Davies: Yr wyf yn ei chael hi'n anodd derbyn hyn gan gynrychiolydd plaid a fu'n rheoli Cymru rhwng 1979 a 1997. Cafodd y pethau y dywedir wrthym yn awr sydd yn dda ac yn ddymunol am ysgolion ac ysbytai eu tanseilio'n systematig, gan bolisïau'r Llywodraeth a gefnogai ef a chan y trefniadau cyllido a sefydlwyd gan y Llywodraeth a gefnogai. Os ydym i roi hygredded i'r pethau hyn, dylai gydnabod mai'r blaid a ddilynai ef sydd wedi peri bod y gwasanaeth iechyd ac addysg yn y cyflwr y maent ynddo heddiw. Mae pobl Cymru wedi pleidleisio dros Lywodraeth Lafur, sydd wedi addo y bydd biliynau o gyllid ychwanegol yn cael eu rhoi i'r gwasanaeth iechyd ac addysg er mwyn cywiro'r diffygion hynny.

Mae David Melding wedi gwneud yr honiadau hyn am Neuadd y Ddinas dro ar ôl tro. Gŵyr pawb am natur y drafodaeth honno. Ni fwriadaf ei hailadrodd yn awr. Byddai cost Neuadd y Ddinas wedi bod bron iawn yn ddwbl cost y cynnig sydd dan ystyriaeth gennym am adeilad newydd. Os yw am ddadlau'r achos o blaid yr adeilad hwnnw, ni all ddadlau ar y sail honno.

Jenny Randerson: Gŵyr yr Aelodau fy mod yn gynghorydd yng Nghaerdydd. Yr wyf yn datgan y buddiant hwnnw. Nid oes llawer ers imi ofyn i arweinydd y Cyngor a yw'r adeilad hwnnw yn dal ar gael, oherwydd yr oeddwn i yn wreiddiol yn ffafrio Neuadd y Sir, Caerdydd. Dywedwyd wrthyf yn bendant nad oedd ar gael a'i fod wedi ei glustnodi ar gyfer Amgueddfa am Gaerdydd. Nid wyf am droedio ar alar preifat y Blaid Lafur ynghylch y mater hwn ond dylid cyhoeddi'r ffeithiau fel y maent.

David Melding: All I can say to the first intervention is that the casual depreciation of 18 years of Conservative government is not shared by the current Prime Minister. That observation may be at variance with one of his senior colleagues. He may want to reflect on that. This argument that it would somehow cost £34 million to hold a Plenary session and to do work in City Hall, that it would cost £34 million just to turn up in a Chamber that is already there, is absurd. Nobody has ever argued that all the office support need also be at City Hall, which is how you build up the figure of £34 million.

The Chamber is in the City Hall. That building is one of the finest buildings of its type in Britain. It is not getting used for the purposes our forefathers and mothers intended. You all built up a consensus to have the City Hall. It was only when you argued with another senior colleague that we suddenly found it was for some reason unsuitable. Therefore I do not accept your intervention.

Rod Richards: A short while ago, I spoke to the Mayor of Cardiff who assured me that the cost of refurbishing the Chamber of City Hall to make it suitable for the Assembly would be only a quarter of a million pounds.

David Melding: Perhaps another Assembly Member is having problems with his noughts and we are getting inflated figures. He should check his information.

This next point may not be quite so well received on my side of the house. Yesterday I made some remarks about the process of development of devolution. I did risk the prediction that we may in time have a parliamentary federal system in Britain. What are the regions of England or the whole of England, however it is divided, going to think if one of the costs of signing up to a new federal constitution is that you have got to spend £20 million on a new building? Do you think that will get people to sign up to

David Melding: Y cyfan y gallaf ei ddweud mewn ymateb i'r siaradwr cyntaf a dorrodd ar draws yw nad yw'r Prif Weinidog presennol yn cyd-fynd â'r pardduo difeddwl ar 18 mlynedd o lywodraeth Geidwadol. Ni fyddai un o'i gyd-aelodau mwyaf profiadol yn cytuno ag ef. Mae hynny yn rhywbeth iddo ef cnoi cil arno. Mae'r ddadl hon y byddai rywsut yn costio £34 miliwn i gynnal Sesiwn Llawn a gwneud gwaith yn Neuadd y Ddinas, y byddai'n costio £34 miliwn i ymgynnull mewn Siambr sydd yno'n barod, yn ynyd. Nid oes neb erioed wedi dadlau bod yn rhaid i'r swyddfeydd i gyd hefyd fod yn Neuadd y Ddinas, ond dyna sut y cyrhaeddir y ffigwr o £34 biliwn.

Mae'r Siambr yn Neuadd y Ddinas. Mae'r adeilad hwn yn un o'r gorau o'i fath ym Mhrydain. Nid yw'n cael ei ddefnyddio i'r dibenion y bwriadwyd ef ar ei gyfer gan ein cyndadau a mamau. Daeth pawb i gytundeb o blaid Neuadd y Ddinas. Dim ond ar ôl i chi ddadlau gyda chydweithiwr arall dylanwadol y canfuwyd yn sydyn ei fod yn anaddas am ryw reswm. Nid wyf felly yn derbyn eich ymyrraeth.

Rod Richards: Ychydig yn ôl, bûm yn siarad â Maer Caerdydd. Dywedodd yn bendant wrthyf na fyddai'r gost o adnewyddu Siambr Neuadd y Ddinas i'w gwneud yn addas i'r Cynulliad yn ddim ond chwarter miliwn o bunnoedd.

David Melding: Hwyrach bod un arall o Aelodau'r Cynulliad yn cael problemau gyda'i rifau sero a'n bod yn cael ffigurau chwyddedig. Dylai wneud yn siŵr bod y wybodaeth yn gywir.

Hwyrach na chaiff y pwynt nesaf hwn gystal derbyniad ar fy ochr i o'r tŷ. Ddoe, soniais am y broses o ddatblygu datganoli. Meiddiais ddarogan y gallem, ymhen amser, weld system seneddol ffederal ym Mhrydain. Beth fydd ymateb rhanbarthau Lloegr, neu Loegr gyfan, sut bynnag y caiff ei rhannu, os mai un o gostau ymuno mewn cyfansoddiad ffederal newydd yw bod yn rhaid i chi wario £20 miliwn ar adeilad newydd? A ydych yn meddwl y bydd hynny'n anogaeth i bobl gefnogi'r math o gyfansoddiad cytbwys y

the sort of balanced constitution we now have to work for? It sets a bad precedent. We can say to the people of the United Kingdom that new government does not necessarily have to come at the cost of an extravagant new building. Use the fabric that is there.

mae'n rhaid inni weithio o'i blaid bellach? Mae'n gosod cynsail gwael. Gallwn ddweud wrth bobl y Deyrnas Unedig nad oes raid wynebu cost adeilad newydd gwastraffus er mwyn gael llywodraeth newydd. Defnyddiwch yr adeiledd sydd yn bodoli'n barod.

What better example is there of strengthening the integrity of the United Kingdom than by using one of its finest civic buildings? We should be in the City Hall.

Pa enghraifft well sydd yna o atgyfnerthu undod y Deyrnas Unedig na thrwy ddefnyddio un o'i hadeiladau dinesig gorau? Dylem fod yn Neuadd y Ddinas.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf yn cael trafferth gyda geiriad y cynnig hwn. Yr oeddwn i wedi meddwl codi mater o drefn ar y dechrau ond gwyddwn y byddai hynny'n trethu amynedd y Llywydd. Wrth ystyried union eiriad y cynnig yma, dylai pawb fod wedi datgelu diddordeb ar y dechrau oherwydd yr ydym i gyd yn cael ein cyflogi i fod yma yn y Cynulliad. Mae rhai ohonom wedi ein cyflogi ar delerau uwch na'n gilydd ond rydym i gyd yn cael ein cyflogi i fod yn y Cynulliad. Yn ôl union eiriad y cynnig, mae'r buddsoddiad hwnnw yn wastraff arian. Os ydym yn mynd i wrthwynebu'r cynnig, yr ydym yn dadlau dros ein cyflogau a'n lwfansau. Medrwn gyfiawnhau hyn i gyd drwy ddweud ein bod yn cynnig gwasanaeth i'r etholwyr. Yn ôl y Rheolau Sefydlog, dylem fod wedi datgan diddordeb.

Rhodri Glyn Thomas: I have difficulty with the wording of the proposal. I had thought to raise a point of order at the beginning but I know that would try the patience of the Presiding Officer. Considering the exact wording of this motion, everyone should have declared an interest at the beginning because we are all employed to be here in the Assembly. Some of us are employed at higher terms than others but we are all employed to be in the Assembly. According to the exact wording of the proposal, that investment is a waste of time. If we are going to oppose this proposal, we are arguing for our own salaries and allowances. We can justify all this by saying that we offer services to the public. According to the Standing Orders, we should have declared an interest.

4:29 p.m.

Nid wyf yn cytuno ag union eiriad y cynnig, a chan fod yr Athro Nick Bourne yn ddyn dysgedig yr wyf yn cymryd ei fod wedi ei eirio yn ofalus. Mae'n sôn am y Cynulliad fel corff yn hytrach nag adeilad a dywed fod gwastraff arian ar y corff hwn. Nid wyf yn siŵr ai camgymeriad freudaidd oedd hynny ar ei ran ef ac ar ran y grŵp Ceidwadol o bosibl. Mae'n awgrymu eu bod yn gwrthwynebu'r Cynulliad yn hytrach na'r adeilad newydd.

I do not agree with the exact wording of the proposal and, since Professor Nick Bourne is a learned man, I take it that he has worded it carefully. He refers to the Assembly as a body rather than a building and says that money is wasted on that body. I am not sure whether that was a freudian slip on his part, and possibly on the part of the Conservative group. It suggests that they oppose the Assembly rather than the new building.

Yr ydym wedi clywed yr un hen ddadl ers 1979. Cofiaf glywed y dadleuon hyn am ysbyty cancr ac ysbyty plant yn 1979: pe byddid wedi cael pleidlais o blaid yn refferendwm 1979 byddai prosiectau pwysig

We have heard the old argument since 1979. I remember hearing these arguments about a cancer hospital and a children's hospital in 1979: if there had been a vote in favour in the 1979 referendum important projects would

wedi'u colli, ac ni fyddai modd buddsoddi'r arian mewn ysbytai.

be lost, and we could not invest the money in hospitals.

Grandewais yn ofalus ar Rod Richards, gyda'i ddychymyg byw creadigol yn mynd â ni ar ryw daith ffantasi trwy flynyddoedd y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf. Ond ni chlywais sôn am ysbyty plant nac ysbyty cancr hyd yn oed pan oedd yn siarad yn greadigol am yr hyn a gyflawnodd y Blaid Geidwadol ym myd iechyd. Felly, nid wyf yn siŵr beth a ddigwyddodd i'r holl arian a arbedwyd pan lwyddwyd i berswadio pobl i bleidleisio 'na' yn 1979.

I listened carefully to Rod Richards, with his lively imagination taking us on a fantasy trip through the last Conservative Government. However, I did not hear any mention of a children's hospital or a cancer hospital, even when he was talking creatively about what the Conservative Party had achieved in health. Therefore, I am not sure what happened to all the money that was saved when people were persuaded to vote 'no' in 1979.

Yr wyf yn cael trafferth gyda'r ddadl hon. Yn sydyn, mae gan y grŵp Ceidwadol ddiddordeb mawr mewn buddsoddi arian yn y sector cyhoeddus. Eto, mae'n amlwg bod gennyf fi a Rod Richards atgofion tra gwahanol o'r blynyddoedd rhwng 1979 ac 1997. Cofiaf mai prif thema'r Llywodraeth honno oedd torri trethi. Hyd y gwelaf, canlyniad uniongyrchol torri trethi yw llai o arian yn y Trysorlys i fuddsoddi yn y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid imi ddweud wrth Ron Davies bod y Lywodraeth Lafur bresennol yn dilyn yr un polisïau, yn anffodus. Felly beth yw'r rheswm dros y diddordeb sydyn yn y sector cyhoeddus? Os oedd ysbyty plant mor bwysig, ac os oedd ysbyty cancr mor bwysig, pam yr oedd y Llywodraeth Doriaidd ddiwethaf a'r Llywodraeth Lafur bresennol yn credu y gellid torri trethi, a lleihau'r arian sydd ar gael yn y Trysorlys i fuddsoddi mewn pethau sydd mor bwysig a gwerthfawr yn eu golwg erbyn hyn?

I have difficulty with this debate. Suddenly, the Conservative group has a great interest in investing in the public sector. Again, it is obvious that I and Rod Richards have quite different recollections of the years between 1979 and 1997. I recall that the main theme of that Government was cutting taxes. As far as I can see, the direct result of cutting taxes is that there is less money in the Treasury to invest in the public sector. I must say to Ron Davies that unfortunately the current Labour Government is following the same policies. Therefore, why the sudden interest in the public sector? If a children's hospital and a cancer hospital were so important, why did the last Conservative Government, and the present Labour Government believe that they could cut taxes and reduce the money available in the Treasury to invest in things that they now view as important and valuable?

Rod Richards: Soniodd Rhodri am ysbyty cancr. Fel y mae'n ymwybodol, y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf a neilltuodd arian ar gyfer yr uned cancr sydd yn cael ei hadeiladu yn Ysbyty Glan Clwyd. Gwn nad yw'n mynd i'r gogledd yn aml, ond efallai pe bai'n ymweld ag Ysbyty Glan Clwyd byddai'n ymwybodol o hyn.

Rod Richards: Rhodri mentioned a cancer hospital. As he knows, the last Conservative Government allocated funds for the cancer unit that is being built in Glan Clwyd Hospital. I know that he does not go to north Wales often, but perhaps if he were to visit Glan Clwyd Hospital he would learn about this.

Cyfeiriais ddoe at y nifer fawr o ysbytai ac unedau eraill a adeiladwyd yn ystod y 18 mlynedd pan oedd y Blaid Geidwadol mewn grym. Dyma'r pwynt: mae dewis rhwng gwastraffu arian neu wario'r arian hwnnw ar

I referred yesterday to the large number of hospitals and other units that were built during the 18 years when the Conservative Party was in power. The point is this: we have a choice between wasting money or

ysbyty. Mewn llywodraeth, mae'r dewisiadau yn anodd dros ben: gwario ar rywbeth mewn un rhan o'r sector cyhoeddus neu ar rywbeth arall. Y tro hwn, mae'r dewis mor wahanol: gwastraffu arian arnom ni ein hunain yn hytrach nag adeiladu ysybty a fyddai o fudd i blant a rhieni. Byddai'n rhywbeth y gallem gyfeirio ato yn ystod y mileniwm nesaf gan ddweud ei fod yn benderfyniad da iawn gan y Cynulliad cyntaf.

Rhodri Glyn Thomas: Diolch am yr esboniad. Mae'n amlwg bellach bod yr uned a adeiladwyd gyda chefnogaeth y Blaid Geidwadol yn ddigonol i ddelio â'r problemau trin cancr. Yr oedd modd gostwng trethi oherwydd nad oedd angen buddsoddi mwy yn y gwasanaeth arbennig hwnnw. Ond, yn sydyn, mae angen buddsoddi'r arian yn awr. Felly, credaf fod ei ddadl yn ddiffygiol unwaith eto.

Gadewch inni ddychwelyd at wraidd y ddadl. Mae'n hawdd bod yn negyddol a dadlau yn erbyn rhywbeth. Mae rhai ohonom yn teimlo'n gryf bod angen Siambr newydd am ein bod yn credu bod y Siambr hon yn eiddo nid yn unig i ni ond i bobl Cymru. Y brif ddadl dros gael Siambr newydd yw er mwyn sicrhau mynediad i'r cyhoedd fel eu bod yn teimlo'n rhan o'r hyn sydd yn digwydd.

Y bore yma, yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd dim ond deg o bobl oedd yn gallu mynd i mewn i wrando ar y drafodaeth. Pan drafodir materion pwysig fel Amcan 1, bydd gan y cyhoedd ddiddordeb mewn tystio iddynt. Nid yw'r adeilad hwn yn caniatáu hynny. Nid yw'n hwylus i bobl ag anabledd ddod mewn i'r adeilad. Mae angen ystyried materion o'r fath.

Nid yw'r buddsoddiad yn golygu un swm o arian mewn un flwyddyn gyllidol, ond swm a fuddsoddir dros nifer o flynyddoedd. Gadewch inni fod yn gwbl resymol. Mae'r adeilad hwn yn un sydd wedi—

David Davies: The Member seems to have missed the point. We are not talking about what has happened in the past, or whether hospital services are needed, although clearly they are. I hope that we would all agree on

spending that money on a hospital. In government, choices are very difficult: spend money on one part of the public sector or on another. This time, the choice is very different: to waste money on ourselves rather than building a hospital which would be of benefit to children and parents. It would be something we could look back to during the next millenium and say that it was a good decision made by the first Assembly.

Rhodri Glyn Thomas: I am grateful for the explanation. It is obvious by now that the unit built with the support of the Conservative Party was adequate to deal with the problems of cancer treatment. Taxes could be cut because there was no need to invest in that particular service. However, suddenly there is a need to invest that money now. Therefore, I believe that his argument is once again deficient.

Let us return to the crux of the argument. It is easy to be negative and argue against something. Some of us feel strongly that we need a new Chamber because we believe that this Chamber belongs not only to us but to all the people of Wales. The main argument for a new Chamber is to ensure public access, so that the public feels it is part of what is happening.

This morning, in the Economic Development Committee meeting only ten people could come in to listen to the discussion. When important matters such as Objective 1 are discussed, the public will be interested in witnessing the discussions. This building does not allow that. It is not convenient for disabled people to enter this building. We need to consider such issues.

The investment does not mean one sum of money in one financial year, but a sum which is invested over a number of years. Let us be reasonable. This building is one that has—

David Davies: Mae'n ymddangos bod yr Aelod wedi methu'r pwynt. Nid ydym yn trafod yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, nac a oes angen gwasanaethau ysbyty, er bod yna angen yn amlwg.

that. We are talking about whether the money can be better spent on a new building or on a new hospital. I do not see why the debate is so long-winded. It is a simple choice. I wish the Member would come down off the fence on one side or another.

Rhodri Glyn Thomas: Yr oeddwn yn meddwl fy mod yn cynorthwyo'r Ceidwadwyr oherwydd mae'n amlwg eu bod wedi chwythu eu plwc ers tro yn y ddadl hon. Yr oeddent yn galw ar eu pobl i ymyrryd yn y ddadl er mwyn sicrhau ei bod yn para am awr gyfan. Os yw'n fater mor syml, yr wyf yn synnu bod y Blaid Geidwadol wedi dewis treulio awr yn trafod y pwnc. Mae awr yn awgrymu ei fod yn bwnc astrus a chymhleth y mae angen trafodaeth hir arno. Dychwelaf at y pwynt sylfaenol: credaf fod y Blaid Geidwadol wedi camddeall gan gredu bod y Cynulliad yn eiddo iddynt hwy yn unig. Yr ydym am sicrhau bod y Cynulliad yn agored i bobl Cymru, ac yr wyf wedi cefnogi'r syniad o adeilad newydd sbon yn y Bae o'r cychwyn cyntaf. Bydd yn caniatáu inni ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a sicrhau bod ein trafodaethau a'n defnydd o arian cyhoeddus yn effeithiol. Bydd hefyd yn galluogi'r cyhoedd i fod yn dystion i'r hyn yr ydym yn ei gyflawni.

Janice Gregory: I will repeat what some other Members have said as it is important that we look at certain issues. I have listened intently to Nick and David. I would like to think that they have the welfare of the people of Wales at heart in wanting to save money on the new building. However, after 18 years of Tory decimation in such areas as the Ogmore constituency, I doubt it. What a wonderful idea a children's hospital is. A pity that they did not think of it during the 18 years that they were in power.

I want to ensure the maximum public access to the Assembly Chamber. If you look behind us at the public gallery today, there is very limited access. This means limited access to watching us, and democracy in Wales, at work. Democracy only thrives when it is truly transparent and politicians are seen to be accessible. If people are outside in the

Gobeithiaf ein bod i gyd yn cytuno ar hynny. Yr ydym yn trafod sut orau i wario'r arian, ar adeilad newydd ynteu ar ysbyty newydd. Ni ddeallaf pam fod y drafodaeth mor faith. Mae'n ddewis syml. Llawer gwell fyddai i'r Aelod benderfynu pa ochr i'r ddadl y mae'n ei chefnogi.

Rhodri Glyn Thomas: I thought that I was helping the Conservatives as it is obvious that they gave up on this argument a while ago. They were calling on their own people to intervene in the debate to ensure that it lasted a full hour. If the matter is that simple, I am surprised that the Conservative Party has chosen to spend an hour discussing the subject. An hour suggests that it is a complex subject that requires lengthy discussion. I return to the basic point: I believe that the Conservative Party is mistaken in believing that the Assembly belongs to them alone. We want to ensure that the Assembly is open to the people of Wales, and I have supported the idea of a brand new building in the Bay from the outset. It will allow us to use the latest technology and ensure that our discussions and our use of public money are effective. It will also allow the public to come in and witness what we are accomplishing.

Janice Gregory: Hoffwn ailadrodd yr hyn a ddywedwyd gan rai Aelodau eraill gan ei bod yn bwysig i ni edrych ar rai ystyriaethau penodol. Yr wyf wedi gwranddo'n fanwl ar Nick a David. Hoffwn feddwl mai lles pobl Cymru yw eu cymhelliad o blaid arbed arian ar yr adeilad newydd. Fodd bynnag, ar ôl 18 mlynedd o ddifrodi Toriaidd mewn ardaloedd fel etholaeth Ogwr, yr wyf yn amau hynny. Mae ysbyty plant yn syniad gwych yn wir. Trueni na fyddent wedi meddwl amdano yn ystod eu 18 mlynedd mewn grym.

Yr wyf am sicrhau mynediad i gynifer â phosibl o'r cyhoedd i Siambr y Cynulliad. Os edrychwch chi tu cefn i ni ar yr oriel gyhoeddus heddiw, ychydig iawn o le sydd yna. Mae hyn yn golygu cyfyngiadau o ran ein gwyllo ni, a democratiaeth yng Nghymru, ar waith. Dim ond pan fo'n wirioneddol dryloyw y mae democratiaeth yn ffynnu, ac y

milling area they can watch us on the monitors but most would like to come in, sit down and see what is happening. As one who has worked for a Member of Parliament and had to arrange trips to the House of Commons, I know how difficult and complicated it is to get a group of constituents, from anywhere in the UK, into the House. It is a logistical nightmare by the time you have gone from one department to another and got a permit and a guide. I do not want to see that in the Assembly.

gwelir bod gwleidyddion o fewn cyrraedd i bobl. Os oes pobl y tu allan yn y man ymgynnull gallant ein gwyllo ar y sgrîn ond byddai'r rhan fwyaf yn hoffi dod i mewn, eistedd i lawr a gweld beth sydd yn digwydd. Fel rhywun sydd wedi gweithio i Aelod Seneddol ac a fu'n trefnu teithiau i Dŷ'r Cyffredin, gwn mor anodd a chymhleth yw hi i gael grŵp o etholwyr, o unrhyw ran o'r DU, i mewn i'r Tŷ. Mae'n hunllef logistaidd erbyn i chi fynd o un adran i'r llall a chael hawlen a thywysydd. Nid wyf am weld hynny yn y Cynulliad.

When the Assembly Secretary replies, I would like her to assure me and Assembly Members that public access will be a key concern. I have already received a number of enquiries from constituents who wish to take groups of schoolchildren to the Assembly building. I would love for them to visit but I want them to come to something that is worth seeing and I do not want them to have to queue or to have problems with seating. I do not want it to be like the House of Commons. That is not what we want here. The involvement of schoolchildren in the democratic process is the way forward for Wales.

Pan fydd Ysgrifennydd y Cynulliad yn ateb, yr wyf am iddi roi sicrwydd i mi ac i Aelodau'r Cynulliad y bydd mynediad i'r cyhoedd yn ystyriaeth allweddol. Yr wyf eisoes wedi derbyn nifer o ymholiadau gan etholwyr sydd yn dymuno mynd â grwpiau o blant ysgol i adeilad y Cynulliad. Byddwn yn falch iawn o'u gweld yno ond yr wyf am iddynt weld rhywbeth gwerth ei weld ac nid wyf am iddynt orfod disgwyl mewn rhes na chael anhawster i gael seddau. Nid wyf am i bethau fod fel y maent yn Nhŷ'r Cyffredin. Nid dyna'r hyn yr ydym am ei gael yma. Cynnwys plant ysgol yn y broses ddemocrataidd yw'r ffordd ymlaen i Gymru.

4:39 p.m.

Peter Black: I am saddened, because what we have in this motion is an obsession with the cost of democracy at the expense of its effectiveness. We are trying to re-run the referendum campaign once more. We are not talking about the Assembly building but are talking about the—*[Interruption.]*

Peter Black: Yr wyf wedi fy nhristáu, oherwydd yr hyn sydd gennym yn y cynnig hwn yw obsesiwn gyda chost democratiaeth ar draul ei heffeithiolrwydd. Yr ydym yn ceisio ailgynnal ymgyrch y refferendwm unwaith yn rhagor. Nid siarad yr ydym am adeilad y Cynulliad ond siarad am—*[Torri ar draws.]*

I am not giving way.

Nid wyf am ildio.

We are talking not merely about the costs of the Assembly but also whether we should have an Assembly at all. I heard on the news that Parliament has given up using parchment and started to use paper at last. They have decided that they want to look to the future. The Assembly should also look to the future.

Trafod yr ydym nid yn unig gostau'r Cynulliad ond hefyd a ddylem gael Cynulliad o gwbl. Clywais ar y newyddion fod y Senedd wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio memrwn a'i bod wedi dechrau defnyddio papur o'r diwedd. Maent wedi penderfynu eu bod am edrych tua'r dyfodol. Dylai'r Cynulliad yntau edrych tua'r dyfodol.

We have been talking about Cardiff City Hall

Buom yn trafod Neuadd y Ddinas, Caerdydd,

as an alternative venue for the Assembly. My understanding is that the chamber of Cardiff City Hall is still being used by the Council and is no longer available. There was never a proposal to use that chamber for a number of reasons: it is very small, it has virtually no access for people with disabilities and we could not have installed our new technology there. The proposal was for a refurbishment of the assembly rooms at Cardiff City Hall but it was not an option. The costs involved were excessive and were more than the costs of the new building.

I felt that the home of the Assembly should have been in Swansea because it could have been the symbol of a new kind of devolved politics. We lost that battle, albeit in an unfair way and I am sure Ron would disagree with that. We have to move on because we are a new democracy and are entering a new era. A number of MPs, who are not Assembly Members, are impressed by our facilities but also recognise the limitations of this Chamber.

Nick Bourne talked about the money that we could be spending if we were not erecting the new building and he spent the money many times over. He says that we are the guardians of public money and yet it was his Government that sent £57 million back to the Treasury.

It was the previous Conservative Government that introduced the community charge, which led to £16.5 million of public money being written off. If we are going to talk about wasted money, we need to look at their record. Nick Bourne also mentioned that the money could be spent on community hospitals. Which Government put community hospitals in danger? It was of course, the previous Conservative Government. It was mentioned that the children's hospital had not been suggested before by the Conservative Government, but it was. David Hunt suggested that we should have a children's hospital in Cardiff Bay, but alas could not find the money to introduce it. That

fel canolfan amgen ar gyfer y Cynulliad. Yn ôl a ddeallaf mae siambr Neuadd y Ddinas, Caerdydd, yn dal i gael ei defnyddio gan y Cyngor ac nid yw ar gael mwyach. Ni chynigiwyd erioed y dylid defnyddio'r siambr honno am nifer o resymau: mae'n fach iawn, prin fod mynediad o gwbl i bobl ag anableddau ac ni fyddai wedi bod yn bosibl inni osod ein technoleg newydd yno. Y cynnig oedd y dylid adnewyddu'r ystafelloedd ymgynnull yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, ond nid oedd yn ddewis. Yr oedd y costau dan sylw yn llawer rhy uchel ac yn uwch na chostau'r adeilad newydd.

Teimlaf mai yn Abertawe y dylai'r Cynulliad fod wedi ymgartrefu oherwydd byddai wedi bod yn symbol i fath newydd o wleidyddiaeth ddatganoledig. Collasom y frwydr honno, er i hynny ddigwydd mewn ffordd annheg ac yr wyf yn siŵr y byddai Ron yn anghytuno â hynny. Mae'n rhaid inni symud ymlaen gan ein bod mewn democratiaeth newydd ac yn dechrau ar gyfnod newydd. Mae nifer o ASau, nad ydynt yn Aelodau o'r Cynulliad, yn canmol ein cyfleusterau er eu bod hefyd yn cydnabod cyfyngiadau'r Siambr hon.

Cyfeiriodd Nick Bourne at yr arian y gallem ei wario pe na baem yn codi adeilad newydd ac aeth ati i wario'r arian sawl gwaith drosodd. Dywed mai ni yw gwarcheidwaid arian y cyhoedd ond ei Lywodraeth ef a anfonodd £57 miliwn yn ôl i'r Trysorlys.

Y Llywodraeth Geidwadol flaenorol a gyflwynodd y tâl cymunedol, a arweiniodd at golli £16.5 miliwn o arian cyhoeddus. Os ydym yn mynd i siarad am arian a wastraffwyd, mae angen inni edrych hefyd ar eu record hwy. Soniodd Nick Bourne hefyd y gellid gwario'r arian ar ysbytai cymuned. Pa Lywodraeth a roddodd yr ysbytai cymuned mewn perygl? Neb llai na'r Llywodraeth Geidwadol flaenorol, wrth gwrs. Dywedwyd na fu i'r Llywodraeth Geidwadol awgrymu'r ysbyty plant, ond nid yw hynny'n wir. Awgrymodd David Hunt y dylem gael ysbyty plant ym Mae Caerdydd, ond och ni allai ganfod yr arian i'w chyflwyno. Dyna ddangos faint ei gonsŷrn dros yr NHS a

showed his concern for the NHS and for Wales.

Wales is no longer an appendage of England. It is a growing, self-confident and vibrant democracy. This building is unsuitable as a long-term home for the Assembly. I have brought sceptics from my own party into this building and have shown them the rationale behind the need for a new, open and accessible Chamber. They have agreed that this facility is limited and they can see the logic behind the creation of the new building. There is not enough room for us to debate and we have already highlighted some of the problems; for instance, Helen Mary sitting behind the pillar.

Members should look behind them and notice the limited amount of seats that are available to the public. If we are going to be open and accessible we have to provide proper facilities for the public as well as for Members. We must ensure that we do not have to ration the tickets that Members give to their constituents—this has already started to occur.

The new building is a symbol of our new democracy. It provides modern facilities for the twenty-first century. It will act as a beacon of Wales' new self-confidence. I hope that we will involve Assembly Members and members of the public in its design. We have already had that undertaking from the First Secretary. All the people of Wales will be involved in ensuring that we have a building for the Assembly.

If we are to opt for the new building, and not move to Swansea, it must be a good one. We must move the focus away from cash registers and look at the quality of our democracy and the quality of services we can deliver. That quality should be reflected in the quality of the home we build for the Assembly. We are not a second best Assembly, nor should we settle for a second best democracy in Wales.

Huw Lewis: Crocodile tears are perhaps the bitterest tears of all. When I hear Conservatives mewl about the state of

Chymru.

Nid yw Cymru mwyach yn atodiad i Loegr. Mae'n ddemocratiaeth hunan-hyderus a bywiog sydd yn tyfu. Mae'r adeilad hwn yn anaddas fel cartref hirdymor i'r Cynulliad. Yr wyf wedi dod ag amheuwyr o'm plaid fy hun i mewn i'r adeilad hwn gan ddangos iddynt y rhesymeg y tu ôl i'r angen am Siambr newydd, agored, o fewn cyrraedd i bawb. Cytunasant mai cyfyng yw'r cyfleusterau yma a gallant weld y rhesymeg o blaid creu adeilad newydd. Nid oes digon o le inni drafod ac yr ydym eisoes wedi amlygu rhai problemau; er enghraifft, Helen Mary yn eistedd y tu ôl i'r piler.

Dylai'r Aelodau edrych yn ôl a gweld cyn lleied o seddau sydd ar gael i'r cyhoedd. Os ydym am fod yn agored ac yn hygyrch, rhaid inni ddarparu cyfleusterau priodol i'r cyhoedd yn ogystal â'r Aelodau. Rhaid inni sicrhau nad oes gofyn dogni nifer y tocynnau a rydd yr Aelodau i'w hetholwyr—mae hynny wedi dechrau digwydd yn barod.

Mae'r adeilad newydd yn symbol o'n democratiaeth newydd. Mae'n cynnig cyfleusterau modern ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd yn sefyll dros hunan-hyder newydd Cymru. Gobeithiaf y byddwn yn rhoi llais i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd wrth ei ddylunio. Mae'r Prif Ysgrifennydd eisoes wedi addo hynny inni. Bydd gan holl bobl Cymru ran wrth sicrhau bod gennym adeilad ar gyfer y Cynulliad.

Os ydym am ddewis adeilad newydd, gan beidio â symud i Abertawe, rhaid iddo fod yn un da. Rhaid inni droi'r ffocws oddi ar bres ac ystyried ansawdd ein democratiaeth ac ansawdd y gwasanaethau y gallwn eu cyflenwi. Dylai'r ansawdd hwnnw gael ei adlewyrchu yn ansawdd y cartref a godwn i'r Cynulliad. Nid Cynulliad ail orau mohonom ac ni ddylem ychwaith fodloni ar ddemocratiaeth ail orau yng Nghymru.

Huw Lewis: Dagrau crocodeil yw'r dagrau chwerwaf oll mae'n siŵr. Pan glywaf Geidwadwyr yn mewian am gyflwr ysbytai,

hospitals, schools and jobs, I reach for the nausea pills. I will not mention the past 18 years of Tory Government because every time someone has done so in this Chamber, I have noticed a collective groan from the Conservative Members. I thought the mention of that 18 years had that effect only on myself.

Nick Bourne mentioned a visitor from outer space. I am sure that the visitor was not a Tory. No doubt a Conservative alien would have seen investment in space travel as a wasteful extravagance and waste of public money.

Behind the badly worded motion from the Conservative Party is the status of Welsh democracy. Welsh democracy, in all its newness is being accepted by the people of Wales. The Conservative Party—despite the intellectualising of Members such as David Melding—deep in their guts, still find it difficult to accept that the democratic picture of Britain has changed. It has always been the mission of the Conservative Party to close down the extension of democracy as any A-level history student can vouch for. I believe that the other parties in this Chamber would like to celebrate the new democracy in Wales, whereas the Conservative Party seem vaguely embarrassed by it.

Edwina Hart: I am delighted to contribute to this debate. I, like Val Feld and Rhodri Glyn Thomas, remind Members of the resolution contained in the paper. I was anticipating that I would be debating those issues. The text of this resolution comes as no surprise to the pro-devolution parties who are in the majority. I am sure that the irony is not lost on them: the party that paraded its anti-devolution stance so proudly in our hard fought referendum campaign has benefited from the Labour Government's delivering devolution with an element of proportional representation. Without PR this party, except for one Member, would not be here to debate any of these issues.

4:49 p.m.

I have listened intently to the views

ysgolion a swyddi, estynnaf am y tabledi cyfog. Ni soniaf am y 18 mlynedd o Lywodraeth Doriadaidd a aeth heibio oherwydd bob tra y gwnaeth rhywun hynny yn y Siambr hon, sylwais fod yr Aelodau Ceidwadol i gyd yn ochneidio. Tybiwn mai dim ond arnaf fi yr oedd sôn am y 18 mlynedd hynny yn cael y fath effaith.

Soniodd Nick Bourne am ymwelydd o'r gofod. Yr wyf yn siŵr nad Tori oedd yr ymwelydd. Mae'n siŵr y byddai ymwelydd Ceidwadol o'r fath wedi ystyried buddsoddi mewn teithiau i'r gofod yn oferedd gwastraffus sydd yn afradu arian cyhoeddus.

Tu cefn i'r cynnig hwn gan y Blaid Geidwadol, sydd wedi ei eirio'n wael, mae statws democratiaeth yng Nghymru. Mae democratiaeth Gymreig, yn ei egin ffurf, yn cael ei derbyn gan bobl Cymru. Mae'r Blaid Geidwadol—er gwaethaf deallusoli Aelodau fel David Melding—ym mêr eu hesgyrn yn dal i'w chael hi'n anodd derbyn bod darlun democrataidd Prydain wedi newid. Cenhadaeth y Blaid Geidwadol erioed fu rhwystro democratiaeth rhag cael ei hehangu, fel y gallai unrhyw fyfyrwr hanes lefel A dystio. Credaf yr hoffai'r pleidiau eraill yn y Siambr hon ddathlu democratiaeth newydd Cymru, tra bo'r Blaid Geidwadol fel pa bai a chywilydd ohoni.

Edwina Hart: Mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon. Hoffwn innau, fel Val Feld a Rhodri Glyn Thomas, atgoffa'r Aelodau o'r penderfyniad yn y papur. Yr oeddwn wedi disgwyl trafod y materion hynny. Nid yw cynnwys y penderfyniad hwn yn peri unrhyw syndod i'r pleidiau sydd dros ddatganoli, sef y mwyafrif yma. Mae'n sicr eu bod yn gwerthfawrogi'r eironi: i'r blaid a ymfalchiodd gymaint yn ei gwrthwynebiad i ddatganoli, yn ystod yr ymgyrch chwynn o'i blaid, elwa am i'r Llywodraeth Lafur gyflwyno datganoli gydag elfen o gynrychiolaeth gyfrannol. Heb PR, ni fyddai'r blaid hon, ar wahân i un Aelod, yma i drafod unrhyw un o'r materion hyn.

Gwrandewais yn astud ar y safbwyntiau a

expressed in this Chamber this afternoon. As Finance Secretary, I am, perhaps more than most, acutely aware of the responsibility that the Assembly has to ensure that it keeps its costs realistic and demonstrates that what we do represents best value. This is fundamental to our success.

I do not want a row about a new building. I did not put this debate on the agenda. Like all of us in the Chamber, I want the Assembly to direct as much funding as possible to frontline services for the overall benefit of the people of Wales. However, the Assembly must also be adequately resourced to meet its obligations to the people of Wales. 'Adequate' means adequate; not lavish but not done on the cheap either. We are still working within the budget of £17 million to £20 million. Nick has bandied around the figure of £17 million. Let us be clear that the figures that were discussed during the passage of Government of Wales Act 1998, were the capital costs of establishing the Assembly and that included the arrangements for Crickhowell House.

I would like to thank Ron and Jenny for their contributions on the issue of City Hall. We need to make a few comments about this old chestnut. It is not large enough to house Members and the necessary administration support staff, the Office of the Presiding Officer and the Cabinet Secretariat. There was limited space for the media, no space for the host broadcaster, and not all the administrative staff could have been accommodated there. Members would have probably had to share rooms. That would not have been adequate. The notion that we would be happy to go on a bus from Crickhowell House, waving happily as we travelled to the Assembly Chamber in City Hall, is not a realistic one.

I am pleased with the facilities that we have here. From day one we have been provided with good quality accommodation which has attracted, quite rightly in my view, the praise of the majority of Members and most of those who have visited us. We have also been

fyNEGwyd yn y Siambr brynhawn heddiw. Fel Ysgrifennydd Cyllid, yr wyf fi, yn fwy na'r rhan fwyaf ohonoch efallai, yn dra ymwybodol o'r cyfrifoldeb ar y Cynulliad i sicrhau ei fod yn cadw'i gostau yn realistig ac yn dangos bod yr hyn a wnawn yn cynrychioli'r gwerth gorau. Mae hyn yn sylfaenol i'n llwyddiant.

Nid wyf am inni gweryla am godi adeilad newydd. Nid fi a roddodd y ddadl hon ar yr agenda. Fel pawb ohonom yn y Siambr, yr wyf am i'r Cynulliad gyfeirio cymaint â phosib o gyllid i'r gwasanaethau rheng flaen er budd pobl Cymru'n gyffredinol. Fodd bynnag, rhaid hefyd i'r Cynulliad gael adnoddau digonol i allu cyflawni ei ddyletswyddau tuag at bobl Cymru. Mae 'digonol' yn golygu digonol; nid moethus ond nid rhad ychwaith. Yr ydym yn dal i weithio o fewn y gyllideb o £17 miliwn i £20 miliwn. Bu Nick yn sôn am y ffigur o £17 miliwn. Gadewch inni fod yn glir mai'r ffigurau a drafodwyd wrth i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 fynd drwy'r Senedd oedd costau cyfalaf sefydlu Cynulliad ac yr oedd hynny'n cynnwys y trefniadau ar gyfer Tŷ Crucywel.

Hoffwn ddiolch i Ron a Jenny am eu cyfraniadau ynghylch Neuadd y Ddinas. Mae angen gwneud rhai sylwadau am yr hen gynnen hon. Nid yw'n ddigon mawr i ddal yr Aelodau a'r staff cefnogi gweinyddol angenrheidiol, Swyddfa'r Llywydd ac Adran yr Ysgrifennydd. Prin oedd y lle i'r cyfryngau, nid oedd dim lle o gwbl i'r cwmni darlledu sefydlog, ac ni fyddai lle ychwaith i'r staff gweinyddol i gyd. Mae'n bur debyg y byddai'r Aelodau wedi gorfod rhannu ystafelloedd. Ni fyddai hynny wedi bod yn ddigonol. Nid yw'r syniad y byddem yn hapus i deithio ar fws o Dŷ Crucywel, gan godi llaw'n fodlon wrth deithio i Siambr y Cynulliad yn Neuadd y Ddinas, yn syniad realistig.

Yr wyf yn fodlon â'r cyfleusterau sydd gennym yma. O'r diwrnod cyntaf cawsom ddarpariaeth o safon uchel sydd, yn gwbl briodol yn fy marn i, wedi ennyn canmoliaeth mwyafrif yr Aelodau a'r rhan fwyaf o'r rheini sydd wedi ymweld â ni. Darparwyd ar

provided with a working environment and the necessary tools for us to get straight down to business. I would like David Melding to place on record my thanks to all those who have played a part in delivering the accommodation and transforming this building to such a high standard with such a tight deadline. Nevertheless, however good this Chamber is, it will not do for the long term. I see Helen Mary Jones has left. Sorry, she has not, she is behind the pillar alluded to yesterday. They are certainly not pillars of wisdom judging by the contribution of some Members in this discussion on the new building.

A lot of creative thinking has gone into redesigning the room, but that cannot hide the fact that it was not the ideal shape to assist proper democratic debate. We need a more open seating plan, unrestricted views, more room, and, most importantly, we need better public access both within the Chamber and around it. We need to conduct our business in an open and transparent way. We cannot be open and transparent if only a handful of people can see us at work. Janice Gregory made a good point on this. I would like to see better facilities for parties of school children so that they can visit the Assembly, see it at work and be fired with a vision of what it is about.

What we have is a good temporary solution. It is inadequate to be the heart of the Assembly in the long term. There are important details that need to be resolved in the new building design and the First Secretary will shortly be consulting the Presiding Officer and the Party Leaders about these. We remain convinced that developing the new building proposed by the Richard Rogers Partnership is the right option, and that we should proceed with the construction of this modern and forward-looking design without delay.

The First Secretary and I hope to secure the wholehearted agreement of Assembly colleagues when the facts are presented to

ein cyfer hefyd amgylchedd gweithio a'r cyfarpar angenrheidiol inni allu bwrw i'n gwaith yn syth. Hoffwn i David Melding gofnodi fy niolch i bawb a fu â rhan yn y ddarpariaeth ac yn y gwaith o drawsnewid yr adeilad hwn i'r fath safon uchel o fewn amserlen mor dynn. Serch hynny, er mor dda yw'r Siambr hon, nid yw'n ddigonol yn y tymor hir. Gwelaf fod Helen Mary Jones wedi gadael. Mae'n ddrwg gennyf, nac ydyw, mae hi tu ôl i'r piler y cyfeiriwyd ato ddoe. Nid pileri doethineb ydynt yn sicr a barnu wrth gyfraniad rhai Aelodau yn y drafodaeth hon ar yr adeilad newydd.

Cafwyd llawer o feddwl creadigol wrth ailgynllunio'r ystafell, ond ni all hynny guddio'r ffaith nad yw'n siâp delfrydol i gynorthwyo dadl ddemocrataidd briodol. Mae angen cynllun eistedd mwy agored arnom, gallu gweld heb ddim rhwystrau ar ein traws, mwy o le, ac, yn bwysicaf ôl, mae angen gwell mynediad i'r cyhoedd oddi mewn i'r Siambr ac yn ei chyffiniau. Mae angen inni gynnal ein busnes mewn modd agored a thryloyw. Ni allwn fod yn agored a thryloyw os mai dim ond dyrnaid o bobl a all ein gweld ni'n gweithio. Tybiaf i Janice Gregory wneud pwynt da. Hoffwn yn arbennig weld gwell cyfleusterau i bartïon o blant ysgol fel eu bod yn gallu ymweld â'r Cynulliad, ei weld wrth ei waith a chael eu hysbrydoli gan weledigaeth o'r hyn y mae'n ei olygu.

Yr hyn sydd gennym yw ateb da dros dro. Mae'n annigonol fel calon y Cynulliad yn y tymor hir. Mae yna fanylion pwysig y mae gofyn eu datrys yng nghynllun yr adeilad newydd a bydd y Prif Ysgrifennydd yn ymgynghori â'r Llywydd ac Arweinwyr y Pleidiau yn fuan ynghylch y rhain. Yr ydym yn dal yn argyhoeddedig mai datblygu'r adeilad newydd a gynigiwyd gan Bartneriaeth Richard Rogers yw'r dewis cywir, ac y dylem fwrw ymlaen i adeiladu'r cynllun modern a blaengar hwn heb oedi.

Mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau yn gobeithio y bydd ein cyd-Aelodau yn gwbl gytûn pan gyflwynir y ffeithiau iddynt.

them. I hope that we can support the construction project and that we will look forward to its completion in the year 2001. I concur with Rhodri Glyn's comments about the people of Wales, that they own the building and the Assembly. That is the key to the heart of Wales as it moves into the millennium. I think that we have struck the right balance and I consider the start-up and estimated running costs to be reasonable and to represent good value for money.

I say to the proposers of this motion that there is inevitably a cost associated with establishing a new, devolved and more democratic body, which aims to bring decision making close to the people it serves. The responsibility for ensuring that the expenditure incurred is not wasteful rests firmly within this Chamber. I welcome the constructive comments of Members who want to see the Assembly succeed in improving government and, in particular, the management of public funds in Wales. However, I deplore any attempt to use the issue of cost as a smoke screen to attack the legitimacy of this institution which so many of us fought so hard to deliver in Wales.

The First Secretary yesterday put forward the achievement of best value in Government as one of the Assembly's key priorities. Every Member has a role to play in ensuring that this body adds value to Welsh people's lives, that it meets the aspirations of the Welsh nation and ensures that a worthy image of Wales is projected onto the world stage. We will be judged on what we do and how we do it. That is the challenge that faces all Assembly Members.

Nick Bourne: Putting forward this motion has in no way been an attack on the Assembly. Nothing can be clearer. Nobody on the Conservative side has questioned the referendum. The word 'referendum' only came up from other parties. So I reiterate that point. I find it shameful that every time it is suggested that money could be spent more wisely on a service other than the Assembly itself, someone says that we are trying to re-

Gobeithiaf y gallwn gefnogi'r prosiect adeiladu ac y byddwn yn edrych ymlaen at ei gwblhau yn y flwyddyn 2001. Cytunaf â sylwadau Rhodri Glyn am bobl Cymru, mai hwy biau'r adeilad a'r Cynulliad. Dyna'r allwedd i galon Cymru wrth iddi symud i'r mileniwm. Tybiaf ein bod wedi cael y cydbwysedd yn iawn a theimlaf fod y costau sefydlu a'r costau rhedeg a amcangyfrifir yn rhesymol a'u bod yn cynrychioli gwerth am arian.

Dywedaf wrth y cynigwyr yn y ddadl hon fod cost anochel ynghlwm wrth sefydlu corff newydd, datganoledig, mwy democrataidd sydd am ddod â'r broses benderfynu yn nes at y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Cyfrifoldeb y Siambr hon, yn bendant iawn, yw sicrhau nad yw'r gwariant a achosir yn wastraffus. Croesawaf sylwadau adeiladol Aelodau sydd am weld y Cynulliad yn llwyddo i wella llywodraeth ac, yn enwedig, y modd y rheolir arian cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, yr wyf yn gresynu at unrhyw ymgais i ddefnyddio ystyriaethau cost fel esgus i ymosod ar ddilysrwydd y sefydliad hwn y mae cynifer ohonom wedi ymladd mor galed i'w wireddu yng Nghymru.

Ddoe, dywedodd y Prif Ysgrifennydd mai un o flaenoriaethau allweddol y Cynulliad yw cyflawni'r gwerth gorau o fewn Llywodraeth. Mae gan bob Aelod rôl i'w chwarae er sicrhau bod y corff hwn yn ychwanegu gwerth at fywydau pobl Cymru, ei fod yn cyflawni dyheadau'r genedl Gymreig ac yn sicrhau bod delwedd werth chweil o Gymru yn cael ei chyfleu ar lwyfan y byd. Cawn ein barnu ar yr hyn a wnawn a sut y'i gwnawn. Dyna'r her sydd yn wynebu holl Aelodau'r Cynulliad.

Nick Bourne: Nid oedd cyflwyno'r cynnig hwn yn ymosodiad o fath yn y byd ar y Cynulliad. Ni allai dim fod yn fwy clir. Nid oes neb ar yr ochr Geidwadol wedi codi amheuan am y refferendwm. Dim ond y pleidiau eraill sydd wedi defnyddio'r gair 'refferendwm'. Felly ailadroddaf y pwynt hwn. Yn fy marn i, mae'n gywilydd bod rhywun, bob tro yr awgrymir y byddai'n ddoethaf gwario arian ar wasanaeth yn

run the referendum. I would not have spent six or seven months of my life on the National Assembly Advisory Group making preparations for this body, stood for election and got elected if I questioned the legitimacy of this body. Nor would I have argued for the importance of consulting Members and the public about a home for the Assembly in my introductory speech, if I wanted to dissolve this body. That would scarcely make sense.

hytrach nag ar y Cynulliad ei hun, yn dweud ein bod yn ceisio ailgynnal y refferendwm. Ni fyddwn wedi treulio chwech neu saith mis o'm bywyd ar Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi ar gyfer y corff hwn, yn sefyll etholiad a chael fy ethol pe bawn yn amau dilysrwydd y corff hwn. Ni fyddwn ychwaith wedi dadlau mor bwysig yw ymgynghori â'r Aelodau a'r cyhoedd ynglŷn â chartref i'r Cynulliad yn fy araith ragarweiniol, pe bawn am ddiddymu'r corff hwn. Prin y byddai hynny'n gwneud synnwyr.

I also find it deeply depressing that every time we suggest spending money on public services people say that we did not do that in our 18 years in government. I am glad that everybody seems to have accepted the 18 years of Conservative Government. I suppose I should feel flattered. However, every time we put forward a constructive proposal, let us not hear it knocked down by people saying that we could have done it when in Government. That is not what this Assembly is about. If we are to escape from Westminster politics, let us concentrate on what we can do in this Assembly Chamber for heaven's sake.

Mae hefyd yn fy nhristáu, bob tro yr awgrymwn ni wario arian ar wasanaethau cyhoeddus, fod pobl yn dweud na wnaethom ni hynny yn ystod ein 18 mlynedd fel llywodraeth. Braf yw gweld bod pawb yn ôl pob golwg wedi derbyn y 18 mlynedd o Lywodraeth Geidwadol. Mae'n siŵr bod hynny'n ganmoliaeth. Fodd bynnag, bob tro y rhown ni gynnig adeiladol ger bron, peidied â'i ddiystyru gan bobl yn dweud y gallem ni fod wedi gwneud hynny fel Llywodraeth. Nid dyna ddiben y Cynulliad hwn. Os ydym i ddianc rhag gwleidyddiaeth San Steffan, gadewch inni ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud yn Siambr y Cynulliad hwn, er mwyn popeth.

I did put forward different options. I do not suggest that they could all be done for £17 million or £12 million. Clearly they cannot. However, it is important that we have a constructive discussion about this new Assembly building. Is it a useful expenditure of public money? Could we spend the money more wisely elsewhere? That is what we need to look at in the months ahead.

Awgrymais wahanol ddewisiadau. Nid wyf yn awgrymu y gellir eu cyflawni oll am £17 miliwn neu £12 miliwn. Mae'n amlwg na ellir. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cael trafodaeth adeiladol am yr adeilad newydd i'r Cynulliad. A yw'n wario buddiol ar arian cyhoeddus? A allem wario'r arian yn ddoethach mewn mannau eraill? Ar hyn y dylem ni edrych dros y misoedd nesaf.

The Assembly's First Secretary, and now Edwina, has promised that there will be involvement. I welcome that but I hope that it will be wider than just people in the Assembly. If we really want open democracy and the involvement of people in Wales, let us ask them what they feel. When I have spoken to people, they have had grave doubts about this new building. Do we really need a new Assembly home? It seems to revolve around the question of the Assembly Chamber. We have all acknowledged the

Mae Prif Ysgrifennydd y Cynulliad, ac Edwina erbyn hyn, wedi addo y caiff eraill lais. Yr wyf yn croesawu hynny ond gobeithiaf y bydd yn fwy eang na phobl yn y Cynulliad yn unig. Os ydym o ddifrif am gael democratiaeth agored a llais i bobl yng Nghymru, gofynner iddynt am eu barn. Wrth imi siarad â phobl, mae ganddynt amheuan mawr am yr adeilad newydd hwn. A oes gwir angen cartref newydd i'r Cynulliad arnom? Ymddengys mai Siambr y Cynulliad sydd wrth graidd y drafodaeth. Mae pawb ohonom

magnificent work done in getting this building up to its present standard, and the facilities available. We are now talking about an Assembly Chamber, not a whole building.

It is not about a referendum, it is not a re-run of the devolution debate. It is about the sensible use of public money. Going back to the First Secretary's State of the Nation address yesterday, Best Value underpinned all the objectives set out in that paper and speech. How do we improve job prospects? How do we improve housing? How do we improve health? How do we improve education? If every time that we suggest spending money someone says that we cannot be serious about spending money on public services because we are Conservatives, then it is a deeply depressing day for democracy. It is depressing that we cannot engage in real debate in this Assembly Chamber. Perhaps that has been one good thing this afternoon; we are beginning to do that. Let us look at the money and see if it can be spent more sensibly.

4:59 p.m.

The First Secretary: I recognise many of the points that you make. However, if you return to the question asked by Helen Mary, to which you referred, you will find that the Assembly was told that there will be an opportunity to engage with these issues at the appropriate time. Why try to close the process off at this stage? That does not sound like a contribution to debate.

Nick Bourne: I am not sure that Helen Mary asked such a question. Was that in this debate?

Helen Mary Jones: To clarify, I did not ask that question, but the question was asked. However, at this point in the debate I do not think it matters who did so. The point is that we have had the reassurance of the First Secretary, for which Plaid Cymru is grateful.

wedi cydnabod y gwaith rhagorol a wnaed yn gwella'r adeilad hwn i'r safon yma, a'r cyfleusterau sydd ar gael. Yr ydym yn awr yn siarad am Siambr i'r Cynulliad, nid adeilad cyfan.

Nid mater o refferendwm yw hyn, nid ailgynnal y ddadl datganoli. Mater yw o ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth. A mynd yn ôl at anerchiad Cyflwr y Genedl y Prif Ysgrifennydd ddoe, yn sail i'r holl amcanion a nodwyd yn y papur hwnnw a'r araith yr oedd Gwerth Gorau. Sut mae gwella'r rhagolygon am swyddi? Sut mae gwella tai? Sut mae gwella ieuchyd? Sut mae gwella addysg? Os bydd rhywun, bob tro yr awgrymwn ni wario arian, yn dweud na allwn fod o ddifrif am wario arian ar wasanaethau cyhoeddus am mai Ceidwadwyr ydym, yna mae'n ddiwrnod du ar ddemocratiaeth. Mae'n dristwch na allwn gynnal dadl wirioneddol yma yn Siambr y Cynulliad. Hwyrach bod hyn yn un peth da a welwyd brynhawn heddiw; ein bod yn dechrau gwneud hynny. Gadewch inni edrych ar yr arian a gweld a ellir ei wario'n fwy doeth.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn gyfarwydd â llawer o'r pwyntiau a wnewch. Fodd bynnag, os ewch chi'n ôl at y cwestiwn a godwyd gan Helen Mary, y cyfeiriasoch chi ato, cewch weld bod y Cynulliad wedi cael gwybod y bydd yna gyfle i ymdrin â'r materion hyn ar yr adeg briodol. Pa ddiben sydd mewn ceisio dod â'r broses i ben ar hyn o bryd? Nid yw hynny'n swnio fel cyfraniad at ddadl.

Nick Bourne: Nid wyf yn siŵr i Helen Mary ofyn cwestiwn o'r fath. Oedd hynny yn y ddadl hon?

Helen Mary Jones: I egluro, ni ofynnais i'r cwestiwn hwnnw, ond fe'i gofynnwyd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd yn y ddadl, ni thylbiaf fod pwy a'i gofynnodd yn bwysig. Y pwynt yw inni gael sicrwydd gan y Prif Ysgrifennydd, ac mae Plaid Cymru yn ddiolchgar am hynny.

Nick Bourne: As I said, I welcome the assurance that there will be genuine debate about the Assembly Chamber and whether money is being sensibly used. I am sure that all parties will want to engage in that debate to determine whether it is a sensible use of public money, whether we are getting best value or whether the money could be better spent elsewhere. There may well be different views on how that money should be spent, which is why I wanted to talk about different options earlier.

To return to the fundamental point, at the end of four years, when we go forward to the next Assembly elections, we want to be able to turn to the people in Wales and say what we as an Assembly have achieved. We want to ensure that the turnout is higher than the very low one in the referendum. We want to move things forward. We can only do that if we have constructive debates, if we talk about the sensible use of the finite amount of public money available.

Rhodri Glyn Thomas: Mater o drefn. A ydym i bleidleisio ar y cynnig hwn yn union fel y mae'n ymddangos ar y papur? Yr wyf eisiau bod yn glir am hyn, oherwydd y mae'r bobl sydd yn pleidleisio dros hwn yn cytuno bod gwario arian ar y Cynulliad fel corff yn wastraff.

Y Llywydd: Y drefn, fel arfer, yw ein bod yn pleidlesio ar yr hyn sydd gerbron y Cynulliad. Nid oes modd pleidleisio ar ddim arall. Felly, byddwn yn pleidleisio ar yr union eiriad sydd yn y cynnig bob amser, os nad oes cambrintiad neu camsillafu wedi digwydd. Ond, fel mater o drefn, yr ydym yn pleidleisio ar y geiriad gerbon. Yr wyf felly yn gosod y cynnig.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y cynnig.*

The Presiding Officer: I have had a request for a confirmatory vote.

Nick Bourne: Fel y dywedais, yr wyf yn croesawu'r sicrwydd y ceir trafodaeth wirioneddol am Siambr y Cynulliad ac a yw'r arian yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth. Yr wyf yn siŵr y bydd pob plaid am gyfrannu i'r drafodaeth honno i benderfynu a yw'n ddefnydd doeth o arian cyhoeddus, a ydym yn cael y gwerth gorau ac a ellid gwario'r arian yn well yn rhywle arall. Mae'n bosibl iawn y ceir amrywiaeth barn am sut y dylid gwario'r arian, a dyna pam yr oeddwn am sôn am opsiynau gwahanol yn gynharach.

I ddod yn ôl at y pwynt sylfaenol, ar ddiwedd pedair blynedd, wrth inni gamu tuag at etholiadau nesaf y Cynulliad, yr ydym am allu troi at bobl Cymru a dweud beth a gyflawnwyd gennym ni fel Cynulliad. Yr ydym am sicrhau y daw mwy allan i bleidleisio na'r niferoedd isel iawn yn y refferendwm. Yr ydym am i bethau symud ymlaen. Dim ond os ceir dadlau adeiladol y gallwn wneud hynny, os trafodwn ni sut mae defnyddio'r swm cyfyngedig o arian cyhoeddus sydd ar gael yn ddoeth.

Rhodri Glyn Thomas: Point of order. Are we voting on the exact wording of this motion as it appears on the paper? I want to be clear about this, because people who vote in favour of this are agreeing that to spend money on the Assembly as a body is wasteful.

The Presiding Officer: The order usually is that we vote on what is before the Assembly. It is not possible to vote on anything else. Therefore, we will be voting on the exact wording of the motion in every case, unless there is a misprint or misspelling. But, as a point of order, we vote on the wording before us. I therefore put the motion forward.

*A vote was held by show of hands.
Motion rejected.*

Y Llywydd: Cefais gais am bleidlais gadarnhau.

5:09 p.m.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 8, Ymatal 1, Yn erbyn 47

The Assembly divided: For 8, Abstain 1, Against 47

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
 Cairns, Alun
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Graham, William
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Richards, Rod

Ymataliodd yr Aelod canlynol:
The following Member abstained:

Davidson, Jane

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Davies, Andrew
 Davies, Geraint
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Davies, Ron
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Feld, Val
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Humphreys, Christine
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David Rhys
 Marek, John
 Michael, Alun
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Gwrthodwyd y cynnig.
Motion rejected.

The Presiding Officer: I declare today's proceedings closed.

Y Llywydd: Yr wyf yn datgan bod trafodion heddiw ar ben.

Daeth y sesiwn i ben am 5.09 p.m.
The session ended at 5.09 p.m.